476



# CHWEDLEU
# SEITH DOETHON RUFEIN

# CHWEDLEU
# SEITH DOETHON RUFEIN

## O
## LYFR COCH HERGEST

GOLYGWYD GAN
HENRY LEWIS
COLEG Y BRIFYSGOL, ABERTAWE

WRECSAM
HUGHES A'I FAB, CYHOEDDWYR
1925

ARGRAFFWYD YNG NGHYMRU

*I Goffadwriaeth*

*THOMAS POWEL, M.A., D.Litt.,*

*Gŵr bonheddig ac Ysgolhaig.*


Digitized by the Internet Archive
in 2026

https://archive.org/details/chwedleuseithdoe0000henr

# CYNNWYS


*Td.*

Rhagymadrodd . . . . . 13

I. Trosiadau'r Dwyrain . . . . . 13
II. Trosiadau'r Gorllewin . . . . . 14
A *Dolopathos* . . . . . 15
B. *Saith Ddoethion Rhufain* . . . . 16
III. Cyd-berthynas y Trosiadau . . . . . 17
IV. Y Trosiadau Cymraeg . . . . . 21
A. Canol . . . . . 21
B. Diweddar . . . . . 29
V. Y Testun . . . . . 30
VI. Orgraff ac Iaith y Testun . . . . . 31

*Chwedleu Seith Doethon Rufein* . . . . . 43

[1. *Arbor*] . . . . . 46
[2. *Canis*] . . . . . 47
[3. *Aper*] . . . . . 49
[4. *Medicus*] . . . . . 50
[5. *Gaza*] . . . . . 52
[6. *Puteus*] . . . . . 54
[7. *Ramus*] . . . . . 56
[8. *Roma-lupus*] . . . . . 57
[9. *Virgilius*] . . . . . 59
[10. *Vidua*] . . . . . 62
[11. *Sapientes*] . . . . . 67
[12. *Inclusa*] . . . . . 69
[13. *Senescalcus*] . . . . . 73
[14. *Tentamina*] . . . . . 74
[15. *Vaticinium*] . . . . . 78

Amrywiadau . . . . . 83

Nodiadau . . . . . 93

Geirfa . . . . . 105

# BYRFODDAU

| | | |
|---|---|---|
| A. | .. | Casgliad o lawysgrifau Ffrangeg yn cynnwys trosiad arbennig o stori *Saith Ddoethion Rhufain*. Gweler y Rhagymadrodd, td. 17. |
| Arg. | .. | Argraffiad. |
| B.B. | .. | Llyfr Du Caerfyrddin, argraffiad y Dr. J. Gwenogvryn Evans. |
| B.B.C.S. | .. | *The Bulletin of the Board of Celtic Studies.* |
| B.T. | .. | Llyfr Taliesin, argraffiad y Dr. J. Gwenogvryn Evans. |
| C. | .. | Llawysgrif yn Llyfrgell Rydd Caerdydd. |
| C.M. | .. | *Ystorya de Carolo Magno*, Thomas Powell, 1883. |
| D. | .. | Trosiad rhyddiaith Ffrangeg o stori *Saith Ddoethion Rhufain*. Gweler y Rhagymadrodd, td. 17. |
| D.D. | .. | Geiriadur y Dr. John Davies o Fallwyd, 1632. |
| D.FF. | .. | *Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr*, Maurice Kyffin, 1595, argraffiad Urdd y Graddedigion, 1908, dan olygiaeth W. P. Williams. |
| D.D.G. | .. | *Detholion o Gywyddau Dafydd ap Gwilym*, Ifor Williams, 1921. |
| Eccl. | .. | Ecclesiasticus, o'r Apocrypha. |
| E.E.W. | .. | *The English Element in Welsh*, T. H. Parry-Williams, 1923. |
| Eph. | .. | Yr Epistol at yr Ephesiaid. |
| F.N. | .. | *Y Flodeugerdd Newydd*, W. J. Gruffydd, 1909. |
| G. | .. | *Gorchestion Beirdd Cymru*, Rhys Jones, 1773. |
| E.W.G. | .. | *An Elementary Welsh Grammar*, Sir. J. Morris-Jones, 1921. |
| G.C. | .. | *The History of Gruffydd ap Cynan*, Arthur Jones, 1910. |
| Gw. | .. | Gwyddeleg. |
| H. | .. | Llawysgrif Havod, yn Llyfrgell Rydd Caerdydd. |
| H.M. ii. | .. | *Selections from the Hengwrt MSS., Vol. ii.*, Robert Williams a G. Hartwell Jones, 1892. |
| I.D. | .. | Ieuan Deulwyn. |
| I.G.E. | .. | *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams, 1925. |

| | | |
|---|---|---|
| J. | .. | Llawysgrif Coleg yr Iesu, Rhydychen, yn Llyfrgell Bodley. |
| K. | .. | Trosiad mydr Hen Ffrangeg o stori *Saith Ddoethion Rhufain*. Gweler y Rhagymadrodd, td. 17. |
| L. | .. | Trosiad Hen Ffrangeg arall; gweler td. 17. |
| LL. | .. | Llawysgrif Llanstephan, yn y Llyfrgell Genedlaethol. |
| LL.A. | .. | Llyfr yr Ancr, *The Elucidarium and other Tracts*, J. Morris-Jones and John Rhŷs, Oxford, 1894. |
| LL.O. | .. | Llawysgrif Llanofer, yn y Llyfrgell Genedlaethol. |
| Llsgr. | .. | Llawysgrif. |
| M.A.[2] | .. | *The Myvyrian Archaiology of Wales*, argraffiad Dinbych, 1870. |
| M.E. | .. | Saesneg Canol. |
| O.F. | .. | Hen Ffrangeg. |
| P. | .. | Llawysgrif Peniarth, yn y Llyfrgell Genedlaethol. |
| R.B. | .. | Llyfr Coch Hergest. |
| R.B.B. | .. | Red Book Bruts, argraffiad John Rhŷs a J. Gwenogvryn Evans. |
| R.C. | .. | *Revue Celtique*. |
| R.M. | .. | Red Book Mabinogion, argraffiad John Rhŷs a J. Gwenogvryn Evans. |
| R.P. | .. | Red Book Poetry, argraffiad J. Gwenogvryn Evans. |
| S. | .. | Saesneg. |
| S.C. | .. | Saesneg Canol. |
| S.G. | .. | *Y Seint Greal*, Robert Williams, 1876. |
| W.G. | .. | *A Welsh Grammar*, J. Morris-Jones, 1913. |
| W.M. | .. | *The White Book Mabinogion*, J. Gwenogvryn Evans, 1907. |
| W.M.L. | .. | *Welsh Medieval Law*, A. W. Wade-Evans, Oxford, 1909. |
| Y.L.H. | .. | *Yn y lhyvyr hwnn*, Sir John Price, 1546, argraffiad Urdd y Graddedigion, 1902, dan olygiaeth J. H. Davies. |
| ZfCP. | .. | *Zeitschrift für celtische Philologie*. |

# RHAGAIR

SEILIAIS y rhan honno o'r Rhagymadrodd sy'n ymwneuthur â hanes stori Saith Ddoethion Rhufain ar waith Killis Campbell yn ei lyfr *The Seven Sages of Rome* (Boston, Ginn & Company 1907.) Ceir yn y rhagymadrodd i'r llyfr hwnnw grynodeb llawn o'r holl ymchwilio a fu yn y maes diddorol hwn, gan Comparetti (*Ricerche intorno al libro di Sindibâd*, Milan, 1869, a gyfieithwyd i'r Saesneg gan H. C. Coote, dan y teitl *Book of Sindibâd*), Goedeke, Mussafia, ac yn arbennig Gaston Paris. Mae rhagymadrodd yr olaf i'w lyfr *Deux Rédactions du Roman des Sept Sages de Rome*, Paris, 1876, yn werthfawr iawn, a'r dosbarthiad ynddo o'r gwahanol ffurfiau ar y stori yn bur agos i fod yn derfynol. (Dywed ar dud. xli fod trosiad o un o'r ffurfiau hyn, sef y Lladin *Historia Septem Sapientum*, wedi ei wneuthur i'r Gymraeg ymhlith ieithoedd eraill, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r Lladin. Ni all hyn fod yn gywir.) Ymddangosodd llawer o erthyglau a nodiadau gwerthfawr gan Paris yn y gwahanol gyfrolau o *Romania* hefyd, a chefais lawer o help o'r rheini. Hefyd bu dwy gyfrol Alfons Hilka yn ddefnyddiol, sef

*Historia Septem Sapientum*, I (cyfieithiad Lladin o *Mischle Sendabar*), a II *Johannes de Alta Silva Dolopathos* (*Sammlung mittellateinischer Texte*, 4 a 5, Heidelberg 1912 a 1913, Carl Winter).

Er mai i ddosbarthiadau Cymraeg y Brifysgol yn bennaf y bwriedir y llyfr, eto hyderaf na bydd yn annerbyniol gan neb sy'n cymryd diddordeb yn iaith a llenyddiaeth Cymru. Manylais dipyn ar rai o'r pethau yn iaith y testun a allai fod yn rhwystr i'r sawl a fo'n anghyfarwydd ag iaith y cyfnod canol i allu dilyn y stori. Gobeithiaf y bydd hynny'n help i ddosbarthiadau uchaf yr ysgolion canol, ac yn wir i'r dosbarthiadau allanol sydd dan nawdd y Brifysgol. Canys nid clawdd ieithyddol yn unig ydyw'r testun hwn. Cyfyngais y nodiadau yn bennaf i'r pethau a ymddangosai i mi'n anhawsaf o ran iaith a chystrawen. Y mae gramadegau Syr John Morris-Jones ac argraffiadau'r Athro Ifor Williams o *Freuddwyd Maxen* a *Chyfranc Lludd a Llevelys* bellach yn arbed yr angen am fynd i'r holl fanylion yn yr iaith.

Dechreuais weithio ar destunau Cymraeg *Saith Ddoethion Rhufain* dipyn cyn y rhyfel mawr, ar gyngor y gŵr y cyflwynaf y gwaith i'w goffadwriaeth. Nid yw hyn ond cyfran fechan iawn o'r ddyled enfawr sydd arnaf i'm hen athro.

HENRY LEWIS.

# RHAGYMADRODD

MAE Chwedlau'r Saith Ddoeth yn rhan o'r etifeddiaeth fawr o storiâu a ddaeth o'r Dwyrain. Bernir yn gyffredin mai o'r India y daethant yn wreiddiol, a darfod eu cyfansoddi gyntaf, efallai, tua'r bumed ganrif cyn Crist. Yr enw a roir ar y ffurf ddwyreiniol yw *Llyfr Sindibâd*. Dyma rediad y stori. Temtir tywysog ifanc gan un o ordderchwragedd y brenin ei dad, ond yn ofer. Yna cyhuddir ef ganddi, megis Ioseff gan wraig Putiffar, o geisio'i threisio hi, a chondemnir ef i'w ladd. Ond buasai'r tywysog dan hyfforddiad Sindibâd, y pennaf o'r doethion. Credai'r doethion hyn ei fod yn ddi-euog, ac wedi gorfodi'r mab i dewi saith niwrnod cawsant gan y brenin ohirio'r dienyddiad o ddydd i ddydd drwy adrodd storiâu wrtho yn dangos twyll gwragedd. Atebai'r wraig â storiâu bob nos. Daliai'r brenin i newid ei feddwl o ddydd i ddydd am y saith niwrnod. Ond yr wythfed dydd, llefarodd y mab drosto'i hun. Dadlennodd dwyll y wraig, cosbir hi, ac arbedir ei fywyd ef.

## I. TROSIADAU'R DWYRAIN.

Ni chadwyd y stori yn ei ffurf wreiddiol. Ceir rhyw wyth drosiad ohoni yn y Dwyrain. Mae'n debig i'r stori ledu i Arabia, a'i threfnu

yno gan un o'r enw Musa, tua'r wythfed ganrif ar ôl Crist. Collwyd y ffurf hon ar y stori, ond mae'n dra thebig mai ohoni hi y tardd yr wyth drosiad a gadwyd yn y Dwyrain. Yr hynaf o'r rhain yw'r Syrieg *Sindban*, a berthyn i'r ddegfed ganrif. O'r trosiad hwn y deilliodd y Groeg *Syntipas*, gwaith Michael Andreopulos yn ôl y prolog, a roir yn ail hanner yr unfed ganrif ar ddeg gan Comparetti, ond yn ddiweddarach gan eraill. O destun Arabeg Musa y tarddodd y trosiad Hen Sbaeneg *Libro de los Engannos*, a berthyn i'r flwyddyn 1253. Ceir amryw drosiadau Perseg, ar fydr ac yn rhyddiaith. O'r olaf, testun As-Samarquandî (diwedd y ddeuddegfed ganrif) yw ffynhonnell y ffurf ryddiaith a geir yn Wythfed Noswaith y *Tûtâ-nimeh* gan Nachshebî tua 1300 a'r ffurf fydryddol *Sindibâd-nâmeh* a berthyn i'r flwyddyn 1375. Cyfeirir hefyd at drosiadau Perseg eraill sy bellach ar goll. Cymharol ddiweddar yw'r trosiad Arabeg, y *Saith Vezir*, a geir mewn pedair llawysgrif. *Mischle Sendabar* yw enw'r trosiad Hebraeg. Mae'n bur debig ei fod yntau'n seiliedig yn y pen draw ar ffurf Arabeg yr wythfed ganrif. Fe'i priodolir i'r drydedd ganrif ar ddeg gan Comparetti, ond daliai rhai o'r beirniaid ei fod yn hŷn na'r trosiad Syrieg.

## II. TROSIADAU'R GORLLEWIN.

Aeth y stori yn dra phoblogaidd yn y Gorllewin, ac fe ddigwydd yn rhyw ffurf neu'i

gilydd bron ym mhob iaith yn Ewrop. Ceir o leiaf ddeugain o wahanol drosiadau ohoni, yn un o'i ffurfiau, yn y Gorllewin. Digwydd mewn rhyw ddau cant o lawysgrifau, ac mewn rhyw ddau cant a hanner o argraffiadau. Nid oedd y stori mor boblogaidd yn y ffurf arall arni a geir yn y Gorllewin, er mai copi o'r ffurf olaf hon yw'r hynaf sy'n bod erbyn hyn.

### A. *Dolopathos.*

Gwaith Johannes de Alta Silva, mynach Sistersiaidd o fynachlog Alta Silva, sef Haute-Seille, yn esgobaeth Nancy yn Ffrainc, yw'r olaf. Teitl ei waith yw *Dolopathos, sive De rege et septem sapientibus.* Daeth mynachlog Haute-Seille dan lywodraeth esgob Metz yn 1184, a chan fod Johannes yn cyflwyno'i *opusculum de rege et septem sapientibus* i Bertrand, esgob Metz, a bod hwnnw'n esgob o 1179 i 1212, bernir mai tua diwedd y ddeuddegfed ganrif y cyfansoddwyd y gwaith. Digwydd y gwaith mewn chwech o lawysgrifau, yr hynaf ohonynt, a gedwir yn llyfrgell Lwcsembwrg, yn perthyn i ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Dolopathos yw enw'r tad, brenin Sicilia dan Augustus Cesar. Priododd chwaer Cesar, a ganed iddynt un mab a elwid Lucinius. Rhodded y mab dan y bardd Virgilius i'w addysgu. Bu farw ei fam, a phriododd ei dad eilwaith. Parodd y llysfam i'r brenin alw ei fab ger eu bron. Ceisiodd honno rwydo'r mab, a phan fethodd hynny ganddi,

ei ladd. Achubwyd bywyd y tywysog drwy iddo fod yn fud nes iddo weld Virgilius eto, a saith o ddoethion yn adrodd bob un ei stori am saith niwrnod, a Virgilius yr wythfed dydd.

O destun rhyddiaith Ladin Johannes y cafwyd trosiad mydr Ffrangeg y trwfêr Herbert, ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg. Dilynir y Lladin yn bur gywir, ag eithrio bod dwy stori wedi eu clytio ynghyd gan Virgilius, un ohonynt heb fod yn y Lladin. Cytuna *Dolopathos* â *Llyfr Sindibâd* yn hyn, mai un gŵr sy'n gyfrifol am addysg y mab. Ond un yn unig o chwedlau *Llyfr Sindibâd* a geir yn *Dolopathos*, ac ni cheir chwedlau'r frenhines yn *Dolopathos* o gwbl. Fe sylwir hefyd fod gordderchwraig *Llyfr Sindibâd* wedi troi'n llysfam yn *Dolopathos*. Mae'r cyfnewidiad hwn yn gyffredin yn holl ffurfiau'r Gorllewin.

### B. *Saith Ddoethion Rhufain.*

I'r ffurf orllewinol arall ar y stori y perthyn yn briodol y teitl *Saith Ddoethion Rhufain*. Hon hefyd oedd ffurf boblogaidd y Canol Oesoedd. Y mae nifer ei throsiadau yn fawr iawn, ac fe'i ceir yn Ffrangeg, Eidaleg, Lladin, Saesneg, Almaeneg, Isdireg, Sbaeneg, Rwsieg, Tsecheg, Bwlgareg, Poleg, Lithwaneg, Swedeg, Islandeg, Daneg, Armenieg, Magyareg, a Chymraeg. Dosbarthodd Gaston Paris y rhan fwyaf o'r rhain yn wyth gasgliad o olygiadau, ar sail y trosiadau Lladin, Ffrangeg, ac Eidaleg. Ond

deil y dosbarthiad hwn gyda'r holl drosiadau Ewropaidd. Tybid gynt mai'r trosiad Lladin, *Historia Septem Sapientum Romæ*, a argraffwyd gyntaf yn 1475, oedd ffynhonnell y trosiadau eraill oll. Ond dangosodd Gaston Paris fod ôl dylanwad y *Gesta Romanorum* ar yr *Historia*. Tua diwedd y drydedd ganrif ar ddeg y cyfansoddwyd y *Gesta Romanorum*, yn Lloegr. Ceir y darn hynaf o'r *Historia* mewn llawysgrif o'r flwyddyn 1377. Felly dyry Paris tua 1330 fel blwyddyn cyfansoddi'r *Historia Septem Sapientum Romæ*. Mae felly'n rhy ddiweddar i'w roi'n ffynhonnell i'r trosiadau gorllewinol eraill.

### III. CYD-BERTHYNAS Y TROSIADAU.

Olrheinir tri o'r casgliadau yn nosbarthiad Paris i un o'r lleill, sef A. Ceir ôl dylanwad A ar gasgliad arall, sef L. Dan K dyry Paris drosiad mydryddol Hen Ffrangeg a briodola i tua 1155, a than D drosiad rhyddiaith ag arno olion amlwg mai o drosiad mydryddol y lluniwyd ef. Awgryma Campbell, yn ei ragymadrodd i'w argraffiad o drosiad mydr Saesneg Canol o'r stori, fod K, D ac A yn mynd yn ôl i'r un ffynhonnell, sef rhyw drosiad mydr a gollwyd erbyn hyn eithr a oedd yn fan cychwyn yr holl ffurfiau ar y stori yn y Gorllewin. Ymhellach, gesyd gyfansoddiad gwreiddiol A yn y ddeuddegfed ganrif, ac fel y dywedwyd eisoes rhoir K tua 1155. Mae'n canlyn felly fod *Llyfr Sindibâd*, ar ei dreigl o'r

India, wedi cyrraedd Ewrop fel *Saith Ddoethion Rhufain* cyn canol y ddeuddegfed ganrif.

Yn ôl Comparetti, buasai yn y ffurf hynaf oll ar y stori un chwedl gan bob un o'r seithwyr doeth, ac ateb i bob un gan y frenhines. Ond yn y ffurf ddwyreiniol sy'n hysbys, ceir o leiaf ddwy stori gan bob un o'r seithwyr doeth. Yn *Dolopathos*, fel y gwelwyd, un stori'r un sy ganddynt, heb ateb o gwbl gan y frenhines, ac un o'r chwedlau'n unig yn y *Dolopathos* a geir yn y ffurf ddwyreiniol. Yn *Saith Ddoethion Rhufain*, un chwedl yr un sy gan y doethion ac ateb i bob un gan y frenhines, ond ceir yn y ffurf gyffredinol hon dair o'r chwedlau sydd yn *Llyfr Sindibâd*. Saif yr athronydd Sindibâd ar ei ben ei hun yn y trosiadau Dwyreiniol, ac y mae'r bardd Fferyll neu Virgilius yn debig yn *Dolopathos*. Nid enwir y doethion eraill yn y naill na'r llall. Lleolir y stori yn y Dwyrain yn *Llyfr Sindibâd*, yn Sicilia yn *Dolopathos*, ond darfod anfon y mab i Rufain i'w addysgu gan Fferyll. Eithr yn Rhufain y lleolir y stori yn ei ffurf Orllewinol, ag eithrio K a D, lle y rhoir hi yng Nghaergystennin. Enwir y seithwyr doeth yn y trosiadau Gorllewinol, er bob ffurf yr enwau'n amrywio'n fawr. Fel rheol Diocletianus, mewn amryfal ffurfiau, yw enw'r ymherawdr, ond ceir hefyd Vespasianus, Marcomeris a Pontianus. Yn y trosiadau hynaf nid enwir y tywysog o gwbl. Byddai'n hawdd ymhelaethu ar yr amrywiadau aml a geir yn y gwahanol drosiadau.

Beth a barodd yr amrywiadau hyn, a pha fodd yr ymlwybrodd y stori boblogaidd hon o'r India i'r Gorllewin ? Barnai Gaston Paris mai o drosiad Groeg *Llyfr Sindibâd* yr ymledodd i Ewrop, darfod i'r stori dderbyn ffurf newydd yn ymerodraeth Byzantium, ac iddi fynd felly i'r Eidal ac yna drwy'r Gorllewin. Ond barn y mwyafrif yw mai'r Hebraeg *Mischle Sendabar* a fu'n bont rhwng Dwyrain a Gorllewin i'r stori groesi. Mae amryw gyffelybiaethau o blaid y dyb hon. Er enghraifft, enwir y doethion yn y naill a'r llall, mae'r doethion yn ymgystadlu am hyfforddi'r mab. Ceir hefyd gyd-darawiadau rhyfedd rhwng y naill a'r llall yn rhai o'r chwedlau. Ymhellach, darganfu Hilka gyfieithiad Lladin o'r *Mischle Sendabar*, ac er bod y llawysgrif mor ddiweddar â 1407 cred mai yma y ceir y cymal cysylltiol, fel petai, rhwng Dwyrain a Gorllewin.

Ond prin y gellir bod yn bendant yn hyn o beth. Ymddengys Campbell yn bur agos i'w le pan ddywed mai drwy Syria a Phalesteina y cerddodd y stori, ac mai rhyw groesgadwr a'i cludodd adref gydag ef i Orllewin Ewrop rywbryd cyn canol y ddeuddegfed ganrif. Dengys yr amrywiadau y cyfeiriwyd atynt uchod fod rhywbeth amgen nac aml gyfieithu wedi lledu'r chwedlau hyn. Wrth gloi'r *Dolopathos* y mae Johannes de Alta Silva yn gofyn i'r darllenydd nad edliwio iddo'i fod wedi sgrifennu'r anghredadwy a'r amhosibl na'i gollfarnu ychwaith, " canys ysgrifennwyd hwy gennyf er difyrrwch a

lles y darllenwyr, od oes rai, nid megis pethau a welwyd eithr a glywyd (*non ut uisa sed ut audita*)". Dyma dystiolaeth bendant fod y chwedlau ar lafar, ac enghraifft gynnar o ddyn yn ysgrifennu'r chwedlau hyn fel yr adroddid hwy ar dafod leferydd, yn hytrach na'u cyfieithu neu eu copïo o ryw lawysgrif. Priodol fyddai cymharu'r modd y traddodwyd y mabinogi i ni, fel y disgrifiwyd gan yr Athro Gruffydd ; yn gyntaf y myth, yna'r llên gwerin, yna'r cyfarwyddyd ar lafar, yn olaf y cyfarwyddyd ar lyfr. Gellir yn hawdd ddeall pa fodd a pha faint y newidiai'r chwedlau hyn a'r stori i gyd ar ei gyrfa o dafod i glust. Yr oedd ffrâm y stori'n bur hawdd ei chofio, eithr nid felly holl fanylion ei deunydd. Nid rhyfedd, ynteu, yw cael bod rhai chwedlau o'r trosiadau hynaf ar goll yn y rhai diweddarach, bod llawer o wahaniaethau mawr a mân yn y chwedlau sy gyffredin iddynt oll, a bod amrywiadau mawr hyd yn oed yn y trosiadau hynny y gellir yn weddol rwydd eu holrhain i'r un ffynnon. Pan elai chwedl yn angof, dyna ddychymyg a dyfais y cyfarwydd, neu'r ystorïwr, yn creu chwedl i gymryd ei lle, neu'n benthyca unrhyw chwedl a wyddai a wnâi'r tro. Yn wir, y mae hyn oll yn tystio'n hyawdl dros boblogrwydd mawr *Saith Ddoethion Rhufain* yn Ewrop yn y Canol Oesoedd.

## IV. Y TROSIADAU CYMRAEG.

### A. Canol.

Cyrhaeddodd y stori Gymru, ac ysgrifennwyd hi yn y Canol Oesoedd. Ceir hi mewn tair llawysgrif yn ei ffurf Gymraeg Ganol, sef Llyfr Coch Hergest, J. 3, a IL. 2. Yn y llawysgrif gyntaf, sgrifennwyd hi yn chwarter cyntaf y bymthegfed ganrif; yn yr ail, yn hanner cyntaf yn y drydedd, yn ail hanner yr un ganrif. Mae'r tri chopi hyn yn dra thebig i'w gilydd, ac nid oes ynddynt namyn amrywiad geiriau gan mwyaf. Pa faint hŷn yw'r stori na dechrau'r bymthegfed ganrif, os yw o gwbl, y mae'n amhosibl dywedyd. Ar ddiwedd y testun yn y Llyfr Coch ceir (mewn llaw na all fod yn hŷn na'r unfed ganrif ar bymtheg) "o weith Lhywely*n* Offeiriat." Yn J. 3, y teitl yw, "Yn y mod hwn y treythir o chwedleu seith doetheon rufein, o weith llewelyn ofer*iat;*" ar y diwedd, "Ac velly y teruyna chwedyl seith doethyon rufein o weith llewelyn." Ceir ar ddechrau'r llawysgrif hon mewn llaw ddiweddar "Liber a quodam Llewelin scriptu." Ni wn ar ba sail y dywedir mai Llywelyn Offeiriad a sgrifennodd y llawysgrif, ond ymddengys yn amlwg mai ef oedd awdur *Chwedleu Seith Doethon Rufein*. Nid yw'n hysbys pwy oedd Llywelyn ychwaith. Mae un peth, efallai, yn erbyn priodoli J. 3 iddo, sef bod ei waith yn digwydd yn Llyfr Coch Hergest, a bod hwnnw ryw gymaint bach yn hŷn na J. 3, er ei fod wedi ei sgrifennu

yn oes Llywelyn os ef a sgrifennodd J. 3. Mae amrywiad yn LL. 2 yn erbyn hynny hefyd. Yn y testun, ll. 724—729 ceir a ganlyn o'r Llyfr Coch.

> A pheunoeth y gwelei y brenhin, trwy y hun, peir a seith troet yn kyuodi ohonaw, yn vn ffunyt a chyt bei ffyryfdan kadarn y danaw. A gwrychyon a deuynt o'r rei hynny am y lygeit ac a'e dallei, tybygei ef.

Yr un yw darlleniad J. 3 (ag eithrio *ffyrydan* a *dybygei ef*). Ond gellir gwella'r synnwyr yn y darn drwy ychwanegu'r geiriau *y danaw a mwc* ar ol *seith troet*. Felly y darllen LL. 2, ac y mae'r synnwyr o blaid y dyb mai felly yr oedd y darlleniad gwreiddiol. Y peth diogelaf i'w awgrymu, efallai, yw mai copi a geir yn y tair llawysgrif o waith Llywelyn Offeiriad.

Ceir copi o stori'r Llyfr Coch linell yn llinell yn LL. 92, a sgrifennwyd, yn ôl Mr. Richard Ellis, ychydig cyn 1700, gan un o gydweithwyr Edward Lhuyd. Ar ei ddiwedd ceir "[o weith Llywelyn offeirat medd Mr. Ed. Llwyd]." Bu'r copi hwn yn llaw Moses Williams, canys y mae dalen o nodiadau o'i waith ar rai o eiriau'r testun yn y llyfr. Teitl y llyfr yw "Hisdoria Saith Doethion Rhufein (or Llyfr Coch o Hergust collated with the original)". Gall mai Moses Williams a gymharodd y copi â'r gwreiddiol, gan fod cyfeiriadau at golofnau'r Llyfr Coch yn ei nodiadau. Gellir sylwi yma fod y ddalen o'r Llyfr Coch y mae'r gol. 545 (wyneb) a'r gol. 546 (cefn) ar yr ymyl allan, wedi ei thorri'n

lletchwith â chyllell, nes colli'r llythrennau eithaf ar ei hyd. Nid oes olion hyn o gwbl i'w gweld yn IL. 92.

Yn P. 120, ceir copi go ganolig a diweddar o stori J. 3. Hwn yw'r copi a argraffwyd yn yr *Hengwrt Manuscripts*, II, 301–24. O ran cynnwys y chwedlau, yr unig wahaniaeth rhwng J. 3 a'r Llyfr Coch yw bod y wlad a elwir "*y Pwyl*" yn yr olaf yn "*Germania*" yn J. 3; gweler ll. 893, a'r td. 89. Yn hyn o beth y Llyfr Coch sy debig i'r stori yn gyffredinol. Cytuna IL. 2 â'r Llyfr Coch yma hefyd.

Yn ôl Campbell, o'r dosbarth hwnnw y cyfeirir ato fel A y tardd y trosiad Cymraeg o'r stori. Nid yw trefn y chwedlau yma'n debig i unrhyw ffurf hysbys arall. Ceir dwy chwedl yn Gymraeg na cheir monynt yn unrhyw drosiad arall, ac y mae un o chwedlau A nas ceir yn Gymraeg, er bod y chwedl honno ymhob dosbarth arall o olygiadau. Dengys hyn nad yw'n debig bod y stori Gymraeg yn gyfieithiad. Mae iaith y testun ei hun yn cadarnhau'r farn honno hefyd.

Galwodd yr Athro Loth sylw flynyddoedd yn ol, yn y *Revue Celtique*, XXIII, 349–352, at y cyd-darawiad rhyfedd rhwng hanes darganfod y mab gan ei lysfam a'r hanes cyffelyb a geir yn *Culhwch ac Olwen*. Dywedodd, yn ddigon teg, mai awdur *Chwedleu y Seith Doeth* yw'r benthyciwr yn hyn o beth, gan na cheir dim cyffelyb yn unrhyw drosiad arall o'r *Saith Ddoethion*. Nid oes amheuaeth nad dylanwad

yr hen stori Gymraeg a welir yma yn *Chwedleu y Seith Doeth*.[1] Eto, ni welir dim ôl cyfieithu yn y testun Cymraeg fel y ceid yn ddiau petasai'r gwaith yn gyfieithiad. Ond heblaw'r enghraifft a ddyry'r Athro Loth, gellir nodi'r darn a geir yn ll. 579—583, (cf. ll. 86—88) :

> A ryfed nat oed yssic penneu y byssed, rac ffesdet y maedei y dwylaw y gyt yn kwynaw y gwr. Vch oed bop llef a diaspedei noc a oed o gorn a chloch dros wyneb yr holl dinas.

Cymharer â hyn y darn canlynol o *Chwedyl Iarlles y Ffynnawn*, R.M. 175 (= W. M. 240) :

[1] Yn stori *Culhwch ac Olwen*, W.M. 452, dywedir i'r fam alw ei chymar ati i'w rybuddio 'i bod hi ar farw, ac i erfyn arno "na mynnych wreic hyt pan welych dryssien deu peinawc ar uym bed," a hynny rhag llygru'r mab a roesid eisoes ar feithrin. Cymharer yr hanes canlynol a roir yn *L' Ystoire des Sept Sages, (Deux Rédactions du roman des Sept Sages de Rome*, Gaston Paris, td. 57), cyfieithiad o'r *Historia Septem Sapientum* y cyfeiriwyd ato eisoes, a argraffwyd gyntaf yn 1492. "Et quant il fut en l'eage de sept ans, la royne sa mére fut malade jusques a la mort. Laquelle considerant que nullement ne pouvoit guerir transmit a l'empereur ung messagier hastivement pour la venir visiter. L'empereur vint a elle incontinant, puis luy dit la royne : "Mon seigneur, je ne puis guerir de ceste maladie, pour quoy treshumblement je vous fais une petite demande laquelle vous me otroierez s'il vous plaist avant ma mort." L'empereur respont : "Demande ce que tu vouldras, car de rien je ne te diray le contraire." La royne dit : "Sire empereur, je sçay bien qu 'aprés ma mort vous prendrés une aultre femme ainsy comme y sera bien expedient, pour quoy je demande et vous prie qu'elle n'ait aucune puissance sus mon enfant et le vostre, mais faites que soit norry loing d'elle affin qu'il puisse acquerir science et sapience pour luy mesme." A cecy respont l'empereur et dit : "Ma dame et ma bien amée, j'acompliray par tout vostre volenté." Cecy estre dit, elle se tourna contre la paroy et expira."

A ryued oed na bei yssic penneu y byssed rac dyckynet y maedei y dwylaw y gyt. . . . .Ac uch oed y diaspat noc a oed o dyn a chorn yn y llu.

Ymhellach, yn *Llenyddiaeth Cymru o* 1450 *hyd* 1600, td. 64, cyfeiria'r Athro Gruffydd at " hen dric yr holl ystorïwyr Celtaidd, yn Iwerddon yn ogystal ag yng Nghymru,—sef tyrru ansoddeiriau disgrifiadol cyfansawdd y naill ar ben y llall heb fesur na rheswm. . . . . Ond yr oedd gan yr ystorïwyr—y cyfarwyddon—amcan ymarferol wrth wneuthur peth tebig, a hwnnw oedd, yn ôl tystiolaeth *Breuddwyd Rhonabwy*, cadw allan o'r urdd yr anghelfydd anllythrennog, am na allai neb, heb lyfr, gofio'r holl wahanol ansoddeiriau a bentyrrid ar ei gilydd. Ym *Mreuddwyd Rhonabwy*, ceir enghraifft gynnar o'r math yma o stori." Ceir rhywbeth cyffelyb i'r rhethrig hwn yn y testun.

lle karueid erdrym gwastatsych 33—34, diaspat uchelgroch oruchel 82. Prenn perffrwyth bricawclas 182—3, a gwelet y ffrwyth yn dec ac yn garueid velys aeduet 187—8, gwr godlawt callonnawc 269, gwas ieuanc dihauarchlym 269—70, ae adaw ynteu yn amnoeth bricawcdwn 392—3, seithwyr kymhendoeth synnhwyrus 415, ef a welei gaer uawr vylchawc, a chastell ffyryf mawr amlwc yn y hymyl, a ffyryftwr aruchel yn y kastell 776—8, y planbrenn bychan tec ffrwythlawn 935—6.

Cymharer hefyd yr ansoddeiriau cyfansawdd *arafgall* 38, *buanllym* 149, *gwrawldrut* 659.

Eto, yn chwedl y milgi, digwydd y darn canlynol, 143–6 :

> A chan weryrat y meirch, ac angerd y gwyr, a thrwst y gwaewyr yn kyflad wrth y taryaneu eurgrwydyr, y deffroes sarff o uur y kastell.

Ceir disgrifiad cyffelyb ym *Mreuddwyd Maxen*, W.M. 182 :

> Rac angerd y cwn wrth eu kynllyfaneu, ac yscwydeu y taryaneu yn ymgyfaruot y gyt, a pheleidyr y gwaewar yn kyflad, a gweryrat y meirch ac eu pestylat, deffroi a wnaeth yr amherawdyr.

Ymddengys i mi fod yr holl bwyntiau hyn yn profi nad yw *Chwedleu Seith Doethon Rufein* namyn gwaith gwreiddiol rhyw Gymro, Llywelyn Offeiriad yn ôl pob tebig, a gymerth ei ddeunydd o chwedlau poblogaidd llafar gwlad at ei greadigaeth lenyddol ei hun. Yr oedd yn hyddysg yn llenyddiaeth ei wlad ei hun, ac nid yw'n annhebig ei fod yn fedrus yng nghrefft y cyfarwydd Cymraeg. Gellid dywedyd bod y stori hon, felly, yn un o'r nofelau cyntaf a sgrifennwyd yn Gymraeg.

Ac arfer y teitlau Lladin a roed i'r gwahanol chwedlau yn *Saith Ddoethion Rhufain* gan Goedeke, dyma'r chwedlau a geir yn y stori Gymraeg : (1) *arbor*, (2) *canis*, (3) *aper*, (4) *medicus*, (5) *gaza*, (6) *puteus*, (7) *ramus*, (8) *Roma—lupus*, (9) *Virgilius*, (10) *vidua*, (11) *sapientes*, (12) *inclusa*, (13) *senescalcus*, (14) *tentamina*, (15) *vaticinium*. Nid yw'r seithfed stori, a enwir *ramus* gan Campbell, yn un o'r ffurfiau eraill. Y mae'r rhan gyntaf ohoni yn rhyw atgof o'r chwedl gyntaf, *arbor*, ac awgryma Campbell mai'r Cymro a ddyfeisiodd

y gweddill. Fel y gwelir, cymysg yw'r wythfed chwedl o ffurf amherffaith ar y chwedl *Roma* a chwedl nas ceir yn y *Saith Ddoethion* ac a eilw Campbell *lupus*. Fel y dengys yr enw, â Rhufain yr ymwnâi'r flaenaf, ond yn Gymraeg â " dinas kyfoethawc kadarn a oed yn y dwyrein." Hyn yn fras oedd y stori. Gwarchaewyd gynt ar Rufain. Rhoed amddiffyn y ddinas ar saith o wŷr doeth. Aeth un ohonynt, Janus, i ymwisgo â dillad rhyfedd a dieithr ac arfau disglair. Yna mynd i ben tŵr uchel yng ngolwg y gelyn, a'r rheini'n tybied mai duw ydoedd a ddaethai i ymladd o blaid y ddinas, ac yn ffoi, a'r dinasyddion yn eu hymlid a'u lladd. Wedi hynny, yn ôl rhai o'r trosiadau, gwneuthur Janus yn ymherawdr. Fe welir bod y chwedl Gymraeg yn bur wahanol i hyn, a bu raid rhoi chwedl arall er mwyn cael yr ergyd priodol yn y ddadl. Yr un yw *lupus* â chwedl Esop, " Y bleiddiaid a'r defaid."

Un o'r chwedlau hyn yn unig a geir yn yr holl ffurfiau, sef y ffurf ddwyreiniol a'r ddwy ffurf orllewinol *Dolopathos* a *Saith Ddoethion Rhufain*. Honno yw'r ail, *canis*. Mae hon yn ddiddorol i ni am ei bod wedi ei lleoli yng Nghymru yn stori Gelert, ci Llywelyn ab Iorwerth. Dangosodd Bleddyn, yn ei waith *Plwyf Bedd Gelert*, a gyhoeddwyd yn *Y Brython*, cyf. IV (1861), mai " Dafydd Prisiart, o Westy yr Afr, yr hwn oedd frodor o'r Deheudir . . . . . Wiliam Prisiart y Clochydd, a Rhisiart Edward

o Benybont bach" a drosglwyddodd y stori i Feddgelert. Yn ôl D. E. Jenkins, *Bedd Gelert, its Facts, Fairies, and Folk-lore* (1899), daeth Dafydd Prisiart i'r plwyf tua 1793 (td. 67), a bu farw Chwefror 1821 (td. 47). (Ceir ymdriniaeth fanwl â Chwedl Gelert ym mhumed bennod y llyfr, td. 56–td. 74.) Ond lleolwyd y chwedl yng Ngroeg, Ffrainc, ac yn amryw fannau yn yr India hefyd, fel y dengys Campbell, *The Seven Sages of Rome*, td. lxxx, n.1. Mae'n amlwg i'r chwedl hon ymddatod o'r stori yng Nghymru, a darfod ei chymryd o'r diwedd i hwylus esbonio enw lle. Diau i'r esboniad hwn dalu'n sylweddol i'r lle.

Mae tair o'r chwedlau yn gyffredin i *Llyfr Sindibâd* a *Saith Ddoethion Rhufain*, sef y drydedd uchod, *Aper*, y drydedd ar ddeg, *Senescalcus*, ac un nas ceir yn Gymraeg, sef *Avis*. Chwedl yw honno am aderyn y parodd gwraig, drwy ystryw, i'w gŵr ei ladd am iddo fradychu ei hanffyddlondeb hi i'w phriod. Lle'r chwedl hon a gymerwyd gan y seithfed uchod, sef *Ramus*. Ceir tair arall yn *Saith Ddoethion Rhufain* a *Dolopathos*, sef *Gaza*, *Puteus* ac *Inclusa*. (Ni ddigwydd *Inclusa* yng ngwaith Lladin Johannes de Alta Silva, eithr fe'i ceir yn y trosiad mydr Ffrangeg wedi ei gosod gyda *Puteus*). Yn *Saith Ddoethion Rhufain* yn unig y ceir y gweddill o'r chwedlau. Ond y mae'n ddiau bod y rhan fwyaf ohonynt i'w holrhain i'r Dwyrain yn y pen draw, er nas rhoed hwy yn *Llyfr Sindibâd*.

(Gellir nodi hefyd fod y chwedl *Inclusa* yn digwydd yn y cyfieithiad Lladin o'r *Mischle Sendabar* a gyhoeddodd Hilka). Am ymdriniaeth fanwl â tharddiad a pherthnasau'r chwedlau, gweler pennod gyfoethog Campbell, *Some Originals and Analogues*, yn ei argraffiad o *The Seven Sages of Rome*, td. lxxviii–cxiv.

## B. Diweddar.

Mae o leiaf chwech o gopïau o *Chwedleu Seith Doethon Rufein* mewn llawysgrifau a berthyn i'r unfed ganrif ar bymtheg. Sgrifennwyd un ohonynt gan Elis Grufydd yn 1527, ac fe'i ceir yn y llawysgrif c. 5. Cyhoeddwyd hwn gennyf yn B.B.C.S. II, td. 201–229. Ceir copi arall yn llawysgrif Llanofer B. 17, a gopïwyd gan Lywelyn Sion o Langewydd tua 1590. Mae copi hefyd yn LL. 171, a sgrifennwyd gan Ieuan ab Ieuan ap Madog yn 1574 ; mae'r llawysgrif hon ar goll. Copïau amherffaith sydd yn c. 6, a sgrifennwyd tua 1550, ac yn LL. 117, a berthyn i'r cyfnod o 1544–1552. Yn y flaenaf, ceir y testun o'r dechrau hyd agos i ddiwedd *Medicus*, yna o frawddegau olaf *Gaza* hyd ddiwedd *Vidua*. Yn yr olaf, y sy'n gopi pur anghelfydd, terfyna'r stori (a'r llawysgrif) ar ddechrau *Senescalcus*. Ymddengys bod copi amherffaith yn yr Amgueddfa Brydeinig o'r unfed ganrif ar bymtheg. Ceir yno hefyd gopi yn llawysgrifen Owain Myfyr. Argraffwyd yr hynaf o'r ddwy, a chyflenwi " dau wagle lled helaeth ynddi allan o ysgrif

Owain Myfyr," yn *Y Brython*, III (1860), td. 81–94. Ail-argraffwyd y testun hwn, gyda mân wahaniaethau geiriol, yn *Cymru Fu*, td. 186–204. Yn y Gymraeg Ddiweddar yr ysgrifennwyd y rhain i gyd. Ar wahan i gopi c. 5, y mae'r stori'n cytuno'n bur agos â thestunau'r Gymraeg Ganol, ond ni all yr un ohonynt fod yn gopi o'r testunau hynny. Fel y dywedir yn yr argraffiad o gopi c. 5, saif y testun hwnnw ar wahan i'r lleill i gyd. Mae'n fwy amleiriog, a chollwyd y chwedl *Senescalcus*. Rhoddwyd *Tentamina* i'r frenhines, ac ni roed chwedl yng ngenau Martin o gwbl, eithr yn unig fynegi ohono y llefarai'r mab drannoeth. Mae un cyd-darawiad rhyfedd rhwng testun c. 5 a thestun LL. 117. Enw'r trydydd o'r doethion yn y naill yw Bankarrios, ac yn y llall Painkaros. Yn y copïau eraill rhyw ffurf neu'i gilydd ar Lentilius a geir.

## V. Y TESTUN.

Copi Llyfr Coch Hergest yw'r testun a argreffir yma. Ni cheisiwyd dynwared llythrennau'r llawysgrif wrth argraffu, nac ychwaith arfer y copïwr o rannu'r geiriau. Dilynwyd ei orgraff yn gaeth, ond estynnwyd ei fyrfoddau'n llawn, heb drafferthu i nodi hynny bob tro. Nid oes dim pwysig nac eithriadol ynddynt, a rhyw ddiddordeb hynafiaethol a fyddai printio *amh'a6d'* yn lle *amherawdyr*, *preñ* yn lle prenn, *ānwyl* yn lle *annwyl*, *ruueī* yn lle *Ruuein*, *lled'* yn lle *lledyr*, *llōg* yn lle *llong*, *eidig*$^{9}$ yn lle *eidigus*, etc.

Lle bynnag yr argreffir dim sy'n wahanol i'r llawysgrif, esbonnir hynny mewn nodyn. Fel y nodwyd eisoes, mae dechrau llinellau'r golofn 546 wedi eu hanafu drwy fod y ddalen wedi ei thorri. Ond nid oes anhawster ynghylch pa lythrennau a ddylid eu darllen, ac felly ni thrafferthwyd i nodi hynny wrth brintio. Rhoir yr ychwanegiadau, nas ceir yn y Llyfr Coch, mewn petryal ; felly, hefyd, deitlau Lladin y chwedlau.

Rhannwyd y cwbl yn baragraffau, atalnodwyd y testun, a defnyddiwyd yr holl arwyddion gwahanodol a arferir yn gyffredin bellach wrth sgrifennu ac argraffu. Gwnaethpwyd hynny er hwylustod i'r rhai a garai ddarllen ein hen lenyddiaeth, ond na chawsant gyfle i ddysgu arferion yr hen gopïwyr. Dylid nodi un peth. Gwahaniaethir yn y Llyfr Coch rhwng y sain bresennol *ll* ac *l* ddwbl drwy roi bar croes dros y flaenaf, ŀŀ. Pan olyga *ll* yr *l* ddwbl yn y testun, esbonnir hynny. Rhoir rhif y golofn yn y Llyfr Coch mewn petryal yng nghorff y testun. Ar ôl y testun, ceir yr amrywiadau pwysicaf o'r ddau destun Cymraeg Canol arall, sef J. 3 a II. 2.

## VI. ORGRAFF AC IAITH Y TESTUN.

Yn y Llyfr Coch, sgrifennir *p*, *t*, *c* ar ddiwedd gair yn lle *b*, *d*, *g* ; ceir *b* weithiau, megis *mab*, *heb*. Ceir *d* am *dd* bob amser ; gall *d* hefyd olygu *d* ar ddechrau gair ac yn ei ganol. Ceir *g* yn aml am *ng*, ond digwydd *ng* hefyd. Gall

*g* olygu *g* ar ddechrau gair ac yn ei ganol. Saif *u* am *f* ac *u*, weithiau'n brin iawn am *w*. Ceir *v* am *f* ac *u* ; *f* am *f* ac *ff*. Dynoda *y* yr un seiniau â'r *y* bresennol, hefyd yr *i* bresennol (yn llafariad, megis yr arddodiad *y* = *i*, neu'n gytsain, megis yn *taryaneu*, *mudanyaeth*) ; ceir weithiau *e* lle y rhoir *y* heddiw, megis *kebyd* cybydd, *kewilyd* cywilydd, *deuodyat* dyfodiad, *memrennyd* memrynnydd, *yr* er. Mae'r cysylltiad *yny*, a ddigwydd yn gyson yn y testun, bellach wedi troi'n *oni* (*hyd oni*). Ceir *y* ansillafog yn fynych rhwng cytseiniaid ar ddiwedd gair, megis :

–*dr*. *amherawdyr* (tair sillaf, â'r acen ar *er*, amherawdr), *eurgrwydyr* (dwy sillaf, eurgrwydr), *lledyr* (un sillaf, lledr), *paladyr* (dwy sillaf, paladr).

–*thr*. *diamsathyr* (tair sillaf, diamsathr), *disathyr* (dwy sillaf, disathr), *eithyr* (un sillaf, eithr), *ewythyr* (dwy sillaf, ewythr).

–*fr*. *dwfyr* (un sillaf, dwfr).

–*dl*. *kenedyl* (dwy sillaf, ceneddl neu cenedl), *chwedyl* (un sillaf, chwedl), *dadyl* (un sillaf, dadl).

–*gl*. *abrwsgyl* (dwy sillaf, abrwsgl), *diberigyl* (tair sillaf, diberigl), *perigyl* (dwy sillaf, perigl).

–*ngl*. *dehogyl* (dwy sillaf, dehongl).

–*fn*. *colofyn* (dwy sillaf, colofn), *drachefyn* (dwy sillaf, drachefn).

–*gn*. *dogyn* (un sillaf, dogn).

–*rf*. *ffyryf* (un sillaf, ffyrf).

Nid yw'r *y* namyn y sain lusg aneglur a glywir rhwng y ddwy gytsain wrth eu llefaru. Pan ychwaneger sillaf at y gair, diflanna'r *y* fel rheol, megis yn *amherodres*, *dadleu*. Fe'i cedwir

weithiau, megis *amylder* (dwy sillaf, amlder), *chwedyleu* (dwy sillaf, chwedlau), *ffyryfdan ffyryftwr* (dwy sillaf, ffyrfdan ffyrfdwr). Bryd arall, try'r sain lusg hon yn llafariad sillafog, ac yna bydd yn un â llafariad y sillaf o'i blaen, megis *ruthur* (dwy sillaf). Yn wir, gall *ffyryf* fod yn ddwy sillaf yn yr un modd. (Gweler W.G., td. 17–18).

Weithiau, cedwir cytseiniaid heb eu treiglo ar ddechrau gair. Yr oedd hynny'n rheol gyda'r gwrthrych yn union ar ôl y ferf, yn arbennig ar ôl trydydd person unigol yr amser presennol a'r amser gorffennol. (Cymharer *Cyfranc Lludd a Llevelys*, nodiad ar 1. 5). Heblaw eithriadau felly, nid yw peidio â threiglo'r cytseiniaid ond cadw orgraff draddodiadol. Er mai *myn uyg kret*, *yg koet*, *am torri*, *a priodes*, *o bop da* a sgrifennwyd, *myn fy nghred*, *yng nghoed*, *am dorri*, *a briodes*, *o bob da* a leferid.

Nid hwyrach mai buddiol i'r anghyfarwydd fyddai cyfeirio yma at rai pwyntiau cyffredinol lle y gwahaniaetha Cymraeg y testun hwn oddiwrth Gymraeg heddiw.

(1) *Y rhagenw blaen.* Ffurf y trydydd person unigol yn ddieithriad yw *y*. Sgrifennir heddiw *ei*, ond ar lafar ni chlywir byth ond *i*. Felly, er enghraifft, cyfetyb *yn y gyghor rodi y uab* yn y testun i'r hyn a ddywedir heddiw, *yn i gyngor roddi i fab*, ond a sgrifennir *yn ei gyngor roddi ei fab*. Felly hefyd *penneu y byssed*, *pennau i bysedd*, *pennau ei bysedd*; *y phenn*, *i phen*, *ei*

*phen ; y chartrefwisc, i chartrefwisg, ei chartrefwisg.* Am *ei hun*, ceir yn y testun y ffurf *ehun ;* hefyd, *ehunan.* Yn y person cyntaf lluosog ceir *yn* ac *an ; yn llad nynheu, yn dyrchafel, ni yn deu, an llad ninheu, yn an herbyn.* Parhaodd y ffurf *yn* yn fyw ar lafar hyd heddiw, ond sgrifennir *ein* bellach : *ein lladd ninnau, ein dyrchafel, ni ein dau, yn ein herbyn.* Ffurf yr ail berson lluosog yw *awch ; awch doethineb, gwedy awch bwyd.* Y ffurf lyfr yn awr yw *eich—eich doethineb, wedi eich bwyd*—ond ar lafar *ych* a glywir, a cheir y ffurf honno yng Nghymraeg cyfnod y testun hwn. Yn y trydydd person lluosog ceir *eu ;* ond o flaen rhifolion *ell—ell seith, ell deu.* Cyfetyb yr olaf i'r ffurf bresennol *ill* (a sgrifennir *eill* weithiau, yn anghywir wrth gwrs).

(2) *Y rhagenw mewnol.* Nid oes angen sylwi ond ar ffurf y trydydd person. Yn gyntaf, y rhagenw yn y cyflwr perthnasol, ar ôl yr arddodiad *y*, sef *i* heddiw. Ffurf y rhagenw oedd *y* hefyd. Felly, er enghraifft, disgwylid *y y dat ;* yna aeth y ddau air *y* yn un, a cheid *y dat*, heddiw yn y tafodieithoedd *ī dad.* Yr un modd yn y rhyw fenywaidd—*y harglwydd, ī harglwydd.* Ceir yr un ffurf yn y lluosog, canys byddai y rhagenw weithiau'n *y* yn ogystal ag *eu* yn y trydydd person lluosog—*y lletty, ī lletty.* Fe ddigwydd *y eu* yn y trydydd person lluosog hefyd.

Heblaw bod yr arddodiad *y* a'r rhagenw *y* yn ymdoddi yn y modd hwn, cadwent hefyd

ar wahan, ac yna i osgoi'r bwlch rhwng y ddwy sain debig rhoed *dd* rhyngddynt. Felly, aeth *y y* yn (*ydy yddy*), a geir o hyd ar lafar gwlad yn y ffurf *iddi*. Ni ddigwydd mo'r ffurf hon yn y testun hwn, ond fe'i ceir yn LL. 2.

Ceir ffurf arall yn LL. 2 i roi ystyr yr arddodiad *y* a'r rhagenw *y*, sef *yw*, a geir heddiw yn y ffurf *i'w*. Dangosodd yr Athro Ifor Williams, yn ei argraffiad o *Gyfranc Lludd a Llevelys*, nodiad ar dud. 2, ll. 10, mai trawsosodiad ydyw *yw* o'r ffurf hŷn *wy*, a bod *wy* wedi datblygu'n rheolaidd o'r ffurf *oe*, sef hen arddodiad *o* a'r rhagenw *e* a gyfetyb i *y*. (Daw *o* o ffurf hŷn **do*, a roes yn ddiweddarach *dy* a seinid *ddy*; ac wedi colli'r *dd* y cafwyd *y* ac yna *i*, yr arddodiad dan sylw. Gweler W.G. 87, 277). Ceir enghreifftiau o *oe* yn J. 3 ac LL 2.

Y ffurf *i'w* yn unig a arferir bellach yn yr unigol a'r lluosog yn yr iaith lenyddol, er bod *ī* ac *iddi* yn fyw o hyd ar lafar gwlad. Gellir casglu enghreifftiau o'r cyfuniad hwn a ddigwydd yn y testun, a chymharu ffurfiau J. 3 a LL 2.

(a) 3ydd un. gwrywaidd:

*y lys* (*i'w lys*) 40, *y gladu* (*i'w gladdu*) 579, *y arglwyd* (*i'w arglwydd*) 1016—7, *y ueithryn* (*i'w feithrin*) 108.

*y dangos* 70—1, *oe dangos* J. 3, *yw dangos* LL. 2 (*i'w ddangos*), *y dat* 1112, *oe dat* J. 3, *yw dat* LL. 2 (*i'w dad*).

*y ystauell* 845, *oe ystauell* J. 3 (*i'w ystafell*).

*y uab* 286, *yd y uab* LL. 2 (*i'w fab*).

(b) 3ydd. un. ben.:

*y harglwyd* 978, *oe harglwyd* J. 3, *yw harglwyd* LL. 2 (*i'w harglwydd*).
*y dangos* 826, *oe dangos* LL. 2 (*i'w dangos*).

(c) 3ydd lluosog:

*y eu kladu* (*i'w claddu*) 636.
*y eu llad* 442—3, *yd y llad* LL. 2 (*i'w lladd*).
*y lletty* 519, *yw lletty* LL. 2 (*i'w llety*).
*y dangos* 278—9, *yw dangos* LL. 2 (*i'w dangos*).

Dangosais yn *Y Beirniad*, VI, 125–6, fod y ffurf *ydy* = *iddi* mor hen â hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Fe'i ceir uchod mewn llawysgrif o'r bymthegfed ganrif. Ceir enghreifftiau ohono mewn llawysgrifau eraill o'r un ganrif. Gweler y testun a gyhoeddodd yr Athro Powel yn *Y Cymmrodor*, IV., lle y digwydd yr enghreifftiau a ganlyn: td. 110, ll. 24, *yth y kyrchu* (saif *th* yn y darn am *dd*), td. 116, ll. 31, *pob un yth y gilyth*, td. 120, ll. 22, *yth y uab*. Fe'i ceir yn y ganrif nesaf hefyd, er enghraifft Y.L.H. (1546), td. [4], ll. 15, *yddy gydgristio*, td. [22], ll, 31, *yddy gwrs*. Dyry'r Dr. John Dafydd Rhys y ffurf yn ei Ramadeg (1592), td. 125—*Daeth yno idh ei garu*, & *o'i garu* & *i'w garu*. . . . . *.Têg oedh o e' weled*, & *idh ei weled*, & *i'w weled*. Cymharer hefyd y dyfyniad a ganlyn o Ramadeg y Dr. John Davies (1621), td. 178 (arg. 1809, td. 172):

Sed Demetae ante integra *ei* & *eu*, ipsi *i* adijciunt *dd*, *idd* *ei Dad*, m.g. / *ei Thad*, f.g. / *eu Tad*, pl.

Nis dyry Griffith Roberts yn ei Ramadeg (1567), ond mae'r dyfyniad canlynol (o arg. Paris, 1870–83, td. [129]), yn ddiddorol :

> i, suus, ar ol, i, yr arddodiad yn sir y phlint a droir yn, w, mal : ef aeth iw wlad, abijt in suam patriam. Yn sir garnarfon ni sylf y rhaghenw, ond, i, yr arddodiad, a dry yn, o, mal : e ddymchwelodd oi wlad, redijt in suam patriam.

Yn ail, y rhagenw yn y cyflwr gwrthrychol, ar ôl y rhagenw perthynol *y*. Yma eto ymdawdd y ddau ragenw i'w gilydd, a cheir y ffurf *y* o *y y*. Ni ddyry hyn anhawster i neb yn y testun hwn.

Sylwer mai *'e* yw ffurf trydydd person y rhagenw yn y ddau gyflwr uchod ar ôl llafariad megis yr arddodiaid *a*, *o*, neu'r rhagenw perthynol *a*. Cyfetyb yr *'e* i'r *'i*, *'u* heddiw.

(3) *Y rhagenw perthynol.* Ffurf arferol heddiw yn y cyflyrau traws yw *yr* (*y*). Ni cheir *yr* o gwbl yn y testun yma, er ei fod yn digwydd yn J. 3 a LL. 2. Ond yma, y ffurf *yd* = *ydd* a geir bob amser.

(4) *Y berfenw.* Mynych arferir y berfenw yn lle berf yn y testun, yn arbennig wrth adrodd hanes. Weithiau fe'i ceir ar ôl berf yn y frawddeg o'r blaen. Er enghraifft, *yna y doeth hi. . . . .a dywedut* 53—4, *yna y kyuodes. . . . . a dywedut* 308—9, *ef a deuth lladron. . . . .a'e yspeilaw. . . . .a'e adaw* 390—2. Ond weithiau eraill ni cheir berf o gwbl, eithr y berfenw yn unig. Er enghraifft, *Ac yn gyflym dyuot am y benn a'e dala a'e rwymaw a chymell arnaw yuet*

*eur brwt* 541—3, *A bwrw neit esgutlym yn y pwll, a thaflu y corff y uynyd* 650—2, *A dyuot dwy vran a greu. . . . .a disgynn. . . . .a greu* 1034—6. Mae'r ddau fath hyn o ymadrodd yn gyffredin iawn ar lafar gwlad o hyd, ond ysywaeth anaml y ceir priod-ddull mor fyw a hoyw yn y llyfrau. Nid yn unig mewn prif frawddeg y ceir y priod-ddull yn y testun, eithr digwydd mewn brawddegau dibynnol; er enghraifft, *megys pei bydwn gelyn itt a cheissaw dwyn dy amherodraeth a'th diuetha* 1028—9.

Digwydd amryw enghreifftiau yn y testun o'r gystrawen annibynnol (*ac* + enw neu ragenw + berfenw) a gyfetyb i'r hyn a elwir yn *ablative absolute* yng ngramadeg Lladin: *ac ef yn kysgu* 199—200, *a'r mab yn gostwng* 243, *y teweis i, arglwyd, a'r amherotres y'm ethrot ac y'm kuhudaw wrthyt* 1026—8. Hefyd, 249, 283—4. Cymer y gystrawen hon le brawddeg amodol, neu frawddeg a fynega rywbeth a ddigwydd yn gydredol. Nid yw hithau'n ddieithr i'r iaith lafar.

Defnyddir gwahanol ffurfiau *gwneuthur* fel berf gynorthwyol gyda berfenw yn aml iawn yn Gymraeg o hyd, yn arbennig pan fo angen pwysleisio'r weithred a olygir gan y berfenw, megis *myned a wnaeth*, yn hytrach nag *aeth* yn unig. Ceir yr un peth yn y testun: *gofyn a wnaeth* 224—5, *escussaw a wnaeth* 977, *ehedec a wnaeth y deu vran* 1081—2. Ond yn amlach, ceir hen ffurf ar amser perffaith *gwneuthur*, sef

*goruc : llityaw a oruc* (llidio a wnaeth) 112, *kyrchu y dadleudy a oruc* (cyrchu'r dadleudy a wnaeth) 206. Ceir y dull cwmpasog hwn yn *dy gystudyaw a wneir itt* (cystuddir di) 289—90, *adeilat ty a wnaethpwyt* (adeiladwyd tŷ) 32. Sylwer hefyd ar y frawddeg : *ef a wnaeth yn diueryawc adaw kiliaw. . . . .ac nat ymladei* 426—7. Mae *adaw* yn mynd gyda *wnaeth*, ac ar *adaw* y dibynna *kiliaw* a hefyd *nat ymladei*. Hynny yw, y mae *kiliaw* a *nat ymladei* yn gyfurdd ; ceir berf yn yr ail adran am na ellir yn hawdd negyddu'r berfenw yn Gymraeg.

(5) *Gradd gyfartal yr ansoddair.* Defnyddir y radd hon fel enw : *annwylach oed y geing o achaws y thecket* 379. Golyga *teced* mewn brawddeg felly nid yn unig *degwch*, ond hefyd y mesur arbennig hwnnw o degwch neu fireindra a berthynai i'r gangen. Felly hefyd *aduwynet*, *dahet* (*daëd*, o *da*) 1050. Cyffelyb yw grym y radd gyfartal yn *ffestet* 87, 580, *kymhennet* 423, a *meint* 685. Ond pan na bo'r ystyr arbennig hwn i'r radd gyfartal, fe ragflaenir yr ansoddair yn ddieithriad gan *kyn* (*ky*)—ond pan fo'r rhain yn rhan ohono—a'i ddilyn wrth gwrs gan *ac* (*a*) + yr ymadrodd a ddynoda'r peth y cymherir ag ef : *kymeint ac a wn* 17, *na bydei gyn gydarnet. . . . .a chynt* 536—7, *a chy aghywiret vyd dy wreic itti . . . . .ac y bu wreic i sirif* 560—2, *nat oed erni ofyn kymeint a hwyret yd oed agheu yn dyuot idi* 616—8 (mae *hwyret* yn enw yma, cf. *tecket* uchod).

Ceir yr un gystrawen gyda gair cyffelyb ei rym i ansoddair cyfartal : *un ansawd y deruyd ytt . . . . .ac y daruu gynt y'r brenhin* 708—710, *a thebic yw. . . . .ac y bu* 1029—30. Yn yr enghreifftiau hyn ceir cymhariaeth bendant, a dylid osgoi'r arferiad llac anghywir hwnnw o adael *cyn* allan o ymadroddion fel hyn. Anghywir yw dywedyd "a fyddwch garediced â dyfod yma," yr hyn o'i droi i'r Saesneg a fyddai "will you be how kind as to come here." Mae *cyn garediced* yn anhepgor yn y frawddeg.

Ond nid yn unig er mwyn cymharu dau beth y defnyddir *cyn* + ansoddair cyfartal + *ag* (*â*). Gall yr ansoddair cyfartal olygu hefyd ryw radd o rywbeth a fydd yn ddigon i beri i rywbeth arall ddigwydd, i achosi canlyniad arbennig. Yma hefyd fe ddilynir yr ansoddair gan *ag* (*â*) + yr ymadrodd a ddynoda'r canlyniad. Er enghraifft : *Kymeint yw ev rydit wy ac y gallant mynet drwy bop peth* LL. A 69. 17, "Illorum vero talis est libertas, ut omnia obstantia penetrare valeant" ibid. 223, *yno y mae seirff kymeint ac y llyngkant y keirw ac y nofyant y mor* R.B. 981 "Sunt ibi serpentes tam vasti, ut cervos devorent et ipsum etiam Oceanum transnatent." Ceir enghreifftiau yn y testun : *kared kymeint ac y lledych dy uab* 1001—2, *a chyndrwc yd aeth arnaw . . . . .a'e vrathu ehun a wnaeth* 574—5, *kyn ganmoledicket vu a'e wneuthur o'r brenhin yn oruchel* 796—7. Erbyn heddiw, tueddir i roi *fel* ar ôl yr ansoddair cyfartal yn lle *ag*, er bod yr hen gystrawen i'w chael o hyd.

(6) *Y ferf.* Terfyniad ail berson unigol amser presennol y modd mynegol yw *–y*, megis *kely* 55, *dywedy* 233, *mynny* 242, *pery* 248, *menegy* 291, *gwney* 292, *lledy* 924. Erbyn hyn troes yr *–y* yn *–i* —*celi*, *dywedi*, etc. Yn ail berson yr amser amherffaith ceir *–ut : trout*, *a gymerut* 626, *rodut* 639, etc. Yn awr y ffurf *–it* a geir. Yn nhrydydd person yr amser gorffennol, heblaw'r terfyniad *–awd* (= *–awdd*, *–odd* heddiw), ceir yn dra chyffredin yr hen derfyniadau yn *–s ;* sef *–as*, *kauas gwelas : –es*, *dodes kyfodes somes anuones dangosses proues deffroes rodes troes gossodes priodes : –is*, *erchis*, *peris*, *menegis*, *edewis*. O *dywedut* yn yr un person ceir *dywawt* a *dywat ;* o *dyuot* ceir *deuth* a *doeth*. Ni ddigwydd y ffurf *daeth* o gwbl ; yn y lluosog ceir *deuthant* a *doethant*. Ceir hen ffurfiau eraill ar y ferf sydd wedi marw erbyn hyn ; *deryw* 253, 3ydd un. pres. *daruot ; daroed* 252, 698, 979, 3ydd un. amherffaith *daruot—dar-oedd ; hanoed* 227, o *hanfod—han-oedd*, cf. Rhufeiniaid ix, 5 ; *gwnathoed* 944, 957, 985, *gwnadoed* 986, (*gwnathoedd*, *gwnaddoedd*), 3ydd un. gorberffaith *gwneuthur ; gwnathoedit* 603, *athoedit* 632, (*gwnathoeddid*, *athoeddid*), ffurfiau amhersonol gorberffaith *gwneuthur* a *mynet*.

Defnyddir yr amser presennol weithiau lle y disgwylid yr amser gorffennol. Gwneir hyn yn y brif frawddeg ac mewn brawddeg ddibynnol. Yr amcan yw gwneuthur y peth yn

fwy byw i'r gwrandawr a'r darllenydd; a phan adroddir rhyw hanes yr arferir ef. Ceir yr un peth mewn ieithoedd eraill, a gelwir ef yn bresennol hanesyddol. Gwell enw fyddai hwnnw a awgrymir gan Jespersen (*The Philosophy of Grammar*, td. 258), sef y *presennol dramatig*. Dyma enghreifftiau ohono yn y testun hwn :

A'r baed, pan gafas dogyn, ef a gysgawd dan vric y prenn. Ac ac ef yn kysgu y *disgyn* y bugeil i'r llawr ac a *dyrr* breuant y baed. 198—9.

Diwreidwyt y golofyn, a hynny a *tyrr* y drych. 539—40.

Ar ol *yny* (*oni*, *hyd oni*) :

ny wybu y tat vn geir yny *vyd* hyt y wregis yn y gerwyneit lut. 284—5. Cf. 670.

Ac ny bu hir gwedy y mynet yny *dyffry* y gwr. 326—7.

A chyvodi a oruc. . . . .a thynnv y lliein, yny *dygwyd* y'r llawr. 973—6.

Ar ol *ual* (*fal*, *fel*) :

Ac ual y *byd* yn troi o bell ac o agos, ef a welei oleuat amlwc. 599—600. Cf. 775, 1088.

# CHWEDLEU SEITH DOETHON RUFEIN

Diawchleison a oed amherawdyr yn Rufein. A gwedy marw Eua y wreic a gadu un mab o etiued udunt, ynteu a dyfynnawd attaw seithwyr o doethon Rufein. Nyt amgen eu henweu, Bantillas, Aw[528]gustus, Lentilus, Malqwidas, Catomas uarchawc da, Iesse, Martinus. A'r gwyr hynny gwedy eu dyuot a ofynnassant y'r amherawdyr beth a uynnit ac wynt, a phaham y dyfynnassit wynt yno. "Llyma yr achaws," heb yr amherawdyr. "Vn mab yssyd ym, a gofyn y chwitheu att bwy y rodwyf ef y dyscu moesseu a deuodeu a mynutrwyd a magyat da idaw."

"Yrof a Duw," heb y Bantillas, vn o doethon Rufein, "pei rodut attaf i dy uab ar uaeth, mi a dysgwn idaw kymeint ac a wn i, mi a'm whech kedymdeith, erbyn penn y seith mlyned." "Ie," heb yr Awgustus, "roder attaf i y mab, ac ar benn y whech blynedd mi a baraf idaw gwybot kymeint ac a wdam ni yn seith." Heb y Kato, "Herwyd y messureu a gymero y mab o'e ethrylith a'e adysc, herwyd hynny yd

adawaf i y dysgu." "Os attaf i y rodir ar uaeth," heb y Iesse, "mi a'e dysgaf yn oreu y gallwyf, os mi a vyd tatmaeth idaw."

A gwedy daruot y bop un o'r whegwyr adaw dysgu y mab yn y mod goreu y gellynt, yna y kafas yr amherawdyr yn y gyghor rodi y uab ar uaeth attunt ell seith. Ac adeilat ty a wnaethpwyt udunt ar lan auon Tyber odieithyr Rufein, yn lle karueid erdrym gwastatsych. Ac wynt a ysgriuennassant y seith gelfydyt ygkylch ogylch y ty, ac a dysgassant y mab yny oed aeduet y synhwyreu a chymhendoeth y barableu ac arafgall y weithredoed.

Ac yn yr amser hwnnw yr amherawdyr a briodes gwreic. A gwedy y dwyn y lys a chysgu genti, amovyn a wnaeth hi ac un ac arall a oed etiued y'r amherawdyr. A diwarnawt y deuth hi y ty wrach heb un dant yn y phenn, a dywedut wrth y wrach : "Yr Duw, mae blant yr amherawdyr ?" "Nyt oes idaw vn mab," heb y wrach. "Gwae vinneu," heb hi, "y uot ef yn anuab." Yna y dyw[529]awt y wrach, "Nyt reit itti hynny ; darogan yw idaw gaffel plant. Ac atuyd ys ohonat y keiff, kyn nys kaffo o arall. Ac na uyd drist, vn mab yssyd idaw ar uaeth gan doethon Rufein." Ac yna y doeth hi y'r llys yn llawen orawenus, a dywedut wrth yr amherawdyr : "Pa ystyr y kely di dy blant ragof

i ?" heb hi. "Nys kelaf ynneu bellach," heb ef, "ac auory mi a baraf anuon yn y ol."

A'r nos honno, ual yd oed y mab a'e athrawon yn gorymdeith, wynt a welynt yn eglurder y syr a chyffroedigaeth y sygneu y bydei wr dihenyd y mab ony bei amddiffyn kymen arnaw. A'r mab hefyt a welas hynny. Ac ef a dywawt wrth y athrawon : "Pei amdiffynnewch chwi vyui y seith niwarnawt oc awch doethineb, minne vy hunan a'm amdiffynnwn yr wythuet dyd." Ac adaw y amdiffyn a wnaethant.

A thrannoeth, nachaf gennadeu y gan yr amherawdyr y erchi udunt dwyn y mab y dangos y'r amherodres newyd. A gwedy y dyuot y'r neuad a'e ressawu o'e dat a'r niuer, ny dywat ef un geir mwy no chyt bei mut. A drwc yd aeth ar yr amherawdyr welet y uab yn vut. Ac erchi y dwyn y dangos y lysuam. A hitheu pan y gwelas a fflemychawd o'e garyat, ac a'e duc y ystauell dirgeledic. A thrwy gytkam garyat geireu serchawl y dywawt hi wrthaw ef. A'r gwas a'e tremygawd ac a edewis y ty idi. A hitheu, pan welas y thremygu, a dodes diaspat uchelgroch oruchel, a than ysgythru y phenn o'e hardunyant a'e gwisgoed, a gwneuthur gwallt melyn yn uonwyn briwedic, a chyrchu tuac ystauell yr amherawdyr. A ryued nat oed yssic penneu y

byssed, rac ffestet y maedei benneu y byssed a'e dwylaw y gyt, yn mynet y gwynaw treis a gordwy wrth yr [530] amherawdyr rac y uab, a dywedut y uot ef yn keissaw dwyn treis erni.

Ac yna y tygawd yr amherawdyr trwy lit y llw mwyhaf, vn am uudanyaeth y uab, nat oed waeth gantaw y uarw no'e vyw ; yr eil o achaws sarhaet y urenhines, na bydei y eneit yndaw hwy noc hyt trannoeth.

## [1. Arbor.]

A'r nos honno y dywawt yr amherawdres wrth yr amherawdyr : " Ef a deruyd itti am dy uab ual y daruu gynt y'r prenn pinus mawr o achaws y pinwyden vechan a oed yn tyuu yn y hymyl, a cheing o'r uawr yn llesteiraw ar y vechan dyfu. Ac yna yd erchis y bwrgeis bioed y gwyd y ardwr torri keig o'r binwyden hen, a oed yn llesteiryaw ar y uechan kyuodi. A gwedy torri y geig, y prenn yn gwbyl a grinawd, ac yna[1] yd erchis y torri oll. Megys hynny y deruyd y titheu am dy vab a rodeist y ueithryn att y seithwyr doeth. Yr collet itti y mae ef dan gel yn keissaw duundeb y gwyrda y'th distriw di, ac y wledychu ehun heb olud."

A llityaw a oruc yr amherawdyr, ac adaw y diuetha trannoeth. A gwedy treulaw y

[1] Llsgr. *ac y | yna.*

dyd hwnnw a'r nos honno ar ardunyant a digrifwch y'r vrenhines, yn ieuegtit y dyd drannoeth y kyfodes yr amherawdyr a gwisgaw ymdanaw a chyrchu y dadleudy. Ac ar hynt, gofyn y'r doethon pa adoet a wneit ar y vab ef.

Ac yna y kyfodes Bantillas y uynyd y dywedut ual hynn: "Arglwyd amherawdyr," heb ef, "os o achaws mudanyaeth y mab y dihenydyir, iawnach yw bot yn drugarawc wrthaw am hynny no bot yn greulawn. Kanys gorthrymach yw idaw ef yr anaf hwnnw noc y neb. Os am guhudet y urenhines, vn ffunut [531] y deruyd ytti am dy vab ac y daruu gynt y uarchawc arderchawc bonhedic am vilgi a oed idaw." "Beth oed hynny?" heb yr amherawdyr. "Ym kyffes! nys managaf itt, ony rody dy gret na dihenydyer y mab yn oet y dyd hediw." "Na dihenydyir, myn uyg kret!" heb ef, "a dywet ym dy chwedyl."

## [2. Canis.]

"Yd oed[2] gynt yn Rufein marchawc a'e lys wrth ystlys y gaer. A dydgweith yd oed twrneimeint ac ymwan yrwng y marchogyon. Sef a wnaeth yr amherotres a'e thylwyth, mynet hyt ar uan y gaer y

[2] Llsgr. *Adoed*, a'r *A* yn lliwiedig. Felly y copïwyd yn ll. 92, lle y ceir ar ymyl y ddalen, *y faldy illuminated into A.*

edrych ar yr ymwan, heb adaw undyn yn y llys onyt vn mab y marchawc yn kyscu y mywn crut, a'e vilgi yn gorwed yn y ymyl. A chan weryrat y meirch, ac angerd y gwyr, a thrwst y gwaewyr yn kyflad wrth y taryaneu eurgrwydyr, y deffroes sarff o uur y kastell, a chyrchu neuad y marchawc. Ac arganuot y mab yn y krut, a dwyn ruthur idaw. A chynn ymgael ac ef, bwrw o'r milgi buanllym neit idi. A chan eu hymlad ac eu hymdaraw, ymchoelut y crut a'e wyneb y waeret, a'r mab yndaw. A'r ki buanllym[3] bonhedic a ladawd y sarff, a'e gadaw yn drylleu man yn ymyl y krut. A phan doeth yr arglwydes y mywn ac arganuot y ki a'r krut yn waetlyt, dyuot yn erbyn y marchawc y dan leuein a gweidi y gwynaw rac y ki a ladyssei y un mab. A'r marchawc trwy y lit a ladawd y ki. Ac yr didanu y wreic, ef a deuth y edrych y uab. A phan deuth, yd oed y mab yn holliach y dan y crut a'r sarff yn ddrylleu man yn y ymyl. Ac yna yd aeth yn drwc ar y marchawc llad ki kystal a hwnnw o eir ac annoc y wreic. Velly y [532] deruyd y titheu o lad dy vab o guhudet ac annoc dy wreic."

Ac yna y tyngawd yr amherawdyr na ledit y mab y dyd hwnnw. A gwedy teruynu eu kyghoreu ac eu dadleueu, y'r

[3] Ceir *buanllym* ddwywaith yn y llsgr., â llinell drwy'r ail.

neuad y deuthant. A phan wybu yr amherotres uot yn well gan yr amherawdyr ymdidan no bwyta, kyntaf ymdidan a oruc hi, gofyn idaw a dihenydywyt y mab. " Nado, myn vyg kret ! " heb ef. " Mi a wn," heb hi, " pan yw doethon Rufein a beris hynny. Vn ansawd, hagen, y deruyd ytti o gredu udunt hwy ac y daruu gynt y'r baed koet am y bugeil." " Pa delw uu hynny ? " heb yr amherawdyr. " Myn vyg cret ! nys dywedaf, ony rody dy gret ar dihenydyaw y mab auory." " Dihennydyir, myn uyg kret ! " heb ef.

[3. Aper.]

" Llyma y chwedyl," heb hi. " Prenn perffrwyth bricawclas a oed y mywn fforest yn Ffreinc. A'r baed ny mynnei ffrwyth prenn yn y coet namyn ffrwyth y prenn hwnnw. A dydgweith yd arganuu y bugeil y prenn, a gwelet y ffrwyth yn dec ac yn garueid velys aeduet, a chynullaw coeleit o'r ffrwyth. Ac ar hynny, nachaf y baed yn dyuot. Ac ny chauas y bugeil o ennyt onyt drigyaw y vric y prenn rac ofyn y baed, a'e goeleit gantaw. A'r baed, gwedy na chafas y frwyth megys y gordyfnassei, ffroeni ac ysgyrnygu danned a oruc. Ac arganuot y bugeil ym bric y prenn, a thrwy y lit dechreu diwreidaw y prenn. A phan welas y bugeil hynny, gellwng y frwyth

y'r baed a oruc. A'r baed, pan gafas dogyn, ef a gysgawd dan vric y prenn. Ac ac ef yn kysgu y disgyn y bugeil y'r llawr, ac a dyr breuant y baed a chyllell. Velly y deruyd y uaed Rufein, ac y dygir frwyth yr amherotraeth y gantaw."

"Myn vyg cret!" heb yr amherawdyr, "ny byd byw hwy noc auory." Trannoeth, trwy y lit, kyrchu y dadleudy a oruc yr amherawdyr, ac ar hynt erchi dihenydyaw [533] y vab. Ac yna y kyfodes Awgustus y uynyd a dywedut ual hyn. "Arglwyd," heb ef, "ny wnel Duw ytti wneuthur am dy uab megys y gwnaeth Ipokras am y nei." "Beth oed hynny?" "Myn uyg kret! nas managaf, ony rody dy gret na dihenydyer y mab hediw." "Na dihenydyir, myn vyg cret!"

## [4. Medicus.]

"Nei uab chwaer oed y Ipokras. A goreu ffusugwr oed o'r byt. A gwedy anuon kennat o vrenhin Ugarie y erchi y Ipokras dyuot y iachau mab a oed idaw yn glaf diobeith, ny[4] allawd ef uynet, namyn ellwg y nei yno. A'r gwas, pan doeth y'r llys, ef a vyryawd olwc ar y brenhin a'r urenhines ac ar y mab. A gwedy na welas ef dim o annyan y brenhin yn y mab, gofyn

[4] Llsgr. *ac ny*.

a wnaeth y uam y mab pwy oed y dat, kany allei ef y uedeginyaethu ef yny wypei anyan a natur y genedyl yd hanoed ohonei. Ac yna y dywawt hitheu y gael ef o orderchat o Iarll Nawern. Ac yna y peris ef rodi kic ych ieuanc yr mab, yny uu holliach. A gwedy y dyuot atref y gofynnawd y ewythyr idaw pa wed yd iachaawd y mab. 'A chic ych ieuanc,' heb ef. 'Os gwir a dywedy di was,' heb ef, 'o odineb y kaffat ef.' 'Gwir yw,' heb y mab. A phan welas y nei mor geluyd a hynny, medylyaw a oruc y lad, ac erchi idaw dyuot y orymdeith y gyt ac ef. A gwedy eu dyuot y le disathyr dirgeledic, dywedut[5] wrth y nei: 'Mi a glywaf,' heb ef, 'arogleu llysseu da.' 'Minneu a'e clywaf,' heb y mab, 'a'e mynny di wyntwy?' 'Mynnaf,' heb ef. Ac a'r mab yn gostwng y uedi y llysseu, y urathu a chyllell trwydaw yny dygwyd yn uarw y'r llawr. Ac yna y caplawd pawp Ipokras, ac yd emelldigwyt. Ac uelly, arglwyd amherawdyr, y deruyd y titheu ac yd emelltigir, o phery dihenydyaw dy uab ac ef yn wirion."

"Na pharaf, myn vyg cret!" heb ef. A'r nos honno, gwedy daruot bwyt, gofyn a oruc yr [534] amherodres a daroed dihenydyaw y mab. "Na deryw," heb yr amherawdyr. "Ie," heb hi, "doethon

5 Llsgr. *a dywedut.*

Rufein a beris hynny. Ac un ffunut y deruyd itti o gredu udunt am dy uab ac y daruu gynt y wr a ladawd y uab y benn, a'e gladu yn yr ysteuyll bychein." "Pa delw uu hynny?" heb ef. "Myn vyg kret! nys dywedaf, ony rody dy gret ar dihenydyaw y mab avory." "Llyma vyg cret y dihenydyir."

## [5. Gaza.]

"Mi a gigleu gynt uot amherawdyr yn Rufein, a chwannockaf dyn o'r byt y da bydawl oed. A gwedy daruot idaw kasglu a chynnull lloneit twr o eur ac aryant a thlysseu mawrweirthawc, ef a ossodes kebyd kyfoethawc ofnawc yn geitwat ar y da. Sef yd oed gwr godlawt callonawc yn y dinas, a gwas ieuanc dihauarchlym yn uab idaw. A'r gwr a'e uab a doethant hyt nos am benn y twr ac a'e torrassant, ac a dugant a vynassant o'r da. A thrannoeth, pan deuth y keitwat y edrych y twr, neur daroed dwyn diuessured o'r da yn lletrat. Ac yna yn ystrywgall, medylyeit a oruc y keitwat, a gossot kerwyneit o lut ardymeredic gerbronn y twr yn y lle y torryssit, y edrych pei kaffei y lladron y dangos y'r amherawdyr rac y amheu ef. A'r lladron, gwedy treulaw y da hwnnw ar tir a dayar a thei a phlasseu ac wrth eu digrifwch, wynt a deuthant drachefyn tu a'r twr. Ac ac wynt ac eu hysgafel gantunt

yn kyrchu allan, ny wybu y tat vn geir yny vyd hyt y wregis yn y gerwyneit lut. Ac yna gofyn kyghor a oruc y uab. 'Nys gwn,' heb y mab, 'onyt torri dy benn a chledyf, a'e gudyaw yn lle dirgel. Kanys o'th ordiwedir[6] a'th eneit ynot, dy gystudyaw a wneir itt, a'th boeni yny adeuych y da. Ac yna y menegy ditheu.' 'Och! arglwyd uab,' heb ef, 'nyt uelly y gwney a mi. Trugarockaf gwr o'r byt yw yr amherawdyr, a'r da yssyd barawt, a'm eneit a gaffaf ynneu [yr] y eturyt drachefyn.' 'Myn y gwr y credaf i idaw!' heb y mab, 'ny [535] byryaf y tri pheth yn antur yr llad dy benn y arnat.' 'Pa tri pheth yw y rei hynny?' heb y tat. 'Y da kyndrychawl yssyd gennyf, a'm eneit vy hun, a'r tir a'r trefneu a bryneist ditheu.' Ac yn greulawn estrongar llad penn y dat y arnaw. Velly y peir dy uab dy lad ditheu o chwant a charyat dy deyrnas, yssyd well no'r swllt."

"Myn uyg cret!" heb ef, ny byd y eneit yndaw hwy noc hyt auory." A thrannoeth pan welas y dyd, kyrchu y dadleuty ac erchi dihenydyaw y mab. Ac yna y kyuodes Lentillus y uynyd a dywedut val hynn. "Arglwyd amherawdyr," heb ef, "un ansawd y deruyd ytti, o phery dihenydyaw dy uab, ac y daruu gynt y hen wrda kyuoethawc am wreic ieuanc dec a oed idaw a garei yn

[6] Llsgr. *othdordiwedir*.

vawr." "Beth oed hynny?" heb yr amherawdyr. "Myn Duw! nys managaf, ony rody dy gret na dihenydyer y mab hediw." "Na dihenydyir, myn vyg kret! a dywet ym dy chwedyl."

[6. Puteus].

"Hen wrda bonhedic oed gynt, ac ef a briodes morwyn ieuanc vonhedic. Ac ny bu hir gwedy eu dyuot y gyt yny vyryawd hi serch lledradeid ar was ieuanc o lys yr arglwyd. A gossot eluyd ac ef a wnaeth. Ac ygkylch y rann gyntaf o'r nos, pan oed drymaf hun y gwr, y kyuodes hi y vynyd, ac y deuth att y gorderch. Ac ny bu hir gwedy y mynet yny dyffry y gwr, ac ymtroi yn y wely. Ac ual ryued uu gantaw clybot y wely yn wac o'e gymar. A thrwy lit ac ediged y kyfodes y uynyd a cheissaw y ty amdanei. A gwedy nas kauas, y deuth ef drachefyn tua'r drws, a chaeu y drws yn gadarn, a thygu trwy y lit na sagei hi y ty hwnnw tra uei vyw. A hitheu, gwedy ymlenwi yn digrifwch serchawl gyt a'e gorderch, ychydic kynn y dyd y deuth tua'r drws. A gwedy na welas y drws yn agoret, erchi agori a oruc. 'Llyma vyg cret,' heb y gwr, 'nat agorir y ty yma ragot ti y'th oes. Ac auory, yg [536] gwyd dy genedyl, mi a baraf dy lebydyaw a mein.' 'Llyma vyg kret,' heb hi, 'vot yn gynt y byrywn

neit o'r lle yd wyf yn y bysgotlyn yma y'm bodi, noc yd arhown yr adoet hwnnw arnaf i.' Ac arganuot maen mawr yn y hymyl a wnaeth, a dyrchauel y maen mawr ar y hysgwyd a'e vwrw yn y llyn, yny glywit y kwymp dros yr holl lys. A gwaethaf yn y byt yd aeth arnaw ef[7] hynny, a dyuot allan a oruc y edrych a ordiwedei yr eneit yndi. A hitheu yn gyflym diueryawc a aeth y mywn, a chaeu yn gadarn erni, a'e uegythyaw ef am torri y briodas ac adaw y ty a'e wely yr amser hwnnw yn y nos. A thrannoeth, yg gwyd brawtwyr y dinas a'r swydogyon, y bu reit y'r gwr diodef y poen a'r dial a dylyei hi y gael am y drygeu. Ac uelly y siomha dy wreic ditheu am dy uab ; a hi yssyd drwc a chamgylus, a'r mab yssyd ar yr iawn."

" Myn uyg cret ! " heb ef, " ny dihenydyir ef hediw." A gwedy bwyt y dywawt y urenhines : " Mi a wn," heb hi, " na adawd doethon Rufein dihenydyaw y mab hediw." " Nado," heb ef. " Myn vyg cret ! " heb hi, " un funut y deruyd itti, o gredu udunt am dy uab, ac y daruu gynt y vn o dinaswyr Rufein am pren ffrwythlawn bricawclas a oed annwyl gantaw." " Beth oed hynny ? " heb yr amherawdyr. " Llyma uy ffyd nas dywedaf, ony rody dy

[7] Llsgr. *ef* ddwywaith, a phwyntiau dileu dan y cyntaf.

gret ar dihenydyaw y mab auory." " Myn vyg kret !" heb ef, " y dihenydyir."

[7. Ramus.]

" Llyma y chwedyl," heb hi. " Y wr o Rufein yd oed prenn perffrwyth yn tyfu yn y erber, a cheing unyawn dec yn kyuodi o von y prenn ac yn kyrchu y'r awyr. Ac od oed annwyl gan y gwr y prenn a'r ffrwyth, annwylach oed y geing o achaws y thecket. ' Yrof a Duw !' heb y gardwr, ' bei vyg kyghor a wnelut, ti a barut torri y geing y wrth y prenn.' ' Pa[537]ham ?' heb ef. ' Am na tiogel ytt gaffel ffrwyth y prenn tra vo y geing racko yn ysgynnprenn ac yn ganhalprenn drycdynyon a lladron, ac nat oes fford y drigyaw y'r prenn nac y gaffel y ffrwyth onyt trwy y geing racko.' ' Myn uyg cret !' heb ef, ' ny thorrir dim o'r geing yr hynny mwy no chynt.' ' A bit uelly,' heb y gardwr. A'r nos honno ef a deuth lladron y'r prenn a'e yspeilaw o'e ffrwyth, a'e adaw ynteu yn amnoeth bricawcdwn erbyn trannoeth y bore. Ky noethet a hynny y gedeu doethon Rufein ditheu o ffrwyth dy deyrnas ony ledy y geing gan dy uab."

" Lledir, myn vyg cret ! avory y bore," heb ef, " ac wynteu kymeint vn." A thrannoeth, trwy lit ac annoc y vrenhines, kyrchu y dadleudy a wnaeth yr amherawdyr,

ac erchi dihenydyaw y uab, a doethon Rufein y gyt ac ef. Ac yna y kyuodes Malqwidas y uynyd—gwr aduwynbrud oed hwnnw—a dywedut ual hynn. "Arglwyd amherawdyr," heb ef, "os o annoc dy wreic a'e chuhudet y pery dihenydyaw dy uab, ef a'th syomir ual y syomes y bleid y bugeil." "Pa wed uu hynny?" heb yr amherawdyr. "Myn vyg kret!" heb ef, "nys managaf, ony rody dy gret na dihenydyer y mab." "Na dihenydyir, myn uyg cret! a manac ym dy chwedyl."

## [8. Roma–lupus.]

"Llyma y chwedyl," heb ef. "Namyn dinas kyfoethawc kadarn a oed yn y dwyrein, a seithwyr kymhendoeth synnhwyrus a oedynt yn kadw ac yn llywyaw y dinas. Ac nyt yn y kaerwyr a'r dinasswyr yd oed gedernit y dinas, namyn yn doethineb y gwyr a'e kymhendawt. Ac yn hynny y deuth brenhin creulawn kadarn y geissaw goresgyn y dinas. A gwedy eisted yn y gylch a gossot peiranneu wrthaw, ny thygyawd y'r brenhin dim, rac kymhennet y gwyr o vywn yn kadw eu dinas. A phan welas y brenhin ystrywgar na cheffit y dinas o ymlad, [538] ef a wnaeth yn diueryawc adaw kiliaw y wrthaw, ac nat ymladei a niuer y dinas, yr anuon attaw ef y seithwyr uchot. A'r bobyl disynhwyr, heb welet y brat a'r

dolur a oed ygkud y dan y deil, a gredassant kelwyd a ffalsted edewidyon y brenhin, ac a gymerassant y gwyr ac a'e rwymassant, ar uedwl eu hanuon idaw allan. Ac yna y kyuodes un o'r doethon y uynyd ac y dywawt[8] ual hynn : 'Ha ! wyrda,' heb ef, 'un ansawd y deruyd y chwi o gredu y'r brenhin creulawn racko, gwedy y rodoch nyni yn y uedyant, ac y somhes gynt y bleid y bugeil ?' 'Pa wed uu hynny ?' heb wynteu.

'Bleid creulawn enwir a oed yn keisaw kyfle a chyfflwr ar y bugeil a'e aniueileit y eu llad. Ac ny adei gauaelgwn buanllym oed y'r bugeil seibeint idaw, nac yg koet nac ym maes. A'r bleid pan welas hynny a edewis hedwch a thagnefed tragywydawl y'r bugeil a'e ysgrybul yr dala y kwn a'e rwymaw a'e rodi attaw ef. A'r bugeil ynuyt a gredawd y eireu kelwydawc y bleid, ac a anuones y kwn y'r bleid. Ac ynteu yn gyflym a ladawd y kwn, a gwedy hynny yr yscrubyl, ac o'r diwed y bugeil. Velly y llad y brenhin creulawn racko chwitheu oll o chredwch idaw, gwedy darffo idaw yn llad nynheu.'

'Byw yw Duw, o chredwn idaw nac o'ch rodwn chwitheu vyth yn y uedyant.' Ac yna o'e kyghor hwy y goruuant arnaw ef

[8] Llsgr. *dywawawvt*.

ac y llas. Hynn, arglwyd, a dywedaf ytt yn wir. Megys y mynassei ef eu llad hwy bei credassynt idaw, ac ual y lladawd y bleid y bugeil o gredu idaw, velly y llad dy wreic ditheu o chredy idi, ac o phery an llad ninheu o'e hannoc."

" Na pharaf, myn vy ffyd ! " heb ef. Ac yna gwedy daruot bwyta y dywawt y urenhines wrth yr amherawdyr ual hynn. " Megys y tyn arogleu y deil a'r blodeu yr[9] ymlynyat y ar [539] ydrywed, yny gollo y llwdyn gantaw, velly y mae doethon Rufein y'th tynnu ditheu o eireu tec a pharableu eureit am dy uab, yny gollych dy vrenhinyaeth a'th gyuoeth. Kanys vn ansawd y deruyd itti, o gredu udvnt hwy, ac y daruu gynt y Rassian amherawdyr." " Beth uu hynny ? " heb ef. " Llyma vy ffyd," heb hi, " nas dywedaf, ony rody dy gret ar dihenydyaw dy uab auory." " Dihenydyir, myn uyg cret ! a pha delw uu hynny ? "

## [9. Virgilius.]

" Llyma y chwedyl," heb hi. " Fferyll," heb hi, " a ossodes colofyn ym perued Rufein, ac ar benn y golofyn drych o geluydyt igyrmars. Ac yn y drych y gwelas senedwyr Ruuein, pa deyrnas bynnac a geisynt, na wrthwynepei neb udunt. Ac

[9] Llsgr. *y tyn yr.*

yna yn gyflym yd eynt am benn yr honn a uynnynt, ac y darestygynt hi udunt. A'r golofyn a'r drych a oedynt yn peri y pob teyrnas ofynhav rac gwyr Ruuein yn vwy no chynt. Ac yna y kynnigyawd brenhin y Pwyl anneiryf o da y'r neb a gymerei arnaw diwreidaw y golovyn a thorri y drych. Ac yna y kyuodes deu vroder vn uam y uynyd a dywedut ual hynn. 'Arglwyd vrenhin,' heb wynt, 'pei caffem ni deu peth ni a diwreidem y golofyn.' 'Pa wed yw hynny?' heb ef. 'Yn dyrchafel ar urdas ac anryded a vei vwy rac llaw, a chyfreideu kyndrychawl yssyd reit yr awr honn?' 'Beth yw hynny?' heb ef. 'Dwy varileit o eur,' heb wynt, 'kanys chwanockaf dyn o'r byt y eur yw Gracian amherawdyr.' 'A hynny a geffwch,' heb y brenhin. Ac eur a berit udunt. Ac wynteu a gyrchassant a'r eur tua Ruuein, ac hyt nos hwynt a gladassant y dwy uaril yn ymyl y dinas ger llaw prifford. A thranoeth, wynt a deuthant y'r llys, a chyf[540]arch gwell y'r amherawdyr ac ymgynnic yn wyr idaw. 'Pa wassanaeth neu pa geluydyt a wdawch chwi, pan gymerwyf i chwi yn wyr ym?' 'Ni a wdam,' heb wynt, 'a uo eur ac aryant kudyedic y'th teyrnas, a ni a barwn itt y gael o gwbyl.' 'Ewch chwi heno gwedy awch bwyt tua'ch llety, ac edrychwch erbyn auory a vo eur kudyedic y'm kyuoeth. Ac

or byd, menegwch ym, ac o chaffaf hynny yn wir, mi a'ch kymeraf yn anwyleit ym.' Ac ymeith yd aethant y lletty. A thranoeth y deuth y mab ieuaf hyt rac bron yr amherawdyr, a dywedut rygael ohonaw ef ar y dewindabaeth bot barileit o eur yn ymyl porth y dinas yghud. Ac yna yn diannot y peris yr amherawdyr uynet y geissaw hwnnw. A gwedy y gael a'e dwyn idaw y kymerth y gwas yn annwyl idaw. A thrannoeth y deuth y mab arall a dywedut rygael ohonaw ef ar y vreudwyt bot barileit o eur yghud yn y porth arall y'r dinas. A gwedy proui hynny a'e gael yn wir, credadwy uu y gweisson a hoff gantaw o hynny allan, a'e kymryt yn annwyleit idaw. Ac wynteu yna a dywedassant bot o eur y dan y golofyn a waredei y deyrnas yn dragywyd. Ac yna y dywawt senedwyr Rufein, o diwreidit y golofyn, na bydei gyn gydarnet Ruuein o hynny allan a chynt. Ac ny adawd chwant eur ac aryant y'r amherawdyr uot wrth gyghor y gwyr hynny. Diwreidwyt y golofyn, a hynny a tyrr y drych. A drwc yd aeth ar senedwyr Ruuein hynny. Ac yn gyflym dyuot am y benn a'e dala a'e rwymaw, a chymell arnaw yuet eur brwt [541] gan dywedut wrthaw ual hynn: 'Eur a whennycheist, eur a uynny.' Velly ny at dy chwant ditheu y warandaw doethon Rufein, y rei yssyd y'th dihiryaw ac eureit

barableu, y [ti] gredu uyg kyghoreu i am dihenydyaw dy uab, yny wnelont dy agheu a'th adoet[10] yn dybryt."

" Myn uyg kret," heb ef, " ny byd byw eithyr hyt auory." A thrannoeth y bore, kyntaf peth a wnaeth ef, erchi dihenydyaw y mab. Ac yna y kyfodes Kato Hen, gwr kymhendoeth, a dywedut ual hynn. " Arglwyd amherawdyr, nyt yn ol ymadrodyon ffalst kelwydawc a glywho dy glusteu y dylyy[11] uarnu, namyn trwy anmyned, a cheissaw gwirioned y uarnu gwir yrwng hen a ieuanc. A chy aghywiret vyd dy wreic itti, yr honn yd wyt yn y charu ac yn y chredu, ac y bu wreic i sirif o Lesodonia."

" Kato Hen," heb yr amherawdyr, " pa wed uu hynny ? " " Llyma vy ffyd nas managaf, ony rody dy gret na dihenydyer y mab hediw." " Na dihenydyir, myn uyg cret ! " heb ef. " Llyma y chwedyl," heb ef.

## [10. Vidua.]

" Yd oed gynt gwas ieuanc o Ruuein yn syryf o Lesodonia. A diwarnawt[12] yd oed yn[13] nadu paladyr, a'e wreic yn kytkam ac ef, ac ef yn gware a hi. Ac yn hynny ef a gyfaruu blaen y gyllell ef a'e llaw hi yny doeth y gwaet. A chyndrwc yd aeth arnaw

[10] Llsgr. *athdadoet.* [11] Llsgr. *dyly.* [12] Llsgr. *diwarnawt* ddwywaith, a'r cyntaf â llinell drwyddo. [13] Llsgr. *ynadu.*

ef hynny a'e vrathu ehun a wnaeth y dan y vron a'e gyllell, yny dygwyd yn varw y'r llawr. A gwedy gwneuthur y gyweirdeb a'e wassanaeth yn y llys, ef a ducpwyt tu a'r llan y gladu. A ryfed nat oed yssic penneu y byssed, rac ffesdet y maedei y dwylaw y gyt yn kwynaw y gwr. Vch oed bop llef a diaspedei noc a oed o gorn a chloch dros wyneb yr holl dinas. A gwedy cladu y gwr a chilyaw pawb o'r eglwys, y mam a erchis y'r unbennes dyuot gyt a hi atref. Hitheu a tygawd y'r gwr a oed uch penn [542] nat aei hi odyno yny uei varw. 'Ny elly di,' heb y mam, 'gywiraw y geir hwnnw. Ac am hynny iawnach yw ytt dyuot y'th lys dy hun y gwynaw dy wr, no thrigyaw yn lle ofnawc aruthur mal hwnn mor unic a hynny.' 'Mi a brofaf a'e gallwyf,' heb hi. Ac yna y peris y mam kynneu tan goleu abrwsgyl ger y bronn, ac adaw bwyt a diawt y dreulaw pan delei newyn arnei, wrth na chyfeirch newyn y borthi. A'r nos honno yd oed marchawc pedrydawc kadarn o'r gaer yn gwylat herwyr a grogyssit y dyd hwnnw. Ac ual y byd yn troi o bell ac o agos, ef a welei oleuat amlwc yn y lle nys gwelsei kyn no hynny eiryoet. A brathu y uarch a wnaeth y edrych pa le yd oed y tan, a pha achaws y gwnathoedit. A phan deuth, ef a welei mur a mynnwent ac eglwys, a than uchel goleu yn yr eglwys. A

ffrwynglymu y uarch a oruc ef wrth porth y uynnwent, ac yn y aruot a'e arueu dwyn hwyl y'r eglwys y edrych pwy oed yndi. A phan deuth, nyt oed namyn morwynwreic ieuanc yn eisted oduch bed newyd gladu, a than goleu diuwc rac y bronn, a dogyn o vwyt a diawt yn y hymyl. A gofyn a wnaeth ef beth a wnaei dyn mor ieuanc o oetran a mor dinerth o gorff a mor adfwyn o bryt yn lle mor ofnawc a hwnnw ehunan. Ac yna y dywawt hitheu nat oed erni ofyn kymeint a hwyret yd oed agheu yn dyuot idi. A'r marchawc a ofynnawd idi py achaws oed hynny. ' Cladu,' heb hi, ' y gwr mwyaf a gereis yr-moet, ac a garaf tra uwyf vyw, yn y lle hwnn hediw. Diogel uu garu ohonaw ynteu vinneu yn vwy no neb, pan dyckei y adoet ehun o'm achos ynneu.' ' A ! vnbennes,' heb y marchawc, ' pei vyg kyghor a wnelut, ti a drout o'r medwl hwnnw, ac a gymerut gwr a uei gystal a'th wr dy hun, neu a vei well.' ' Na uynnaf, [543] myn y gwr yssyd vch penn ! gwr vyth gwedy ef.' A gwedy ymdidan rynnawd onadunt, y marchawc a gyrchawd tua'r crocwyd. A phan deuth, ef athoedit ac un o'r lladron ymeith. A drwc yd aeth arnaw ef hynny ; kanys gwassanaeth y marchawc oed, dros y dir a'e dayar, kadw gwyr bonhedic a grockit rac eu dwyn o'e kenedyl y eu kladu. A

thrachefyn y deuth ef att yr unbennes, a menegi y gyfranc a'e damwein idi. 'Pei rodut dy gret ar vym priodi i, mi a'th rydhawn o'r pwnc hwnnw.' 'Llyma vy ffyd,' heb ef, 'y'th priodaf.' 'Llyma ual[14] y gwnelych.' heb hi. 'Datclad y gwr ysyd yma, a chroc ef yn lle yr herwr. A hynny nys gwybyd neb onyt ni yn deu.' A datkladu y pwll a wnaeth ef yny doeth tua'r corff. 'Llyma hwnn,' heb ef. 'Bwrw y uynyd,' heb hitheu. 'Ym kyffes!' heb ef, 'haws oed gennyf i ymlad a thrywyr byw no dodi vy llaw ar ungwr marw.' 'Mi a'e dodaf,' heb hi. A bwrw neit esgutlym yn y pwll, a thaflu y corff y uynyd hyt ar lan y pwll. 'Dwc di ef bellach tua'r crocwyd,' heb hi. 'Nys gwyr Duw,' heb ef, 'ymi nac y'm march allel ymdeith onyt yn anawd rac meint yssyd o arueu ymdanam.' 'Mi a'e gallaf,' heb hi. 'Dyrchaf di ef ar vy ysgwyd.' A gwedy y gael ar y hysgwyd, hi a gerdawd brasgameu gwrawldrut ac ef yny deuth hyt y crocwyd. 'Och!' heb y marchawc, 'pa da o hynny? Yd oed dyrnawt cledyf ar penn yr herwr.' 'Taraw ditheu,' heb hi, 'dyrnawt ar penn hwnn.' 'Na thrawaf, ym kyffes!' heb ef. 'Ym kyffes!' heb hi, 'mi a'e trawaf.' A tharaw dyrnawt mawr a'e gledyf ef ar penn y gwr. 'Ie,' heb y

[14] Llsgr. *ual* ddwywaith, a llinell drwy'r ail.

marchawc, ' pa da o hynny ? Yd oed yr herwr yn vantach.' ' Minneu a wnaf hwnn yn vantach,' heb hi. A chael maen mawr, a dyrchauel llaw arnaw yny vyd lledyr [544] y weuusseu a'e danned yn drylleu o angerd a chedernit y dyrnawt. ' Ie,' heb y marchawc yna, ' aruoel oed yr herwr.' ' Minneu a wnaf hwnn yn aruoel.' heb hi. A chymryt penn y gwr yrwng penn y deulin a'e deu troet wrth y dwy ysgwyd. Na gwreic yn kneifaw na gwr yn eillaw, ny bu yr vn gynt yn hunyo penn y gwr no hi. Ac ar uyrder, o'e dal hyt uchafyon y iat nyt edewis un blewyn heb y dynnu ymeith, mwy noc y gedeu y memrennyd ar y memrwn. A gwedy daruot idi hynny, hi a erchis y'r marchawc y grogi. ' Llyma vyg cret nas crogaf, ac nas crogy ditheu. A phettut un wreic di o'r byt, ny mynnwn i dim ohonat ti. Kanys pan vydut ti mor agkywir a hynny wrth y gwr a'th priodes yr yn verch, ac a duc y adoet o'th garyat, ys agkywir a beth vydut ti ymi, heb welet golwc arnaf eiryoet hyt heno. Ac am hynny dos di y fford y mynnych,[15] wrth na mynnaf i dydi byth.' Ym kyffes i y Duw, arglwyd amherawdyr, kyn aghywiret a hynny rac llaw vyd y wreic yd wyt yn peri dihenydyaw dy uab yr awr honn o'e hachaws."

" Llyma vyg cret na dihenydyir," heb ef. A gwedy daruot bwyta, y vrenhines a

[15] Llsgr. *myn | nnych.*

ovynawd y'r amherawdyr a daroed dihenydyaw y mab. " Na derw," heb ef. " Ny deruyd byth," heb hi, " tra uo byw doethon Ruuein. Kanys megys y tynn y vamaeth y mab y ar y lit a'e gyffro trwy sonyaw a thrabludyaw yn y glusteu neu dangos ryw betheu ffol massw idaw, velly y mae doethon Ruuein y'th tynnu titheu y ar dy gyffro am vyg gwaratwyd i a'm kewilyd gan dy uab, trwy eu son a'e hymdidaneu ar yr ryw liw [545] ar gelwyd a dangossant ytt. Ac un ansawd y deruyd ytt o'r diwed, o gredu udunt, ac y daruu gynt y'r brenhin a welei trwy y hun y dallu beunoeth." " Pa delw oed hynny ? " heb yr amherawdyr. " Llyma vyg cret nas managaf, ony rody dy gret ar diua y mab auory." " Llyma vyg cret y diueir," heb ef.

[11. Sapientes.]

" Yd oed brenhin gynt ar vn o dinassoed Rufein, ac ef a ossodes seithwyr y lywyaw y dinas. A'r gwyr a ymrodes y gynnullaw eur ac aryant a thlysseu, yny oed gyfoethogach y tlotaf onadunt o da kyndrychawl no'r brenhin. A hynny a wnaethant hwy o'e kyt gyghor ual y keffynt llad y brenhin a rannu y urenhinyaeth yryngtunt, a hynny o nerth a chedernit eu da. A pheunoeth y gwelei y brenhin, trwy y hun, peir a seith troet [ydanaw, a mwc][16] yn kyuodi ohonaw, yn

[16] Gweler yr amrywiadau.

vn ffunyt a chyt bei ffyryfdan kadarn y danaw. A gwrychyon a deuynt o'r rei hynny am y lygeit ac a'e dallei, tybygei ef. Ac yna yd anuones ef kennadeu yn ol dewinyon breudwydon y bop lle. A'r kennadeu a damweinawd ar was ieuanc a gawssei ragor gan Duw o yspryt dewinyaeth y dehogyl breudwydyon a gweledigaethev a delynt rac llaw yn oes oessoed. A'r gwas a ducpwyt hyt rac bron y brenhin, a'r brenhin gwedy y dyuot a uenegis idaw y vreudwyt. 'Ie,' heb y gwas, 'dehogyl dy ureudwyt a wnaf, a'th gyghori ditheu amdanaw. Ac ony bydy wrth gyghor, ef a daw dy ureudwyt ytt odieithyr dy hun ual yd wyt yn y gwelet drwy dy hun. Llyma dy vreudwyt,' heb y gwas. 'Y peir a welut trwy dy hun a arwydockaa y dinas hwnn. Y seith troet a welut yw y seithwyr yssyd yn y lywyaw, y rei yssyd yn berwi o ormod kyuoeth a golut ac yn darparu brat ytt, ony ledir wynt yn ebrwyd.' Ac ny bu y brenhin wrth gyghor y gwas, [546] yny ladassant wy euo a dwyn y urenhinyaeth y arnaw. Velly ny bydy ditheu am dy uab a doethon Rufein, y rei yssyd y'th uredychu ac y'th dwyllaw ar eireu yny gaffont gyfle y'th lad ac y dwyn dy deyrnas y arnat, ony ledy wynt yn ebrwyd."

"Llyma uyg cret," heb ef, "y lledir wynt auory." A thrannoeth, trwy y lit,

kyrchu y dadleudy a oruc, ac erchi crogi y uab a doethon Ruuein y gyt[17] ac ef. Ac yna y kyuodes Iesse y uynyd a dywedut ual hynn yg gwyd pawb o'r niuer. "Ny dyly arglwyd bot yn anwadal na gadu y ffalsted a chelwyd y droi. Ac ual y somes y urenhines y brenhin gynt am y marchawc, velly y soma dy wreic titheu tydi." "Pa delw uu hynny?" heb ef. "Myn Duw! nys managaf, ony rody dy gret na dihenydyer y mab hediw." "Na dihenydyir," heb yr amherawdyr.

[12. Inclusa.]

"Llyma y chwedyl," heb ynteu. "Yd oed marchawc gynt a welei y uot beunoeth y mywn twr uchel, yn ymgaru ac arglwydes ieuanc delediw ny welsei eiryoet olwc erni odieithyr y hun. A churyaw yn uawr a wnaeth o garyat yr unbennes. Sef a gafas yn y gyghor, mynet y grwytraw bydoed a dinassoed amdanei. Ac ual y byd yn kerdet, ef a welei gaer uawr vylchawc, a chastell ffyryf mawr amlwc yn y hymyl, a ffyryftwr aruchel yn y kastell,[18] kynhebic y liw a'e lun y'r hwnn y gwelei y vot yndaw beunoeth ef a'r wreic vwyhaf a garei. A thua'r twr y kyrchawd, a'r brifford y dan y kastell a gerdawd yny doeth yn ogyvuch a'r twr. A bwrw golwc ar y twr a wnaeth, ac arganuot

[17] Llsgr. *ygyt* ddwywaith, a llinell drwy'r ail. [18] Llsgr. *kastel*.

y wreic vwyhaf a garei yndaw ; a llawen a da uu gantaw y gwelet. A'r dinas a gyrchawd, a dala lletty yndaw y nos honno. A thrannoeth, drwy uawred dyuot tua phorth y kastell, a galw y porthawr attaw, ac erchi idaw vynet y ovyn y'r brenhin a vynnei uarchawc ieuanc diffalst diwyt yn wr idaw. A dyuot a oruc att y brenhin, a dywedut uelly wrthaw, 'Gollygher y mywn,' heb ef, 'y [547] edrych a aller defnyd ohonaw.' A'r marchawc a deuth y'r llys, a chanmoledic uu gan bawp y deuodyat ef. Ac ar vyrder,[19] kyn ganmoledicket vu a'e wneuthur o'r brenhin yn oruchel dros y gyuoeth. Ac yna y dywawt ef wrth y brenhin vot yn reit idaw ef gaffel lle dirgeledic y vedylyaw ygkylch swyd a chyfrif kymeint ac a oed arnaw. 'Edrych y kyfle a vynnych a chymer ef.' 'Llyma a vynnwn i, arglwyd,' heb ef, 'gadu ym adeilat ystauell yn ymyl y twr ; kanys diamsathyr yw yno.' 'Da yw gennyf i hynny,' heb y brenhin. Ac ar hynt, y marchawc a beris adeilat ystauell hard idaw yn ymyl y twr, a pheri y'r saer gwneuthur fford dirgeledic idaw y vynet y'r twr att wreic y brenhin. A'r saer a wnaeth y ffordd, ac yny ymgauas a'r vrenhines y wneuthur y vynnv ohonei. Ac ual yd oed, diwarnawt, yn bwyta ar yr vn bwrd a'r brenhin, yd

[19] Sgrifennwyd *vyrdyr*, yna rhoed *e* uwch ben yr *y* heb ddileu honno.

arganuu y brenhin y vodrwy annwylaf yn y helw am vys y marchawc. Ac yn llidiawc eidigus, gofyn idaw beth a wnaei y vodrwy ef ar law y marchawc. A'r marchawc ystrywgar a tygawd na bu uedyannus dyn eiryoet arnei namyn euo. 'Ac am hynny, arglwyd, galw dy gof attat, ac edrych pa du y kedweist dy uodrwy,[20] wrth na bu honn eiryoet y'th ueu di.' Ac ymgynhewi a oruc y brenhin, a bwytta, a ryuedu gweith y uodrwy. A gwedy bwyta, y brenhin a gychwynnawd tua'r twr y ovyn y'r urenhines y vodrwy. A'r marchawc o'e fford ynteu a duc y vodrwy idi y dangos y'r brenhin pan y gofynnei. A'r brenhin, pan doeth, a ofynnawd y vodrwy, a hitheu a'e dangosses idaw. Ac yna [548] y goruc y brenhin y agreiffto ehun yn y uedwl am gystudyaw y marchawc ac am dybyaw y wreic, ac wynt yn wirion ar y vryt ef. Ac yna y dywawt y marchawc wrth y vrenhines : 'Miui a af y hela y gyt a'r brenhin auory. A mi a'e gwahodaf ef wrth y vwyt y'm ystauell i pan del o hela, ac a dywedaf idaw dyuot y wreic vwyaf a garaf o'm gwlat y'm ol. A byd ditheu yn an herbyn ninneu, ac amryw wisc ymdanat. Ac yr a gymero ef o adnabot arnat ti, na at ti arnat y adnabot ef na'e welet eiryoet hyt yna.' 'Mi a wnaf,' heb hi. A thrannoeth yd aethant y hela.

[20] Llsgr. *uod* | *drwy*.

A gwedy kanu corn llad a daruot hela, y marchawc a adolygawd y'r brenhin dyuot y vwyta y ystauell ef y dyd hwnnw. A'r brenhin a deuth ; a phan deuth, kyntaf dyn a welas, y wreic yn ystauell y marchawc. A gofyn a wnaeth ef idi beth a wnaei hi yno, a pha fford y deuth yno. 'Anawd iawn,' heb hi, 'yw ymi venegi ytti y gyniuer fford amdyfrwys a ymdeeis i o'm gwlat hyt yma. Ny wn ynneu le iawnach ym vot noc yn ystauell y gwr mwyaf a garaf. Ac os bwrw kyfadnabot yd wyt ti yn ol kyffelybrwyd, edrych di pa le y mae y neb yd wyt yn y geissaw, wrth na weleist ti olwc arnaf i eiryoet hyt hediw.' Ac yna kynhewi a oruc y brenhin, a medylyaw na welas eiryoet gwreic a modrwy mor debig a'e wreic ef a'e vodrwy y wreic a modrwy y marchawc. A gwedy bwyt, y brenhin a aeth tua'r twr y geissaw diheurwyd am y wreic ual y kafas am y vodrwy. A hitheu a'e racvlaenawd ef y fford arall, ac a symudawd wisc a gwisgaw y chartrefwisc ehun ymdanei. Ac ynteu pan deuth a'e hagreithawd ehun yn y uedwl, am y gamadnabot ar orderch y marchawc. Ac ym penn yspeit o amser, y marchawc [549] a welas nat oed diberigyl idaw kynnal karadas a gwreic y brenhin yn un wlat ac ef, ygwaethach yn y lys a'e gastell ehun. Ac ef a gafas yn y gyghor parattoi llong a'e llenwi o bop da. Ac yna ef a erchis

kenyat y brenhin y uynet tua'e wlat, wrth na buassei ys hir o amser. A'r brenhin a'e kanhadawd. A thrannoeth, ef a doeth kyn eu kychwynnv, ef a'e orderch, att y brenhin y lle yd oed ef yn gwarandaw offeren. Ac ef a adolygawd[21] idaw peri y offeirat teulu gwneuthur rwym priodas yrygtunt ell deu. A'r brenhin a beris eu priodi. A gwedy y briodas, wynt a gyrchassant y'r llong. A'r brenhin a aeth tua'r twr. A phan deuth, yd oed y twr yn wac, a'e wreic gwedy mynet gyt a'r marchawc. Velly, arglwyd amherawdyr, y soma dy wreic ditheu o gredu idi, a pheri dihenydyaw dy uab o'e hachaws."

"Na pharaf, myn vyg cret!" heb ef. A'r nos honno y dywawt[22] yr amherotres adan ucheneidaw a thristwch, a dywedut wrth y brenhin: "Ef a deruyd yti ual y daruu y ystiwart brenhin y Pwyl." "Beth oed hynny?" heb y brenhin. "Nys managaf, ony rody dy gret ar dihenydyaw y mab avory." "Yn wir," heb ef, "ef[23] a ledir."

[13. Senescalcus.]

"Y brenhin hwnnw a dyfassei heint yndaw ac a hwydawd. A gwedy y uedeginyaethu yn iach yd erchis y medic

[21] Llsgr. *ef aodolygawd*. Cf. J. 3 *Ac odylygawd*.
[22] Llsgr. *dywawawt*. [23] *ef a ledir* mewn llaw ddiweddar. Nis ceir yn LL. 92.

idaw keissaw gwreic ar y wely. Ac yd erchis ynteu y'r ystiwart llogi gwreic idaw yr naw morc. Sef a oruc ynteu, o chwant y da, rodi y wraig briawt ehun ar wely y brenhin. A gwedi bot achaws y'r brenhin y nos honno a gwreic yr ystiwart, ef a doeth y gwr drannoeth y erchi idi kyuodi y vynyd. A'r brenhin nis gadawd. Ac yna y datkanawd ynteu yg gwyd y brenhin y gam a'e gared. Ac yna y deholet ef o'r kyuoeth, a'r wreic a gafas gossymdeith digawn y gan y brenhin. Velly y deruyd [550] y titheu o chwant gwrandaw geireu y seithwyr doeth, ac y'th detholir o'th gyuoeth, a minneu a gaffaf digawn o da gan vyg kenedyl."

A'r brenhin a lidyawd o'r geir hwnnw, ac a tyghawd y lledit y mab drannoeth. A thrannoeth, heb gyghor gwyrda, yd erchis dihenydyaw y mab. Ac yna y doeth Martin, a dywedut a oruc wrth yr amherawdyr val hynn. "Os o annoc yr amherotres, heb gyfreith a heb varn gwyrda, y lledy dy uab, ef a deruyd yt ual y daruu y wr henndoeth am y wreic." Ac ny managawd y chwedyl yny rodes nawd y'r mab hyt trannoeth. Ac yna y dywawt ef.

## [14. Tentamina.]

"Gwr hen a priodes morwyn ieuanc, ac a uu gywir wrthaw vlwydyn. A gwedy

hynny ymdidan a oruc a'e mam yn yr eglwys, a dywedut nat oed uawr o digrifwch serchawl yd oed hi yn y gael gan y gwr yn y gwely, ac am hynny y bot hi yn karu gwas ieuanc. 'Ie,' heb y mam, 'prawf yn gyntaf annwyt dy wr, a thor y planbrenn bychan tec ffrwythlawn yssyd yn tyvu yn y erber, ac yssyd annwylach gantaw noc un o'r prenneu ereill.' A hitheu a wnaeth hynny. A gwedy daruot idi y dorri a'e dodi ar y tan, yr arglwyd a deuth adref o vwrw gweilch ac a adnabu y prenn. A gwedy gofyn ohonaw pwy a dorrassei y prenn y dywawt y wreic pan yw o eisseu tan y gwnathoed hi hynny, y beri tan idaw ef erbyn y dyuot atref. A thrannoeth, ymgael a'e mam a wnaeth yn yr eglwys, a menegi idi y damwein oll, ac y dywawt y bot yn karu gwas ieuanc. Ac eissoes o annoc y mam hi a broues y gwr yr eilweith. Val yd oed y gwr yn dyuot o hela, bytheiades a oed idaw, a garei yn vwy no'r holl gwn, a redawd ar ffwrwr y swrkot. Sef a wnaeth hitheu, ysclyfyeit kyllell vn o'r gwyr a llad yr ast. A gwedy y hagreithaw o'e gwr am wneuthur hynny yn y wyd ef, hitheu a dywawt pan yw o [551] drycanyan am lygru y phan newyd y gwnathoed hi hynny, ac na wnaey byth y kyfryw. Ac yna y tewit wrthi. A thrannoeth, gwedy dywedut y mam hynny, hi a dywawt y bot yn karu y

gwas ieuanc. A gwedy gofyn o'e mam idi pwy a garei, hitheu a dywawt nat marchawc oed, namyn yr effeirat plwyf, ac na wnaei vocsach. 'Ie,' heb y mam, 'medylya yn gyntaf rac bot yn greulonach dial gwr hen, gwedy llittio, no gwr ieuanc. A phrawf ef y dryded weith.' O annoc y mam hi a'e proues ual hynn. Val yd oed ef yn gwneuthur gwled y vonhedigyon a phennaduryeit y dinas, gwedy gossot pawb y eisted a gwassanaethu arnadunt o'r anrec kyntaf, hithev a rwymawd agoryat y[24] phrenuol wrth y lliein a oed ar y bwrd. A chyvodi a oruc ar y redec tua'r penn arall y'r ty a thynnv y lliein, yny dygwyd y'r llawr a oed arnaw o vwyt a diawt a phetheu ereill. Ac escussaw a wnaeth a dywedut mae y gyrchu kyllell a uei well y harglwyd y daroed idi y damwein hwnnw. Ac yna, o orchymyn yr arglwyd, y dodet llieineu o newyd ar y byrdeu a bwyt a llynn arnadunt. A thrannoeth y bore, kyvodi a oruc y gwr y uynyd, a pheri kynneu tan mawr. Ac ymliw a'e wreic am y tri gweithret a wnathoed, a dywedut pan yw o amylder drycwaet a oed yn y chorff y gwnadoed hi hynny. Ac o'e hanuod hi, ef a beris idi dwymaw y breich wrth y tan, ac a beris ellwng gwaet arnei yny[25] oed yn llywygu; ac yna rwymaw y dwy vreich a'e dodi yn y

[24] Llsgr. *a*. [25] Llsgr. *yn yd*.

gwely. A hitheu a anuones at y mam y dywedut y llad. A'e mam a doeth attei a dywedut wrthi: 'Pony dywedeis i itti nat oed dial drymach noc vn henwr gwedy llittyei?' Ac eilweith dywedut wrthi: 'A gredy di bellach y'r gwr ieuanc?' 'Na chredaf, dioer, byth,' heb hi. A thra uu vyw y bu diweir a gwastat. Ymogel di[552]theu, arglwyd amheraw-dyr," heb y Martin, "rac dygwydaw y mywn kared kymeint ac y lledych dy uab yr ethrot dy wreic. A bit diogel itt y dyweit[16] y mab auory."

"Ny chredaf ynneu hi vyth," heb y brenhin. A phan uenegis y brenhin y'r urenhines y dywedei y mab drannoeth, kythrudyaw yn uawr a oruc hi, ac ny wybu hi dim dechymic o hynny allan. A thrannoeth, pan gyuodes yr heul ar y byt yn oleu diwybyr, yr amherawdyr a'r gwyrda a'r doethon a aethant y'r eglwys. A gwedy gwarandaw offeren yn dwywawl, yd aethant odieithyr y vynnwent y eisted ar penn karrec y le amlwc. Ac yna y doeth y mab ger bronn yr amherawdyr rwg deuwr doeth. A gwedy adoli y arglwyd dat ac erchi idaw y gerenyd, herwyd na haedassei ef na'e var na'e anuod, "A'r goruchaf Duw," heb ef, "y gwr a wyr pob peth o'r a uu ac a vyd, a dangosses

[16] Llsgr. *ydyweit* ddwywaith, a llinell drwy'r ail.

ymi ac y'm hathrawon yn amlwc, trwy yr arwyd ar y lleuat a'r seren oleu eglur yn y hymyl, o dywedwn i vngeir yn vn o'r seith niwarnawt, na dihagwn rac agheu. Ac yna, arglwyd dat," heb y mab, " am y weledigaeth honno y teweis i, arglwyd, a'r amherotres y'm ethrot ac y'm kuhudaw wrthyt megys pei bydwn gelyn itt a cheissaw dy amherodraeth a'th diuetha. A thebic yw hi wrthyt ti amdanaf i ac y bu yrwng y marchawc gynt a'e vn mab ar y mor." " Beth oed hynny ? " heb yr amherawdyr.

## [15. Vaticinium.]

" Marchawc a'e uab a oedynt y mywn ysgraff ar y mor. A dyuot dwy vran a greu uch eu penn, a disgynn ar gwrr yr ysgraf a greu bop eilwers. A ryued uu gan y marchawc hynny. A'r mab a dywawt wrth y dat bot y brein yn dywedut y bydei da gan y dat kael dala blaen y lewys tra ymolchei, a'e uam yn dala twel idaw. A llidyaw a oruc y marchawc o'r geir hwnnw, ac ysclyffyeit y mab [553] a'e vwrw yn y mor dros y benn, a mynet ymeith a'e yscraf. Ac o dwywawl dyghet, ymlusc o'r mab ar y dwylaw a'e draet yny ymgafas a charrec yrwng allt a mor. Ac yno y bu tridie a theirnos heb vwyt a heb diawt. Ac yno y kauas pyscodwr y mab, ac y gwerthawd ef y ystiwart o wlat bell yr ugein morc. Ac

rac aduwynet y uoesseu a dahet y deuodeu a'e wassanaeth, ef a gafas enryded mawr gan yr arglwyd. Ac yn hynny, brenhin y wlat honno a oedit yn y orthrymu yn uawr o achaws bot teir bran yn greu uch y benn nos a dyd. A galw y gyt y holl wyrda a'e doethon, ac adaw rodi y vn verch a hanner y vrenhinyaeth y'r neb a dehoglei greuat y brein ac a'e gwylltei byth y wrthaw ef. A gwedy na cheffit neb a allei hynny nac a'e gwypei, o ganyat yr ystiwart y kyuodes y gwas ieuanc a dywedut wrth y brenhin, o chadarnhaei y edewit, y gwnaei ef gymeint ac yd oed y brenhin yn y erchi. A gwedy kanhadu hynny, y mab a dywawt ual hynn. 'Yr ys deg mlyned a mwy,' heb ef, 'y bu newyn ar yr adar ac ar yr aniueileit ereill. Yr hynaf o'r brein a edewis y wreic ym perigyl agheu o newyn, ac a aeth ymeith y wlat arall y geissaw bwyt. A'r bran racco, oed ieu no hwnnw, a drigyawd gyt a hi yr hynny hyt hediw. Ac yr awr honn, gwedy amlhau ymborth, y deuth y bran hen drachefyn, ac y mae yn holi y wreic y'r llall a'r bran arall yn y hattal racdaw. A phellach, oc eu kytsynnedigaeth, y maent yn dodi ar dy varn di deruyn eu dadyl, kanys pennaf wyt.' Ac yna, o duundeb y gwyrda, y barnawd y brenhin y wreic y'r hwnn a'e differth rac y marw o newyn, ac na dylyei yr hwnn a'e gedewis dim ohonei.

A phan welas y brein hynny, ehedec a wnaeth y deu vran y gyt yn llawen orawenus, a'r hen vran a ehedawd ymeith y dan ermein a gweidi. Ac yna y kauas y mab [554] enryded mawr gan y brenhin, ac y barnwyt yn lle gwr doeth. Ac o gyt gyghor y rodet merch y brenhin y'r mab, a hanner y vrenhinyaeth. A dydgweith, ual y byd y mab yn mynet trwy y dinas, ef a welei y vam a'e dat yn lletyv yn ty vwrgeis, wedy adaw y wlat o eisseu da, a dyuot y geissaw da hyt yno. Ac ygkylch gosper, ef a anuones ysgwier idaw y ty y bwrgeis, a dywedut idaw y bydei y brenhin ieuanc y gyt ac ef drannoeth yn bwyta. A'r bwrgeis a dywat : ' Bit yn llawen. Ef a geiff goreu a galler idaw.' A thrannoeth, pan uu amser gan y brenhin, ef a doeth y letty y marchawc. A phan doeth, y marchawc a gymerth lavwr a chawc y gynnic dwfyr y ymolchi y'r brenhin ieuanc ; ac nys gadawd ynteu. Ac ef a geissawd dala y venyc, a'e wreic yn dala twel. A'e wrthot a oruc ynteu, a dywedut dan owenu yn llawen: ' Arglwyd dat,' heb ef, ' llyma wedy r'dyuot yr hynn a dywedeis i ytti, ac yd oed y brein gynt yn greu ar yr ysgraff pan vyryeist ti vyui yn y mor. Ac na dolurya di yr hynny, kans Duw a'e troes yn lles ymi. Ac o hynn allan y kytwledychy di, ti a'm mam, y gyt a mivi tra voch vyw.' Megis hynny, arglwyd dat, val y bu y mab

hwnnw ufud a darestyngedic y dat, velly y keffy ditheu vyvi yn uvud ytt yr meint vo vyg gallu yn y byt hwnn. Ac yr Duw na chret ti geissaw ohonaf i treissaw dy wreic. Ti a wdost peri ohonat ti dy hun, o'e harch hi yg gwyd gwyrda, ymi vynet y hystauell hi. Ac ymgynnic ual nat oed gyfyawn idi, hynny a oruc hitheu. A gwedy y gwrthot ohonaf i, hitheu vegys agheu vy eneit a amgreffinnawd ehun, ac a tynnawd waet o'e hwyneb a gwallt y phenn. Ac yr hynny oll, arglwyd dat, myui a odefaf dy varn di, ti a'th wyrda, arnaf i."

Ac yna y gelwit ar yr amherotres y atteb rac bronn. [555] Hi a dywawt rywneuthur ohonei hi hynny rac dwyn o'r mab kyuoeth y dat a[27] hitheu. Ac yna o varn yr amherawdyr a'r gwyrda[28] y llosget korf yr amherodres, ac o varn y goruchaf vrawdwr. Sef oed hwnnw, Duw goruchaf, yr hwnn a gymerth yr eneit y'r poen a haedawd yn diannot.

Ac uelly y teruyna chwedyleu y seith doeth.

[27] Llsgr. *ae*. [28] Llsgr. *gwrda*.

# AMRYWIADAU

## o J. 3. a LL. 2.

[Saif J. ac LL. am y llawysgrifau, a rhoir y llythyren ar ôl y dyfyniad, gyda rhif tudalen y llsgr.]

*Teitl.* Yny mod hwn y treythir o chwedleu seith doetheon rufein, o weith llewelyn oferiat. J. 42a.

1 Diawchleisyawn J., Diawchleisawn a oed amherawdyr gynt yn Ruuein vawr. A gwedy marw y wreic briawt eua oed y henw a gadaw vn mab LL. 278.

6 lentillus J., lentilius LL.
catonus varchawc da LL.

14 mynytrwyd J.

20 chwech mlyned J. 42b, LL.

22 catonus LL.

24 oe ethrylithyr ae dysc J.

27 yn oreu ac y gallwyf J., LL. 279.

29 yn oreu ac y gellynt J.

31 ar vaeth udunt LL.

32 adeilyat LL.

41 genthi J. 43a, y gyt a hi LL.

43 y ty gwrach yscymmun vnllegeidyawc heb vn dant J., y dy gwrach LL.

45 mae plant yr ymherawdyr. Nyt oes idaw yr vn J., mae plant yr amherawdyr manac ymi LL.

48 yna y truanhaawd y wrach wrth yr ysgymmun arall gan dywedut. Nyt reit J.

50 ac agatuyd ohonat ti y keif er nas kaffo o arall LL.

52 y gyt a doethon ruuein LL. 280.

57 mi a baraaf vynet yny ol ae dangos ytti J. (mae'r *an* wedi gwywo), mi a anuonaf yn eu hol LL.

62 amdiffyn kymen | doeth LL.

64 dywat LL.

65 y seith diwarnawt LL.

66 minneu vy hunan a amdiffynnwn J. 43b, minheu vy hvn a ymdiffynnwn LL.

70 oe dangos J., yw dangos LL.

71 a gwedy y dyuot or neuad ae rassawu oe dat a phawb or niuer LL., ae rassawu J.
74 a drwc yr aeth J.
75 yw lysuam. A hitheu pann y gweles J., yw dangos yr amherodres y lysuam. A hitheu pan y gweles a flamychawd LL. 281.
78 a geireu serchawl J., LL.
81 a hitheu pan weles y thremygu a dodes diasbat vchelgroch bengarn aruchel. A than ysgythru gwisgyat y phenn ae hardunyant a gwneuthur LL.
87 y maedei y dwylaw y gyt J. 44a, LL.
93 y llyein mwyaf LL.
101 yny ymyl. A changen or vawr yn llesteiryaw yr vechan dyfu. Ac yna yd erchis y bwrdeis bioed y gwyd y ardwr torri kangen or binwyden hen a oed yn llesteiryaw ar y vechan gyuodi. A gwedy torri y geinc J. 44b.
102, 105 yn llesteiryaw ar y vechan y gyuodi LL. 282.
108 ar veithrin LL.
110 distryw J., kyfundeb y gwyrda hynny yth distryw LL.
116 amherodyr LL.
135 Yd oed J. 45a, yr oed LL. 283.
136 diwarnot LL.
137 twrneimant. J.
144 gweywyr J. 45b.
149 milgi buanllym bonhedic LL.
A chan eu hymlad ae hymdaraw elldeu J.
150 ae wyneb yr gwaret LL.
151 Ar ki bonhedic LL.
152 ae adaw LL.
156 y gwynaw rac y ki a dywedut yr milgi lad y hunmab LL. 284.
164 o gehudet J. 46a, o gyhudet LL.
168 dadleu J., eu kynghoreu ae dadleu yr neuad y doethant a phan vu barawt bwydeu yr byrdeu yd aethant LL.
182 Pren frwythlawn briwgawclas J. 46b, Prenn perffrwyth mawr LL.
194 ffroeni a disgyrnu danned a oruc J., dysgyrnu LL. 285.
196 a phan weles LL.
197 gollwng J.
198 y dogyn or frwyth LL.
205 efory J. 47a.
209 y vyny J.

217 fussigwr LL. 286.
218 vngarie J., LL.
221 gollwng J. 47b, anuon LL.
223 a gwedy na weles dim o waet y brenhin yn y mab. gouyn a wnaeth ydy vam pwy oed dat y mab LL. (Gw. *Y Beirniad*, VI, 125–6.)
227 y genedyl y hanoed o honei J. (Cf. *Darn o'r Ffestival*, td. 15, a gw. Amr. 584.)
229 nauarn J., LL.
234 o odineb y kat y mab LL. 287.
235 A phan weles J., A phan weles Ipocras y nei mor geluyd a hynny ac dringyaw ar y wybodeu ef yn ogyvywch ar ynteu LL.
243 yn gestwng yw medi LL.
248 yth ymelldigir LL.
254 Ieu heb hi LL. (Ni cheir *Ie . . . . hynny* yn J.)
263 Mi a giglef J. 48b, mi a gigle LL. 288.
264 chwanockaf gwr LL.
278 y edrych a gaffei y lladron yw dangos LL.
283 eu hisgafel ganthunt J. 49a, ac wynt ae ysgauel gantunt LL.
286 gouyn kynghor a oruc ydy uab LL. (Gw. *Y Beirniad*, VI, 125–6.)
288 oth ordiwedir J.
291 manegy J., LL. 289.
295 er y hedryt drachefyn LL.
298 Pa dripheth ynt y rei hynny J. 49b, LL.
300 ar tir ar treui LL.
307 pan weles J., LL.
309 lentilius LL.
321 gwedy eu dyuot eu gyt J. 50a.
324 pann oed drymaf y gwr yn kysgu J.
328 glywet LL. 290.
332 a chau J. (felly'n gyffredin yn J.).
344 y lleas hwnnw LL. 291.
346 drychafel J. 50b, drychauael LL.
348 dros wyneb yr holl lys LL.
349 a neidyaw allan LL.
351 diuerawc LL.
358 soma J. 51a, somma LL. (felly'n gyffredin yn J. a LL.).
359 a chamgelus J., LL.
365 Ieu heb hi LL.

379 o achos y thegwch LL. 292.
383 nat diogel J. 51b, LL.
394 doethyon ruuein ath edy ditheu LL.
397 y bore avory J.
398 kymeint yr vn J., LL.
405 Os o annoc dy wreic yd ey oth bwyll a pheri lladd dy vab ef a sommir LL. 293.
413 Nid yw *Namyn* yn LL.
423 rac kymhennet a doethet LL.
426 diuerawc LL.
431 ffalsed y edewidyon ef LL. 294.
437 gwedy rodowch chwi nyni J. 52b.
441 Bleid creulawn oed gynt yn keissyaw kyfle a chyflwr ar y bugeil ae anifeileit yd y llad LL. (Gw. *Y Beirniad*, VI, 125–6.)
444 seibynt J. 53a.
468 Megys y tynn arogleu y deil ar y blodeu yr ymlynyat y ar ydrywed yny gollo y llwdyn ganthaw J. 53b, Megys y tynn arogleu y deil ar blodeu yr ymlynyat ywrth yr adrywet y ar y llwybyr yny gollo y llwdyn gantaw LL. 295.
475 y Assian LL.
480 fferyll gynt a ossodes kolofyn ynghenawl ruuein LL. 296.
483 nigromawns J. 54a, nigromans LL.
y gwelei wyr ruuein a senedwyr y dref LL.
487 darostyngynt J., ac yna yn gyflym yd eynt am benn yr honn a vynnynt ydy gostwng ac y darestyngit hi udunt ar vrys Ar kolofyn ar drych a oed yn peri hynny ac y bob teyrnas ofynhau LL.
500 Deu varileit LL.
502 Assian LL.
506 y deu varil J. 54b, LL. 297.
geyr llaw J.
512 or byd eur kudyedic yn dy deyrnas di LL.
514 gwedy bwyt tu awch lletty LL.
517 manegwch J., LL.
519 yr aethant yw lletty LL.
522 ar dewinyaeth LL.
537 Ac ny adawd chwant yr amherawdyr y eur ac aryant vot wrth gynghor yny diwreidwyt y golofyn ac yn dorres y drych. A phan daroed hynny nyt oed yno dim, a drwc yd aeth ar senedwyr ruuein hynny LL. 298.
545 eur a yfuy LL.

547 yth dyhudaw ar eureit barableu y warandaw eu kynghoreu am na dihenydyer dy vab hyny wnelont hwy dy angheu di ath adoet yn dybryt LL., ath adoet J. 55b.
551 ny byd byw dy eithyr hyt auory. A thrannoeth y bore yd erchis dihenydyaw y mab J., kyntaf dim LL.
554 y kyuodes kadw hen y vynyd LL.
556 nyt yn ol ymadrodyon fals kelwydawc a glywo dy glusteu y dylyy di varnu. namyn trwy anmyned J. 56a, nyt yn ol ymadrodyon feils a glywo dy glusteu y dylyy di barnu namyn trwy amyned a cheissyaw gwirioned y varnu kyfiawnder rwng hen a ieuank a chyn anghywiret uyd dy wreic y ti LL. 299.
562 syryf J., y bu wreic syrryf gynt o lesedonia kadw hen heb yr amherawdyr LL.
565 ony rody nawd ac oet yr mab hediw LL.
570 lesedonia LL.
571 ae wreic yn kytgan ac ef ac ynteu yn gwarae a hi LL.
575 dan benn y vronn J. 56b.
577 a gwedy gwneuthur y argyfreu yn y lys LL.
579 yw gladu LL.
582 diaspadei J., vwch oed bob llef idi noc oed a oed o gorn a chloch LL.
584 y erchis y mam idi dyuot adref y gyt a hi y gwynaw y gwr A hitheu a dynghawd yr gwr ywch penn nat ae hi odyno LL., a oed vch y phenn J.
592 a allwyf LL. 300.
594 geyr y bron J. 56c, tan abrysgyl goleu LL.
597 pedrytawc J., pryderawc LL.
605 a than uchel goleu yn yr eglwys. ac yn y arueu dwyn hwyl yr eglwys y edrych pwy a welei yndi LL.
610 yn eistedd ywch penn bed newyd gladu a than goleu diuwc geir y bronn LL.
621 eiryoet LL. 301.
622 rygaru o honaw J. 56d.
624 om achaws inneu J.
626 ti a drossut LL.
628 myn y gwr yssyd vch ym penn gwr vyth wedy ef J., myn y gwr yssyd uwch penn heb hi wr vyth gwedy ef. y marchawc a gyrchawd LL.
632 neur athoedit J., neur daroed dwyn vn LL.
635 gwyr bonhedigyon . . . . . yw cladu LL.
637 A thraegefyn J. 57a.

638 y gyffranc ar damchwein J.
657 drychaf J. 57b, LL. 302.
661 pa da yw hynny J., yr oed dyrnawt LL.
667 pa da etto o hynn yr oed LL.
670 drychafel J., a drychauel y maen ar y hysgwyd ae daraw yn y vyd ledyr y we|ussai LL. 303.
675 y rwng y deulin a gossot y deudroet wrth LL.
678 yn hynny no hi LL.
681 y gadei y memrynnyd LL.
684 a phei beut ti vn wreic or byt LL.
686 kans pan veut LL.
705 kyweilyd LL. 304.
715 vn o dinessyd ruuein J. 59a.
721 val y gellynt lad y brenhin o nerth a chadernyt eu da, LL., 305.
724 peir a seithdroet ydanaw a mwc yn kyuodi yn vn funyt a phetuei fyrfdan cadarn ydanaw yghyueir pob troet ar gwrychyon a deuynt or rei hynny yn kyuodi am y lygeit ac yn y dallu dybygei ef. Ac yna yd anuones ef y geissyaw dewinyon breudwydon y bob lle. Ar kennadeu a damhweinawd ar was ieuank a gathoed ar bawb ragor o ysbryt dewinyaeth y dehongyl breudwydon LL.
730 breudwydyon. a gweledigaetheu a delynt rac llaw yn oes oessoed y pob lle J. 59b. (Gw. ll. 733, lle ni cheir y rhan olaf yma yn J.)
744 y seithwyr yn y lywyaw J., ynt y seithwyr yssyd yn y llywyaw LL.
745 o ormod gyvoeth LL.
752 ar eireu tec LL. 306.
761 na gadu y ffalsed a chelwyd y drossi J. 60a, na gadu y droi drwy falsed a chelwyd a phoet ual . . . . poet velly y sommo LL.
766 dy gret ar na dihenydyer y mab hediw rodi y gret a wnaeth LL.
768 yr oed LL.
770 mywn twr uchel hard LL.
774 mynet y grwydraw LL. 307.
779 yr hwnn a welei y vot yndaw J. 60b.
787 drwy vawred J. 61a, trwy vawred LL.
788 a gouyn idaw a vynnei y brenhin varchawc ieuank diffals diwyt yn wr idaw. ac yr llys yd aeth a chanmoledic vu gan bawb y dyuodyat yno LL., diffals, dyuodyat J.

803, 806 adeilyat J., LL. 308.
807 wrth y twr LL.
808 idaw vynet J. 61b.
809 y ford yny ymgauas ef ar vrenhines y wneuthur y vynnu a hi, ac val yr oed diwarnawt yn bwyta ar vn vord ar brenhin LL.
814 ar vys LL.
815 edigus J., LL.
a wnai J., LL.
821 yth deu di J., LL.
824 a gyrchawd tu ar twr LL. 309.
826 oe dangos LL.
829 sef a wnaeth y brenin y angreiftyaw ehun yn y vedwl am gythrudyaw y marchawc ac am gam dybyaw y wreic LL.
837 ym hol LL
838 ym erbyn inheu LL.
844 y marchawc a odolygawd yr brenhin dyuot y vwytta oe ystauell ef y dyd hwnnw. Ar brenhin a deuth. kyntaf dyn a wyl J. 62b, ar brenhin a doeth. a chyntaf dyn a wyl LL.
847 a wnai . . . . . y dathoed yno LL.
851 a gerdeis om gwlat hyt ymma LL. 310, hyt yman J.
854 kyuednabot yr wyt J., yr wyt LL.
855 yr wyt LL.
858 a bwyta a medylyaw LL.
864 a sumudawd y gwisc, a gwisgwaw J. 63a, a symudawd y gwisc LL.
866 ae haghreifftawd ehun J., pan doeth ae angreifdawd ehun LL.
871 ygkwaethyach J., yngwaethach LL.
874 kannyat J., kennat LL.
875 yr ys hir o amser yn y wlat J. 63b, yr ys llawer dyd LL. 311.
876 kenhadawd LL.
878 yr lle yr oed ef J., yr lle LL.
879 Ac odylygawd yr brenhin peri yr offeiryat ehun J., ac a adolygawd idaw peri yr effeiryat teulu LL.
881 y priodi LL.
884 yr oed J., yd oed y twr yn wac oe gymmar a hitheu gwedy mynet gyda y marchawc LL.
887 os gedy idi LL.
890 y dywawt yr amherodres a dan vcheneidyaw a thristyt wrth yr amherawdyr val hynn. Ef a deruyd ytt val y daruu y ystiwart brenhin germania J., y dywat yr

amherodres wrth yr amherawdyr dan ucheneidyaw a thristwch Ef a deruyd yt ual y daruu gynt y ystiwart brenhin y pwyl ɪʟ.

896 ef a ledir. Llyma y chwedyl heb hi J. 64a, yn wir heb ef y lledir llymma y chwedyl heb hi. Brenhin y tir hwnnw gynt a dyuyassei heint yndaw a gwedy y uedeginaethu yn iach ɪʟ.

900, 902 yr erchis J.

905 a gwedy bot achos idi or brenhin y nos honno yr ystiwart a doeth drannoeth y erchi y wreic dyuot odyno adref ɪʟ. 312.

914 ytheholir J. 64b.

915 y gan J., ɪʟ.

920 crogi y mab J., ɪʟ.

921 mathin J., martinus ɪʟ.

925 y wr bonhedic ɪʟ.

928 gwrda hen J.

932 hyt y nos yn y gwely ɪʟ. 313.

934 Ieu heb y mam ɪʟ.

937 nor vn J. 65a.

946 manegi y damwein oll a dywedut y bot yn karu gwr ieuank ɪʟ.

950 bethiades ɪʟ.

952 y swrcot hi ɪʟ.

954 y angreiftyaw ɪʟ.

957 y gwnadoed hi hynny ac na wnai byth y gyfryw ɪʟ., na wnai J. 65b.

963 Ac na wnai vocsach kanys kyurinachwr da oed J., ac na wnai vocsach oe charyat. Ieu heb y mam ɪʟ. 314.

970 a phennaduryet J.

971 or anrec gyntaf J.

972 hitheu a rwymyawd allwyd y phrenuol wrth y lliein a oed ar y bwrd tal ɪʟ.

974 a rydec J. 66a, ɪʟ.

976 o vwyt a llyn a phetheu ereill J.

979 oe arglwyd J., kylleill a vei well yw harglwyd ɪʟ.

980 y rodet llieneu ɪʟ. 315.

982 y boreu ɪʟ.

985 a wnaethoeth J., a rywnathoed ɪʟ.
a dywedut. mae o amylder drycwaet a oed yndi y gwnathoed hi hynny ac nat oe hanuod ac ef a beris idi dwymyaw y deuureich wrth y tan ac a beris ellwng gwaet arnadunt

yn ytoed hi yn llewygu ac odyna rwymyaw y deuureich LL., y gwnathoed, hyny yttoed J.

994 nat trymmach dial no dial henwr LL.

999 ymogv yssyd reit y titheu J. 66b, na chredaf dioer vyth heb hi Mogel ditheu arglwyd amerawdyr heb y martinus rac kwydyaw mywn kared LL.

1004 nys credaf inheu byth heb yr amherawdyr. A phan vanegis yr amherawdyr hynny yr amherodres y dywedei y mab drannoeth kythruthyaw yn vawr a oruc. ac ny bu genthi ac nas gwybu dim dychymyc mwy o hynny allan. A thrannoeth pan gyuodes yr heul yr amherawdyr ae wyrda ar doethon a aethant yr eglwys. A gwedy gwarandaw efferen yd aethant y eisted odieithyr y vynwent y benn karrec yn lle amlwc LL. 316, aethont, A gwedy gwarandaw offeren yn dwywawl yr aethant, J. 67a.

1018 herwyd na hadyassei ef y var nae anuod. Ar gwr vchaf heb yr ef J., y gerennyd herwyd na haedassei ef y var nae anuod LL.

1019 y gwr a wyr pob peth a dangosses ymi ac ym athrawon LL., ym athrawon J.

1023 o dywetwn LL.
yn yr vn or seith niwarnawt J., seith diwarnawt LL.

1029 ath thiuetha J., ath diua LL. 317.

1035 vch eu penneu. A disgynnu ar gwrr J. 67b, a dyuot a wnaeth deu vran a greu ywch eu pen a disgyn ar gwrr yr ysgraf a ryued vu gan y marchawc hynny LL.

1039 kaffel daly blaeneu y lewys tra ymolchei. ae vam yn daly twel idaw J., ae vam y daly twwel idaw LL.

1041 ysglyfyeit J., ysgylfeit LL.

1044 ymlusc ar y draet ae dwylaw a oruc y mab yny ymgauas a charrec rwng allt a mor ac yno y kauas pysgotwyr y mab ac y gwerthassant ef LL.

1046 tri dieu J.

1054 o achos bot teir bran yn greu uwch y benn LL. 317a.

1057 great J. 68a, LL.

1060 o gannat LL.

1061 o chadarnhai y edewit y gwnai ef gymeint ac yr oed J., or kadarnhaei ef y edewit y gwnai ef kymeint LL.

1065 Er ys dec mlyned a mwy y bu newyn heb ef ar yr adar ar hynaf or brein racco ae edewis y wreic mywn perigyl angheu o newyn LL.

1069 ar bran racko a oed ieu no hwnn. a drigawd y gyt a hi J. 68b, ar bran ieuaf a drigyawd y gyt a hi LL.

1073 yn holi y gymmar yr llall LL.

1075 ac bellach oe kytsynedigaeth LL.

1077 duundab J., o gytundeb LL.

1080 gadewis LL 317b.

1083 a hedawd J., LL.

1085 barnwyt yn wr doeth J., LL.

1088 val yd oed LL.

1090 y lletty yn ty vwrdeis J. 69a, ef a wele y dat ae vam yn llettya yn ty burgeis or dref gwedy adaw y gwlat LL.

1092 Ef a anuones ysgwier y dy y bwrdeis y dywedut idaw y bydei y brenhin ieuank yn kenewi y gyt ac ef drannoeth. Ar bwrdeis yn llawen heb yr ef. graessyo a geiff. a goreu a aller idaw J., Ac am bryt gosber ef a anuones ysgwier idaw y dy y bwrgeis y dywedut idaw y bydei y brenhin ieuank yn kinawa y gyt ac ef drannoeth. A thrannoeth pan doeth y brenhin y marchawc a gymerth kawc ac alauwr y gynnic dwfyr ymolchi yr brenhin LL.

1105 wedy yr dyuot J., gwedy dyuot LL.

1112 oe dat J. 69b, yw dat LL. 318.
velly arglwyd dat y keffy ditheu vinheu yn vuyd yt yn y meint y mae vyn|gallu yn y byt hwnn LL.

1115, 1120 ohonof LL.

1116 ohonot LL.

1118 nat oed deilwng LL.

1120 a amgreffinawd ehun J., a ymestronawd ehun LL.

1128 a hitheu J. 70a. (Nis ceir yn LL.)

1131 duw arglwyd kyfyawn trugarawc ac amdiffyn y gwirion rac drwc. ae dwc y vlaenwed goruchel ac y diwed enrededus gogonedus J., y llosget korff yr amherodres ac o varn y goruchaf duw yr hwnn a gymerth yr eneit yr boen a haedawd yn diannot. Ac velly y teruynawd LL. Ac velly y teruyna chwedyl seith doethyon rufein o weith llewelyn J.

# NODIADAU

Llinell.

1 *Diawchleison:* Yr oedd Diocletianus yn ymherawdr Rhufain o 284 i 305 O.C. Gweler y Rhagymadrodd, td. 18.

2 *gadu:* disgwyliid *adaw*, a cheir y ffurf ddiweddarach *gadaw* yn LL. 2. Ystyr *gadu* yn wreiddiol oedd "caniatau." Gw. W.G. 381–2. Digwydd *gadaw* 152, *ac adaw* 353, 594, *heb adaw* 140, *y gedeu* 394, 681, *gedewis* 1080, *a edewis* 80, 1067, *nyt edewis* 680.

5 *Bantillas: ll=l.*
*Awgustus:* yn y ffurfiau Cymraeg yn unig y ceir yr enw hwn.

6 *Catomas uarchawc da:* hefyd *Kato* 22, *Kato Hen* 554. Dionysius Cato a roes yr enw i'r stori. Hwnnw oedd awdur y *Disticha Catonis* y cyhoeddwyd cyfieithiad Cymraeg ohonynt (*Cynghorau Catwn*) yn B.B.C.S. II. 16–36.

7 *Martinus:* hefyd *Martin* 1000. Yn y ffurfiau Cymraeg yn unig y ceir yr enw hwn.

25 *y rodir: y*=(1) y rhagenw perthynol *y* + (2) y rhagenw personol *y*, sef gwrthrych y ferf. Gweler y rhagymadrodd, td. 37. Sylwer ar yr arddodiad a ddefnyddir, *rhoddi at.*

27 *yn oreu y gallwyf:* dilynir yr adferf *yn oreu* gan frawddeg berthynol a arweinir gan y rhagenw perthynol *y* yn y cyflwr traws adferfol. Cymharer isod *yn y mod goreu y gellynt.*

32 *adeilat:* yr hen ffurf lawn ar y berfenw; *adeil-* oedd y bôn —— *adeilyaf* C.G. 66, *adeilassant* G.C. 108. A'r terfyniad *-at*, cf. *gwylat;* ceir hefyd *adeilyaw* (e.e. ZfCP. XIII, 78) *adeilio.* Yn ddiweddarach gwnaethpwyd berfenw newydd *adeiladu*, bôn *adeilad-*. Gw. W.G. 390.

43 *ty wrach:* y treigliad meddal ar ol *ty*, megis yn *Tŷ Ddewi, tŷ Dduw, ty uab eillt* W.M. 106, *i dŷ Ronwy, Dŷ Wilym* I.G.E. 21, ll. 78, 82, *tŷ Wenlliant* F.N. 68, ll. 68, *I Dŷ Feuno* G. 217; cf. *ty wwrgeis* 1090. Yr esboniad tebycaf yw bod *tŷ* a'r enw a'i dilyn yn ffurfio enw cyfansawdd, ac felly y treiglir cytsain gyntaf yr ail elfen yn rheolaidd. (Ond ymddengys fel petai *ty* yn fenywaidd yn y dyfyniad canlynol: ac a dianghyssant or ty hayarn yn iwerdon

pan wnaethpwyt yn *wenn* yn eu kylch W.M. 45. Yn R.M. 31 ceir *yn wynnyas*.)

45 *mae blant:* disgwylid *mae plant*, " ymhle y mae plant ? " Sylwer bod *plant* yn unigol.

60 *wynt a welynt* · Ceir ychwaneg am y weledigaeth, 1020–4, lle y sonnir am *yr arwyd ar y lleuat a'r seren oleu eglur yn y hymyl*. Yn ôl trosiadau eraill, gwelodd y doethion gyntaf y lleddid y mab a hwythau pe llefarai un gair. Yna galwyd sylw'r mab at y peth. Edrychodd yntau ar y ffurfafen, a gwelodd seren yn ymyl y lleuad. Dehonglodd hynny iddynt, sef bod y lleuad yn arwyddo y lleddid ef ar y gair cyntaf, ond bod y seren fechan yn dangos pe tawai saith niwrnod y cedwid ef yn fyw. Yna y gwnaeth y cais at y doethion a nodir yn y testun. Hyn a esbonia fudaniaeth y mab ger bron ei dad.

76 *pan y gwelas:* *y*=y rhagenw personol mewnol, a sgrifennir yn awr '*i* ar ol llafariad.

103 *bwrgeis:* ceir hefyd y ffurf *bwrdeis*. Gw. Parry-Williams, E.E.W. 155 (" ME *burgeis, borgeis* < OF *burgeis* "), 237 (lle yr awgryma fod *g* yn sefyll yn lle *ds*). Cf. 1090.
*bioed:* " bioedd," ffurf amser amherffaith *piau*. Sylwer na cheir y rhagenw perthynol *a* o'i flaen, am fod *bi-*(<*pi-*) eisoes yn rhagenw perthynol. Nid yw'r treigliad meddal ychwaith yn anhepgor. Gweler E.W.G. 140–2.

144 *gwaewyr:* ffurf luosog *gwaew*. Y ffurf hynaf oedd *gwaewawr*, yna *gwaewar* >*gwaewyr* >*gweywyr* (cf. J. 3, Amrywiadau) >*gwewyr*. Gw. W.G. 209 (lle y gellir dileu'r seren o flaen *gweywyr*).
*kyflad:* " cyd-daro." Ystyr wreiddiol *lladd* oedd " taro," yna " torri," ac wedyn yr ystyr gyffredin heddiw. Yr ystyr gyntaf sydd yma ; cf. *llad* glwm ar garryeu y got, W.M. 22, a *llad* tan a oruc owein A ffan uu barawt y tan, ibid. 255. Yr un gwreiddyn a geir yn Gw. *slaidim*, S. *slay*.

174 *pan yw:* cyfystyr â " mai " (=*mae, ymae*). Cf. 943, 956, 985. Digwydd hefyd *pan oedd*. Gweler W.G. 448–9.

180 *dihennydyir:* yn y llsgr. y mae *dihen* ar ddiwedd y naill linell a *nydyir* ar ddechrau'r nesaf. Hynny'n ddiau sy'n cyfrif am y ddwy *n* yn y lle hwn : un *n* a ddigwydd yn gyffredin.

184 *ny mynnei:* cedwid *m* yn fynych heb ei threiglo ar ôl *ny* (=*ni*).

211 *Ipokras:* daw'r enw o Hippocrates, y meddyg Groeg enwog, a fu fyw o tua 460 i tua 357 C.C.

229 *Nawern:* amrywiad ar Navarre.

240 *a glywaf arogleu:* enw unigol yw *arogleu*—ar + go + cleu, a *cleu* o'r un gwreiddyn â *clyw-ed, ci-gleu, hy-glyw, hy-gleu.* Dangosir y berthynas yn yr enghraifft a roes yr Athro Ifor Williams yn *Y Beirniad,* VIII, 259, o P. 7, *drwy arogleu tec yr ac eu haroglywyei.* Mae defnyddio *clywed* felly gyda *aroglau* yn hollol naturiol. Gweler hefyd nodiad yr Athro J. Lloyd-Jones, B.B.C.S. II. 110–1. Cf. 468.

241 *a'e mynny:* " a'u mynni? " y rhagenw mewnol *'e* (='*u*) ar ôl y rhagair gofynnol *a,* a'r rhagenw ategol *wyntwy* yn dilyn. Cf. 592.

253 *deryw:* 3ydd m. pres. *darfod.* Bellach fe ddywedid *darfu.*

257 *a ladawd y uab y benn: a,* y rhagenw perthynol yn y cyflwr perthnasol. Yma, ystyr *ladawd* yw " torrodd " ; gweler nodiad ar *kyflad* 144.

263 *a gigleu:* hen ffurf amser perffaith *clywed.* Cyfetyb i *clywais, clywodd.* Gweler W.G. 371, E.W.G. 150.

269 *callonnawc: ll*=dwy *l.* Ceir *callon* (=*cal-lon*) yn gyffredin, a dyna'r llythreniad cywiraf, fel y dengys yr *a* fer gaeëdig.

274 *neur daroed:* =neu ry ddaroedd. Manyn cadarnhaol yw *neu,* cf. W.G. 426 ; manyn yw *ry* a ddefnyddir o flaen berf neu ferfenw i roi ystyr berffaith i'r weithred, cf. 521, 1105, 1126 ; hen ffurf amherffaith *darfod* yw *daroed.* Yr ystyr yn syml yw " fe ddarfu."

295 *eturyt:* " edfryd," berfenw y ferf *adfer-af ;* cf. *cymryd cymeraf, diffryd, differaf.*

304 *swllt:* " trysor." Cf. agory y *sswllt* a gwnaeth P. 44 (49) =agori y dreswr R.B.B. 86.11=apertis thesauris, blinaw o dreulaw eu da ac eu *swllt* R.B.B. 121.7. Daw o'r Llad. *solidus.*

323 *eluyd:* " oed, pwyntmant." Y gair *eiloyd* sy gan Elis Grufydd yma (gw. B.B.C.S. II. 210.5). Ceir hefyd *eilwydd,* D.D.G. 30.14. Yn L. 117 (312) ceir *gosod man i gyvarvod ag ef,* L.O.19 (90b), *gosod oed dydd.* Gall bod *e*=*ei,* cf. *ediged*=*eiddigedd* 330.

328 *clybot:* " clywed." Gw. y nodiad ar 240.

343 *y bysgotlyn:* ceir *llyn* o hyd yn fenywaidd yn y De.

347 *yny glywit: yny* (<*hyd ny*)="oni," "hyd oni." Fe'i dilynir yn awr gan dreigliad llaes *p t c* a threigliad meddal y cytseiniaid treigladwy eraill. Eithr gynt cymerai dreigliad meddal *p t c* hefyd, megis yma; cf. *yny gollo* 469, *yny gollych* 472, *yny gaffont* 752. Fe'i ceir hyd yn gymharol ddiweddar, e.g., efe ai mageu oni gynyddeu gyd ag ef, *Hyfforddwr Cyfarwydd i'r Nefoedd* (1693), td. 32.

351 *diueryawc:* Gweler nodiad yr Athro Ifor Williams ar y gair, B.B.C.S. I. 18–21, lle y cysylltir ef â'r Gw. *dibergach.* Dyry'r Athro Williams saith enghraifft, a'r ystyr yn un ohonynt yw *ffyrnig.* "Yn y lleill, 'plundering' efallai." Ceir y gair ymhellach ymlaen, 426. Ymddengys i mi mai "ystrywgar" yw'r ystyr a wedda orau yma ac yno.

353 *adaw:* Dyma'r ffurf wreiddiol. Yna cymysgwyd *adaw* a *gadu*, a chafwyd *gadaw, gado.* Gweler nodiad ar 2.

376 *erber:* "gardd." Ceir hefyd *herber* < s.c. *herber(e)*, cf. E.E.W. 117.

383 *na tiogel:* =nad diogel, *d*+*d*=t, cf. rheolau cynghanedd.

394 *gedeu:* 3ydd un. pres. myn. o (*g*)*adaw.* Cf. *taw-af, teu tau.* Heddiw dywedid *gedy.*

395 *y geing gan dy uab:* "y gangen o fab sy gennyt," "that twig of a son of yours." Defnyddir *gan* o hyd mewn idiom debig yn dafodieithol.

398 *kymeint un:* "pob un." Cf. Pabau ydoedd y rhain cymain vn, a phob vn yn cadw eisteddle Pedr Abostol D.FF. (85), chwithau hefyd cymmain un, Eph. v. 33, ac y gyt a hynny y gwrageda kymeint vn ny canlynt wynteu parth ar afferen H.1 (84a), ar brodyr kymein hun LL. A. 116.22 (=*Buched Dewi,* 22.17). Hefyd

> A rydywedeis i hyt hynn
> y wendyd waessaf unbyn.
> diderbyd kymeint timmyn. R.P. 582, 40–2.

*kymeint timmyn*="cymaint dimyn," "pob dim,"—"Daw pob dim i ben."

413 *namyn:* Ar yr ymyl mewn llaw ddiweddarach ceir "= Quædam," ac yn y copi yn LL. 92 (21), ceir "*Quaedam* E Ll$^{d}$ (an rectius *nebun?*)." Ystyr arferol *namyn* yw "ond," ac nid yw hynny'n hwylus iawn yma. Golyga *nebun* "rhyw."

414 *dinas kyfoethawc kadarn:* gwrywaidd oedd *dinas* gynt. Cf. 743, *y dinas hwnn,* ac isod, 422, *yn y gylch, wrthaw,* yn cyfeirio at y gair dinas.

421 *eisted yn y gylch:* " eistedd yn ei gylch," " gwarchae "; cf. yd aeth hyd at vran y vrawt a oed yn *eisted wrth* rufein R.B.B. 76.20 (" Brennium petivit: qui . . . . Romam *obsidebat* "); hefyd, *Breuddwyd Maxen*, 10.11.

426 *diueryawc:* cf. 351. Yn LL. 92 ceir dalen yn llaw Moses Williams, ac arni nodyn ar y gair hwn: " 538 & prius. v. Bid anniweir difer ——."

459 *llas:* hen ffurf amhersonol amser gorffennol *lladd*, " lladdwyd."

468 *arogleu:* rhif unigol, gweler uchod ar 240. Cf. ac nyt oes udunt ymborth namyn arogleu aualeu. . . . . A phan gyfarffo drycarogleu ac wynt y bydant veirw R.B. 981= ac nyt oes ymborth udunt namyn gwyn ryw aualeu, ib. 505 (" qui solo *odore* cujusdam pomi vivunt . . . . moriuntur enim si pravum odorem trahunt); wrth arogleu y rei yd ehedant adar amryfaelyon lwyneu R.B.B. 150.10–11, (ad quorum odorem diversorum nemorum convolabunt volucres). Yna tybiwyd mai terfyniad lluosog oedd *-au*, a gwnaethpwyd ffurf unigol newyd *arogl*, berfenw *arogli* yn lle'r hen ffurf *arogleuaw arogleuo.*

469 *ymlynyat: ymlyn* " dilyn, erlid " + *yat, iad* (a olyga'r gweithredydd, megis *meichiad, datgeiniad*); " dilynydd, canlynydd." Yma golyga'r ci hela.

*ydrywed:* yn y llsgr., gair cyntaf y golofn. Yn J. 3, gair cyntaf llinell newydd, ac *y ar* yn cloi'r llinell flaenorol. Nid hwyrach, felly, y gellid darllen *y ar yr ydrywed;* cf. LL. 2 *ywrth yr adrywet.* Ceir *adrywed brain* M.A.² 147a 15; a hefyd *edrywedd eurdorf* M.A.² 294b 26. Dyry Elis Grufydd *vel i tyn sawyr y llysie blodevoc yn amser haf yr ynlyniaid oddiar yr ydrywedd*, B.B.C.S. II. 212. Ymddengys mai talfyriad o'r ffurfiau hyn yw *trywedd, trywydd*, y ffurfiau cyffredin presennol. LL.O. 17 (92b) *yr adrywydd.*

*yny gollo:* sylwer mai berf gyflawn yw *collo* yma, bron yn gyfystyr â *coller;* cf. mae'r stên yn colli. Hefyd, gw. nodiad ar 347.

480 *Fferyll:* Cymreigiad o'r Llad. *Vergilius.* Ohono y daw *fferyllydd, fferylliaeth.*

483 *igyrmars: nigromawns* J. 3, *nigromans* LL.2, *nigyrmanse* B.B.C.S. II. 212, *migymars* LL. 117 (317), *igmars* LL.O. 17 (93a). Ceir hefyd *nigmars nicmars.* Yn R.B. 982 cyfieitha *nigromans* (R.B. 507 *kyuarwydon*) y Lladin *ars magica;* R.B.B. 64. 19, y Lladin *necromantiam.* Cf. E.E.W. 62, " ME (late) *nigromance, -maunce* (from OF

*nigro-, nigramance*). Yn ôl Weekley, *Etymological Dictionary of Modern English*, dan *necrology* a gysylltir â'r Llad. *necare* "lladd," "*necromancy*, orig. divination by raising the dead, corrupted into MedL. *nigromantia*, F. & E. *nigromancie*, and translated as *black art*." Yn LL. 92 (20), ceir ar ymyl y ddalen "(i. Negromawns q.)." Yn arg. Gaston Paris o *Les Sept Sages de Rome*, td. 40, ceir *par art d'ingromance*.

Yr oedd *Fferyll*—hefyd, *Fferyllt*—yn enwocach fel dewin nag fel bardd yn yr Oesoedd Canol. Tybid ei fod yn feistr ar y "gelfyddyd ddu." Oblegid ei gysylltu â dewiniaeth, a bod y gwyddorau wedi tyfu allan o rywbeth pur debig i ddewiniaeth, cafwyd y gair *ffferylliaeth* am *chemistry*. Enw Lladin y Canol Oesoedd ar y wyddor honno oedd *alchimia*, Saesneg *alkamye*, etc., diweddarach *alchemy*. Yr oedd *alkamye* hefyd yn fath o fetel cymysg tebig i aur. Hwn yw'r gair a roes yn Gymraeg *alcam*, yna *alcan*.

491 *y Pwyl:* nid Poland, fel yr esbonnir yn aml. Yn R.B. 987, yn y cyfieithiad o'r *Imago Mundi*, ceir: yn yr eidal y mae gwlat twrcan, yno y mae campania, ac yno y mae y pwyl. Yn y copi arall, R.B. 511, ac yno y mae campania ac ampulia; felly Llyfr Gwyn Rhydderch (P.5.3). Yn Lladin ceir: *Ibi est Apulia*. Mae'n amlwg felly mai cymreigiad o *Apulia* yw *y Pwyl*. Talaith yn Neheu-ddwyrain yr Eidal oedd Apulia. Cf. 893.

502 *Gracian:* hefyd *Grassian*, o Gratianus. Teyrnasai gŵr o'r enw o 367 i 383. (Yr oedd Fferyll yn ei flodau tua 19 C.C.). Mewn trosiad arall yr enw yw Octavius Caesar.

521 *rygael:* y manyn *ry* (gweler ar 274) + *cael*. Cyfetyb i'r modd amhenodol perffaith yn Lladin—*et dixit se invenisse*. Cf. 528, 1105, 1126.

538 *uot wrth:* "ymostwng i." Gweler nodiad yr Athro Parry Williams, B.B.C.S. I. 106.

543 *a chymell:* "a gorfod"; daw o'r Llad. *compello*.

545 *a uynny:* mae darlleniad LL. 2 yn fwy twt—*eur a yfuy* "aur a yfi."

547 *dihiryaw:* ceir *dyhudaw* yn LL. 2, *dy hudaw* C. 5 (B.B.C.S. II. 214), *dihvddo* C. 6 (53), *dyhuddo* LL. 117 (320), *diddany* LL.O. 17 (94a), a *dyhuddo* yn *Y Brython* III. 87b. Cytuna J. 3 â'r testun yna. Ymddengys mai "twyllo" yw ystyr *dihirio*, hynny yw "trin yn ddihir neu frwnt."

Credaf fod rhoi (*ti*) o flaen *gredu* yn gwella'r synnwyr, " ni ad dy chwant . . . . i ti gredu."

558 *dylyy:* diau mai gwall ysgrif oedd *dyly*. Yr ail berson unigol sy'n eisiau yma, a *dylyy* yw'r ffurf honno, fel y ceir yn J. 3 a LL. 2. 3ydd pers. un. yw *dyly*. Cf. W.G. 379, E.W.G. 153–4.

582 *diaspedei:* Cf. W.G. 389, " *ubain, diasbedain* with no verbs," (E.W.G. 160). Ond yn J. 3 (gweler yr Amrywiadau), ceir y ffurf *diaspadei*, ac y mae honno'n gwbl gywir. Canys *diaspad-* yw ffurf iawn y bôn, a newidir yr *a* olaf i *e* dan effaith yr *ei* yn nherfyniad y berfenw, *diaspedein* (yn awr, *diaspedain*), cf. *llamaf llemein, garm germain,* hefyd *llafar llefair*. Ceir wrth gwrs yr enw haniaethol *diasbad* yn gyffredin hyd heddiw; cf. 82. Anghywir yw'r *e* yn y bôn yma—dylanwad *diaspedein* ydyw, fel pe dywedid *llemai* yn lle *llamai*. Ni cheir y gair yn LL. 2—*vwch oed bob llef idi noc oed a oed o gorn a chloch.*

*a oed o gorn a chloch:* idiom gyffredin yn y Gymraeg Ganol i ddynodi cwbl o'r pethau neu bersonau a enwir, megis *corn a chloch* yma. Gan amlaf y mae'r enwau yn y rhif unigol. Gweler nodiad yr Athro Parry-Williams, B.B.C.S. I. 104–6.

585 *atref:* heddiw, *adref*. Cf. 231, 940, 945. Rhyfedd y cam a wneir â'r gair hwn. *Ni ellir ei ddefnyddio ond pan aller rhoi* tua thre *yn ei le*. Hefyd, *ni ellir rhoi* gartref *pan aller dywedyd* tua thre. *Defnyddier* gartref *pan aller dywedyd* yn tŷ. Fe welir felly wrthuni ymadroddion fel " digwyddodd rhywbeth adref," neu " aeth gartref." Fe ddywedir ar lafar gwlad *mynd gatre, mynd gadre*. Ond nid llygriad o *gartre* yw hynny, namyn byrhau *tuag adre*. Sylwer ar y gwahaniaeth ystyr rhwng " maent yn symud adre " (" They are moving homewards ") a " maent yn symud gartre " (" They are moving at home ").

592 *ae gallwyf:* " a'i gallwyf "; cf. y nodyn ar 241.

594 *abrwsgyl:* LL. 2 *abrysgyl*. Y ffurf lawn yw *abrwysgl*.

596 *wrth na chyfeirch newyn y borthi:* ystyr *cyfarch* yw " gofyn " —" gan na bydd newyn yn gofyn am ei borthi, neu ei fwydo." Bydd y newynog yn barod i fwyd. Cymharer yr hen ddihareb, *Ni chyfeirch angen ei borthi*, D.D. a geir ym Marwnad Einion ab Gwalchmai i Nest, *Ny chyveirch aghenn . . . . y ryborthi* M.A.² 230b 16. Cyfeiria'r Dr. John Davies at ddihareb arall, *Ni ddiylch angen ei borthi.*

597 *pedrydawc:* J. 3 *pedrytawc*. Cf. *Pedridauc heul*, B.B. 73.16, *pedrydawc* M.A.² 201a 35. (Yn yr olaf, saif *d* am *d*, *t* am *dd*. Cynganedda *pedrydawc* a *pedrydant*.) Felly *pedrydog* sy gywir, nid *pedryddog* fel y rhy'r geiriaduron.

638 *y gyfranc a'e damwein: cyfranc* yma=" stori "; am wahanol ystyron y gair gweler *Cyfranc Lludd a Llevelys* (Ifor Williams), td. 9. Ystyr *damwein* yma yw " digwyddiad "; cf. ibid., nodyn ar *damwein*, 4.12. Am yr ystyr, cf. A phan gigleu vrenhin ywerdon ae varwneit bot mor hyrwyd *damwein* gruffud G.C. 116, os tyghetuen a *damweina* hynny H. I. 13b (" si illum fortuna obtulerit "). Cf. 947. Gwrywaidd oedd *damwein*, cf. 979.

648 *oed:* heddiw, dywedid *byddai*. Defnyddir yr amser amherffaith mynegol yn Gymraeg i ddynodi beth a allai ddigwydd rywbryd rywdro dan ryw amodau tybiedig, hyd yn oed pan na noder yr amodau hynny. Yn yr ystyr hon, y ffurfiau *oeddwn*, etc., a arferir yn y Gymraeg Ganol. Felly yma, " haws fyddai gennyf (pe cawn)." Cf. da *oed* genhyf i ymtiryoni ar mab W.M. 55.18, " da fyddai gennyf . . . . (pe delai ataf)," da *oed* gennyf beth or avaleu rackw pei gellit yw (=" eu ") caffel R.C. 33. 187. 23. Gweler E.W.G. 108, W.G. 315–6.

671 *lledyr y weuusseu:* " gums." Enw arall arnynt yw *gorcharfanau*, cf. B.B.C.S. I. 12–14.

678 *gynt:* ansoddair yma ar ôl *vn* (*benywaidd*), " cyflymach, buanach."

*hunyo:* yn llaw Moses Williams yn L. 92, ceir " hunyo 544. Dav. habet hifio .i. ginio." Y ffurf yn C.5 yw *huvro* (B.B.C.S. ii. 216), ond ni ellir pwyso llawer ar y llsgr. honno. Ystyr *ginio* yw plicio gwlân neu wallt.

689 *agkywir a beth:* yn awr ceid *o, anghywir o beth*.

699 *derw:* amrywiad ar *deryw*, cf. 253.

703 *a thrabludyaw:* " a sibrwd," " a murmur." Am yr ystyr, cymharer: Ac yna y hattebaud y morwyn hy *dan trablud* R.C. 33. 210 (o P. 5, fol. XIV.b), cf. H.M. ii. 214, yn Lladin, Tunc illa *in murmure* sic respondit (o *Evangiles Apocryphes*, Charles Michel, Paris, A. Picard, 1924, cyf. I. 64.) Hefyd ym *Mawl i'r Eos* Dafydd ap Gwilym (arg. 1789, LXXXIV. 10); yn D.D.G., td. lxxxii, darllenir

Main y cân, brif organ brudd,
Mên a threbl mewn ei thrabludd.

Yn arg. 1789, ac yng ngeiriadur Davies (dan Trebl) ceir *mwyn ei thrabludd*, " mwyn ei sibrwd." Golyga *trabludd* " gythrwfl, brwydr " hefyd; cf. kad trablut B.B. 98. 7, B.T. 39. 19. Fe'i defnyddir felly am gân aderyn ac am frwydr. Cymharer arfer cyffelyb o'r gair *trydar*, a olyga lais adar, a hefyd frwydr, megis: godrut y var gurt in trydar B.B. 73. 5 (godrudd ei fâr, gwrdd yn nhrydar, " rhuthrwyllt yn ei lid, cadarn ym mrwydr "). Mae'r gair *gryd*, Gw. *grith* " gwaedd," yn digwydd yn yr ystyron " llef, gwaedd " a " brwydr " hefyd.

719 *gyfoethogach:* ni feddelid *b d g* ar ddiwedd ansoddair pan ffurfid y radd gymharol.

728 *gwrychyon:* hen ffurf ar y gair *gwreichion*. Gweler *Y Beirniad*, VIII. 257–9.

740, 748 *bydy wrth, bu . . . . wrth:* cf. 538.

753 *yny gaffont:* cf. 347.

810 *ac yny ymgauas:* ceir *ac* yn y testun hwn ac yn J. 3, nid yw yn L. 2. Nid rhaid i *yny* olygu " hyd nes " neu " hyd oni " yma, fel y gwna'n arferol, ac nid rhaid mai brawddeg ddibynnol a'i dilyn. Fe'i defnyddir wrth adrodd hanes fel dolen gydiol rhwng y gwahanol ddigwyddiadau. Gweler nodyn yr Athro Parry-Williams ar y defnydd hwn o *yny* yn B.B.C.S. I. 103, lle y cymherir cyffelyb ddefnydd o'r cysylltiad *co n-* yn yr Wyddeleg. A chymryd darlleniad L.2 " hyd nes " yw ystyr *yny*.

821 *y'th ueu di:* " i'th feu di "; *meu*=" yr eiddof," yn ddiweddarach *mau*. Yn J. 3 a L. 2 ceir *yth deu di, teu*=" yr eiddot." Yr olaf felly yw'r cywiraf o'r ddau; " gan na bu hon erioed yn eiddot ti," " i'th feddiant di." Arferid *meu* yn gyffredin fel hyn am y personau eraill. Cymharer *eiddo*, sef ffurf y 3ydd pers. un., a ddaeth bellach yn enw yn golygu " meddiant." Gweler W.G. 284.

827 *pan y gofynnei: y='i,* cf. ar 76.

830 *agreiffio:* " ceryddu." Gweler B.B.C.S. II. 44–46. (Nid mynych yn y Gymraeg Ganol y ceir *-o* am *-aw*. Yn L. 2, *angreiftyaw* yw'r ffurf). Cf. 866.

832 *ar y vryt ef:* " yn ei feddwl."

851 *amdyfrwys:* gw. *Breuddwyd Maxen*, 17. Awgryma'r Athro Ifor Williams " cadarn, caled " bellach. Ymddengys " ffordd galed " yn well ystyr na " ffordd ffrwythlon."

*ymdeeis:* ail bers. un. gorffennol, berfenw *ymdeith* (=*ymddeith*). Ceir hefyd y ffurf *ymda*, 3ydd pers. un.

pres. —— or *ymda* gureic ehunan W.M.L. 97. 12; cf. *gorymda*—eryr eli *gorymda* coet R.P. 1045. 43, berfenw *gorymdeith*. Ffurf person cyntaf yr amser gorffennol oedd *ymddeith* (*imteith* B.B. 22. 10). Ymddengys mai ffurf gyfansawdd yw o *af*: *ym-dd-a*, *gor-ym-dd-a*. Felly ceir yn y 3ydd pers. un. gorff. *ym-dd-aeth*. Yn y person cyntaf try *ae* yn *ei* drwy effeithiad; felly, ceir *ym-dd-eith*. Ag *-eith aeth* gellir cymharu'r ffurfiau Cernyweg Canol *yth eth*, lle y saif *e* am ffurf hŷn *ai* (=*ae*), ac *y* am y ddipton honno dan effeithiad. Ceir yr un fath o gyfnewid yn y ffurfiau Cymraeg *keint cant*. Yn ddiweddarach gwnaeth-bwyd ffurfiau gorffennol eraill yn lle'r rhain â bôn yr amser presennol—*cenais canodd*. Yr un modd y gellir esbonio *ymdeeis* yma. Y stem bresennol yw *ymdda-*; troid yr *a* yn *e* wrth ychwanegu *-eis*, fel yn *ken-eis* (*cenais*); felly y cafwyd *ymdeeis*, a roesai *ymddeais* pe cadwasai'n fyw.

866 *agreithawd:* J. 3 *ae haghreifftawd*, L. 2 *ae angreifdawd*. Cf. 830, hefyd 954.

893 *y Pwyl:* gweler y nodyn ar 491. Yn J. 3, *brenhin germania*. Yn *The Seven Sages of Rome*, Campbell, ll. 1691, *Poyle and Calaber land*, sef Apulia a Calabria, gwledydd cyfagos yn yr Eidal. Cysylltid y ddwy wlad yn aml â'i gilydd; cf. C.M. 80. 23, ef a gauas gorstinabyl ar calabyr ar pwyll a gwlat ruuein, H.M. II. 82, ar calabyr a ruuein ar pwyl. Yn *Les Sept Sages de Rome*, td. 9, yr Aifft yw'r wlad. Yn rhai o'r trosiadau Apulia yn unig.

898 *a dyfassei heint yndaw:* mae'r rhagenw perthynol *a* yn y cyflwr traws yma. Yn awr y ffurf *y* a arferid. Cymharer: a ffiol eur *a* anho llawn diawt y brenhin *yndi* W.M.L. 3. 4.

943 *pan yw:* gweler y nodyn ar 174.

947 *damwein:* cf. 638.

952 *ffwrwr:* gweler E.E.W. 157, ("ME furre"), lle y rhoir *ffwryr* S.G. 211, a *ffwrwr* I.D. (Yn arg. Bangor o *Waith Ieuan Deulwyn*, td. 89, esbonnir y gair fel *furrier*. Mae hyn yn anghywir. Dyma'r pennill—

gwn ssidan ach aryan chwi
gwn ffwrwr gan ffy harri.

Dau ŵn o ddau fath o frethyn—gŵn *sidan* ag arian Syr Rhisiart, a gŵn *ffwrwr*, "fur gown," ar gost (ffy= S. *fee*) Harri.

954 *agreithaw:* cf. 830, 866.

956 *þan yw:* cf. 174.

966 *llittio:* 3ydd pers. un. amser pres. dibynnol. Y berfenw yw *llityaw, llidyaw.*

989 *yny:* Llsgr. *yn yd;* ystyr *yn yd* (="yn ydd") fel rheol yw "pan," "a hithau'n llewygu." Gwell darlleniad yw *yny oed*, "hyd nes iddi lewygu."

994 *dial drymach:* ceid y treigliad meddal ar gytsain gyntaf ansoddair o'r radd gymharol, ar ôl enw o'r ddau ryw a rhif mewn brawddeg negyddol. Cf. diheu oed ganthunt na welsynt eiryoet llongeu gyweiriach eu hansawd W.M. 39. 12, nyt oes seith cantref well noc wy, ibid. 62. 16, Nid oes pen waeth na phen sarph Eccl. XXV. 15.

1069 *bran . . . . hwnnw:* sylwer bod *brân* yn wrywaidd yma. Felly hefyd yn yr Wyddeleg. Yn uwch ceir y gair yn fenywaidd, 1054.

1073 *holi:* "hawlio." Golygai *hawl* "claim" a "cwestiwn." Felly *holi, holaf*, etc.

1079 *differth:* 3ydd pers. un. gorff. *differaf*, berfenw *diffryd*. Cf. *cymerth, cymeraf, cymryd.* Golyga "amddiffynnodd."

1090 *ty vwrgeis:* cf. 43, 103.

1096 *goreu a galler:* J. 3 goreu a aller. Yma gall bod *a* yn sefyll am *y*, cf. nodyn ar 27; neu fod yr *g* wedi ei sgrifennu heb nodi'r treigliad.

1099 *lavwr:* cf. E.E.W. 83, "laver."

1105 *wedy r' dyuot:* "wedy ry dyuot." Cf. 521.

1121 *a amgreffinnawd ehun:* Cf. *ysgraffinio*, "crafu." Mae'r *am-* yn gyfystyr ag *ym-*, ac felly nid oes angen y rhagenw mewnol *'e* (='*i*) i *ehun* bwyso arno; cf. W.G. 307, E.W.G. 102.

1126 *rywneuthur:* cf. 521.

# GEIRFA

## A.

abrwsgyl 594, mawr iawn; cf. nodiad.
ac atuyd 50, efallai; cf. W.G. 440, E.W.G. 190.
adaw 353, gado, gadael. Gweler nodiad 2.
adolygawd 844, 879, 3ydd un. gorff. o *adolwyn*—"atolygodd," "crefodd."
adaw 112, 427, 1056, addaw, addo; adawaf 25, "addawaf."
adeuych 290, addefych; ail bers. un. pres. dibynnol o *addef*.
aduwynbrudd 403, addfwynbrudd, prudd="doeth."
adoet 118, 344, 550, 623, 688, addoed, "marwolaeth."
adoli 1016, adoli y arglwyd dat="addoli i'w arglwydd dad," h.y., dangos parch neu dalu anrhydedd iddo.
auory 57, 180, 306, 516, afory, yfory.
agoryat 972, agoriad, allwedd.
agreiffto 830, angreiffto; agreithaw, 954, angreithaw; "ceryddu." agreithawd 866, angreithawdd, "ceryddodd."
allt 1045, tyle, bryn.
am 93, 108, etc.; amdanaf 1030, amdanei ("amdani") 331, 775. Ceir hefyd *ym-* yn y ffurfiau personol, ymdanat 839, ymdanaw ("amdano") 117, *ymdanei* ("amdani") 865, ymdanam ("amdanom") 656.
amdyfrwys 851, amddyfrwys, gweler y nodiad.
amgreffinnawd 1121, gweler y nodiad.
amnoeth 392, noeth iawn.
anaf 126, nam.
anuab 48, anfab, "heb fab."
angerd 143, 672, angerdd, "nwyd."
anmyned 558, anmynedd, hen ffurf y gair *amynedd*.
anneiryf 491, aneirif, "llawer iawn, na ellir ei rifo."
annwyt 935, annwyd, "natur, tymer."
anrec 971, anrheg, "saig," *dish*.
ansawd, ansawdd 175, 436, "modd."
ar 119, 139, etc., 3ydd pers. un. ben., arnei 595, 818, 989, erni 91, 352, 617, 771: 3ydd pers. lluosog, arnadunt "arnaddunt" 971, 981; ar uaeth 16, etc., ar faeth, "i'w fagu a'i feithrin"; ar hynt 118, 805, "ar unwaith, yn union."
arch 1116, "gorchymyn."

ardymeredic 277, " wedi ei dymheru."
ardunyant 83, arddunyant, " addurn "; 114, " anrhydedd."
aruoel 673, arfoel, " moel."
aruot 607, arfod, " cyfle, amser." Gweler nodyn yn *Breuddwyd Maxen* ar 11. 14.
arhown 344, pers. cyntaf un. amser amherffaith *aros*, yn awr " arhoswn."
aruthur 591, aruthr, " rhyfeddol."
att, 12, etc., attei=ati, 992.
awch 66, 515, " eich."

B.

baed koet 177, baedd coed, " baedd gwyllt."
ban 139, " pen."
bar 1018, bâr, " dicter."
baril 506; barileit 500, 522, 528, barilaid, " llond baril."
bei 62, 3ydd un. amherff. dibynnol o *bod*. Fe'i harferir fel cysylltiad 380, 461, hefyd yn y ffurf *pei;* heddiw, *pe*.
beunoeth 711, 769, " bob nos." Gweler *peunoeth*.
bit 389, 1002, 1095, bid, " bydded," 3ydd. pers. un. gorchmynnol o *bod*.
bocsach 964, " ymffrost."
bonwyn 84, " â'r bôn yn wyn."
brasgameu 659, " camau bras, neu fawr."
brat 429, 747, brad.
brawdwr 1131, " barnwr "; llu. brawtwyr 355.
bredychu 752, " bradychu."
breuant 201, " corn gwynt, corn gwddf, cegen wynt."
breudwyt 528, 737, breudwydon 731, breudwydyon 734; breuddwyd, -ion. Sylwer dy ureudwyt . . . . amdanaw (h.y., gwrywaidd) 738–9, dy ureudwyt . . . . y gwelet (h.y., benywaidd) 740–1. Cf. nodiad, *Breuddwyd Maxen* 5. 14.
bricawcdwn 392, " â'i frig yn dwn, neu wedi eu torri "; bricawclas, 183, 369 , " â'i frigau'n las."
broder 493, hen ffurf luosog *brawd;* " brodyr."
bwrgeis 103, 1090, " bwrdeisiwr, trefwr." Gweler nodyn ar 103.
bylchawc 776, bylchog. Cyfeirir at y bylchau neu'r rhwyllau hynny a fydd ar ben uchaf muriau castell neu gaer.

C, K.

kaeu 332, " cau."
kam 910, cam, " anghyfiawnder."

kamgylus 359, "ar fai, beius, euog." Ansoddair o'r gair *cam*+*cŵl* (="bai").
kanhadu 1064, "caniatau"; 3ydd un. gorff. kanhadawd 876, "caniataodd." Cf. kanyat.
kanhalprenn 385, "cynhalbren."
kany 225,=kan ny, "gan na, canys ni."
kanyat 1060, "caniatad." Cf. kenyat.
caplawd 245, "cablodd."
karadas 870, "caru dirgel."
kared 910, 1001, caredd, "pechod."
kawc 1099, cawg, "basin."
kebyd 267, "cybydd."
kedymdeith 18, cedymddaith, "cydymaith."
keig, keing 104, 101, 376, 384, "cangen."
keluyd 236, celfydd, "clyfar."
kenedyl 227, 340, 636, 916 (cenedl), "perthnasau."
kennat, kennadeu 218, 69, 730–1, cennad, cenhadau.
kenyat 874, "caniatad." Cf. kanyat.
kerenyd 1017, "carennydd, cyfeillgarwch."
kerwyneit 276, 285, cerwynaid, "llonaid cerwyn neu dwbyn."
kewilyd 706, "cywilydd."
clybot 328, clybod, "clywed."
kneifaw 677, cneifio.
coeleit 189, coelaid, coflaid, "baich." Cf. D.D.G. 117, 124, 115.
credu 176, 436, etc. Fel rheol, dilynir y berfenw a'r ferf gan wrthrych anuniongyrchol ar ôl yr arddodiad *y* (=*i*). Ond ceir y gwrthrych uniongyrchol yn 430, 1004, a'r cyflwr perthnasol gyda'r berfenw yn 548.
cret, kret 132, 179, etc., cred. Mae ei ystyr yn nes i *ffydd* nag i *gred* yn awr; myn vyg cret, megis "by my faith" yn Saesneg. Cf. *foi* yn Ffrangeg.
crocwyd 631, 653, crogwydd; crog + gŵydd ("pren").
crut 142, 160, crud, "cawell."
kuhudaw 1027, cyhuddo.
kuhudet 126, 406, "cyhuddiad."
kuryaw 772, curio, "gofidio, dolurio."
kyuoeth 473, 516, 797, 911 (cyfoeth), "gwlad, teyrnas"; 746 "awdurdod, gallu." Gweler *Cyfranc Lludd a Llevelys*, nodiad ar 1. 19.
kyfoethawc 267, kyfoethogach 719, cyfoethog, cyfoethocach; 414, cryf.
kyfreideu 498, cyfreidiau, "angenrheidiau."

kyffroedigaeth 61, " symudiad."
kymen 63, " medrus " ; y radd gyfartal, kymhennet 423.
kymhendawt 419, cymhendod, " medr."
kymhendoeth 37, 415, 555, cymhenddoeth, " medrus a doeth."
1. ky kyn (cysylltiad cymharol) 560, 536, 693, 796.
2. kyn (arddodiad), kyn no 601.
3. kyn (cysylltiad), kyn nys. 51, " er nas."
kyndrychawl 299, 498, 720, " presennol."
kynhewi 857, " tewi."
kystudyaw 289, 830, cystuddio, " poeni."
kyt, 73, 727, " pe."
kytkam 78, 571, " cellwair caru."
kytsynnedigaeth 1075, " cyd-fwriad."
kytwledychy 1109, " cyd-lywodraethi," ail bers. un. pres.
kythrudyaw 1007, cythruddo.
kyweirdeb 577, trefniant.
kywiro 588, " cyflawni, dwyn i ben."

## CH.

chwannockaf 264, 501, " mwyaf ei chwant."

## D.

dadleudy, dadleuty 117, 757, 307, " senedd-dy."
damweinawd 732, damweiniodd, " digwyddodd, tarawodd."
daruot 251, 682, 843, 939, etc., darfod : pres. un. 3, deryw 253, derw 699 ; dyfodol un. 3, deruyd (=derfydd) 700 ; amherff. un. 3, daroed (=daroedd) 698, 979 ; gorff. un. 3, daruu (=darfu) 710 ; dibynnol pres. un. 3, darffo, 454.
darogan 49, " proffwydoliaeth."
deuodeu 13, 1050, defodau, " arferion."
deuodyat 795, dyfodiad.
dehogyl 738, dehoglei 1057, dehongl(i), dehonglai.
deholet 910, " deholwyd."
dewindabaeth 522, " dewiniaeth."
dewinyon 730, " dewiniaid."
diamsathyr 804, diamsathr, " diarffordd, tawel."
diannot, 523, 1133, " heb oedi."
diaspat 82, " gwaedd " ; diaspedei 582, cf. nodiad.
diuessured 274, difesuredd, " mwy nag a ellir ei fesur."

dihauarchlym 270, dihafarchlym, " heini a dewr."
dihenyd 62, dihenydd, " marwolaeth."
dihenydyaw 180, 248, etc., dienyddio, " lladd "; amhersonol pres. myn. dihenydyir 133, 180, 215, etc., dib. dihenydyer 132, 215; gorff. dihenydywyt, 172.
diheurwyd 862, diheurwydd (o *diau*) " sicrwydd."
dioer 997, " yn wir." Acennir ar y sillaf olaf; weithiau bydd yn unsillafog. Llygriad yw o " Duw a ŵyr."
diweir 998, diwair, " ffyddlon."
diwybyr 1010, di-wybr (*vapour, haze*).
dogyn 198, 611, dogn.
dolurya 1108, doluria, " poena " (gorchmynnol un. 2).
drigyaw 191, 386, dringiaw, " dringo."
drycanyan 956, " tymer ddrwg."
drylleu 153, 672, " darnau."
duundeb 110, 1077, " cytundeb."
dwywawl 1012, " duwiol," 1043, " dwyfol."
dybryt 550, dybryd, " gwarthus."
dydgweith 136, 1088, dyddgwaith, " diwrnod."
dyfynnawd 3, dyfynnodd, " galwodd "; dyfynassit 10.
dyffry 327, " deffry."
dygwydaw 1000, dygwyddo, " cwympo, syrthio "; pres. un. 3, dygwyd 244, 576, dygwydd.
dyly 760, 3ydd un. pres. o *dylyaf*, pres. un. 2, dylyy (cf. nodiad) 558; amherff. un 3, dylyei 357, 1080, " dylai."
dyscu, dysgu 13, 25, 29, dysgaf 26, dysgassant 36. Fe'i dilynir gan wrthrych y *peth* a gwrthrych anuniongyrchol y *person* ar ôl *y* (*i*) yn 13; ceir gwrthrych uniongyrchol y *person* yn y lleill.
dywedut 44, 90, 121, etc., dywedyd, " llefaru "; pres. un. 3, dyweit 1003, " llefair, sieryd "; gorff. un. 3, dywawt 48, 64, etc., dywat 73, 1095. Fe'i dilynir gan *wrth* 832, a chan *y* (=*i*) 836, 1093, 1105.

## E.

ebrwyd 748, 754, ebrwydd, " cyflym."
edewit 1062, edewidyon 431, " addewid, -ion."
ediged 330, eiddigedd.
eilwers 1036, bop eilwers, " bob yn eiltro," " bob yn ail."
eillaw 677, eillio.
ell 31, 881, =ill. Cf. td. 34.
ellwg, 221, 988, ellwng, " gollwng."

emelldigwyt 246, emelltigir 248, " melltithiwyd, melltithir."
enwir 441, " drwg."
erdrym 34, erddrym, " amlwg."
esgutlym 651, esgudlym; esgud=" cyflym."
ethrot 1002, 1027, " athrod."
ethrylith 24, " athrylith."
eurgrwydyr 145, eurgrwydr, " â rhygnau aur."

## V, U.

ual 59, 121, etc., fal, " fel."
vegys 1120, fegys, megys.
vym, 639, " fy."

## FF.

ffestet, ffesdet 87, 580, " caleted."
ffyryf 777, ffyrf, " cadarn."
ffyryfdan 727, ffyrfdan, " tân mawr."
ffyryftwr 777, ffyrfdwr, " tŵr cadarn."

## G.

gauaelgwn 443, gafaelgwn (*mastiffs*).
gan, 3ydd un. gwr. gantaw 94, 328, 369, etc., ben. genti 41, llu. gantunt 283. Gweler nodiad 395.
germein 1083, " gweiddi."
glut 277, glud (*glue*).
gorawenus 54, 1082, " llawen."
gordiwedei 350, gordiwedir 289, gorddiweddai, gorddiweddir (berfenw, gorddiwes, " goddiweddyd," *overtake*).
gordwy 89, gorddwy, " gormes."
gordyfnassei 193, gorddyfnassai, " arferasai " (berfenw, gorddyfnaid).
gorymdeith 60, 237, " cerdded am dro."
gosper 1092, " yr hwyr."
gossymdeith 911, " cynhaliaeth."
gowenu 1104, " hanner gwenu."
gressawu 72, " croesawu."
greu 1034, 1054, grëu, " crawcian."
greuat 1057, " crawc."
gware 572, " chware."

gwedy, "wedi"; arddodiad, 514, 885, 959, etc., a gwedy 2, 337, 629, 682, etc.; cysylltiad, gwedy y 437 (heb *y*) 454, 966, gwedy na 223, 1059.
gweryrat 143, gweryriad (*neighing*).
gwledychu 111, "llywodraethu."
gwrawldrut 659, gwrawlddrud; gwrol + drud ("glew").

H.

hagen 175, "ond, eithr."
hanoed 227. Gweler td. 41.
heb olud 111, heb oludd, "dirwystr."
heb 47, 342, 382, etc., heb yr 19, heb y 15, 22, "eb, ebr, ebe."
helw 814, "meddiant."
herwr 643, 668, herwyr 598, "gwilliad, -iaid, *outlaw*."
hwydawd 899, "chwyddodd."
hwyl 608, "cwrs."

I.

iat 679, iad, copa'r pen.

LL.

llebydyaw 341, "llabyddio."
lledyr 671, lledr. Gweler y nodiad.
lleisteiraw 102, -yaw 104, "rhwystro."
llogi 902, "hurio, cyflogi."
llynn 981, "diod."
llysuam 76, llysfam.
llywyaw 416, 717, 745, "llywio, llywodraethu."
llywygu 989, "llewygu."

M.

maedei 87, 580, "maeddai, trawai."
mantach 678–9, "di-ddant."
massw 704, "meddal, salw."
mawred 787, mawredd, "rhwysg."
mawrweirthawc 267, "gwerthfawr."
medi 243, "torri."
meithryn 108, "meithrin, magu."
memrennyd 681, "memrynnydd, gwneuthurwr memrwn (*parchment*)."
morc 903, 1049, darn o arian, *mark*; cf. I.G.E. 55, ll. 3–4.
mynutrwyd 14, mynudrwydd, "arferion da." Gweler I.G.E. td. 351.

N.

nachaf 69, " dyna, wele."
namyn 185, 220, etc., " ond, eithr."
nawd 926, nawdd, " amddiffyn."
no 73, 590, etc., noc 582, " na, nag."
nyt amgen 4, " sef."

O.

1. o (arddodiad) 3, 4, etc., 1af un. ohonaf 1115, ail un. ohonat 50, 686, 3ydd un. gwr. ohonaw 521, 793, ben. ohonei 227, 811, 3ydd llu. onadunt (onaddunt) 720.
2. o (cysylltiad) 456, 535, 1023, " o, os." Fe'i dilynir gan y treigliad llaes, 248, 311, 454, 517, etc.

oc 66, 1075, " o, â."
od 378, " os."
odieithyr 33, 741, 772, 1013, oddieithr, " y tu allan i."
oduch 610 (odduch), " uwch ben."
offeren 879, 1012, gwasanaeth Eglwys Rufain.

P.

pan 957, pân, defnydd gwlanog.
perued 481, perfedd, " canol."
peunoeth 724, Gweler *beunoeth.*
planbrenn 935, " pren planedig."
pony 993, " oni ? "
porthawr 788, porthor, " dryswr."
prenuol 973, " cistan, blwch."

R.

racko 384, 437, " acw."
rwg 1016, rhwng.
rynnawd 630, " ysbaid, rhywfaint."

S.

sagei 333, sangai.
sarhaet 95, " sarhad."
seibeint 444, " seibiant, hoe."

sirif syryf 562, 570, "siryf, sirydd."
swrkot 952, *surcoat.*
sygneu 61, "arwyddion," *signs of the zodiac.*
syr 61, sŷr, "sêr."

T.

tal 679, tâl, "talcen."
telediw 771, "hardd."
tremygu 81, tremygawd 80, "dirmygu, dirmygodd."
tridie 1046, "tridiau, tri diwrnod."
trywyr 649, "tri gŵr."
tybyaw 831, "drwgdybio."
tybygei 729, "meddyliai."
tygyawd 423, "tyciodd."
tygu 333, tygawd 92, 586, 817, tyghawd 918, "tyngu, tyngodd."

U.

uchafyon 679, "pen uchaf."
unbennes 585, 624, "arglwyddes."

W.

wrth 595, 691, 820, 855, 874, "gan, *since.*"

Y.

1. y 8, 12, 13, etc. (arddodiad) "i." 1af un. ym 12, ymi 644, ail un. itt 131, itti 49, 561, yti 892, ytt 549, 708, ytti 210, 3ydd un. gwr. idaw (iddaw) 49, ben. idi 618, 3ydd un. llu. udunt (uddunt) 3. Gweler td. 34–7.
2. y, yr, 'r (y fannod).
3. y 2, 25, etc. (y rhagenw personol) "ei, eu." Gweler td. 33–4.
4. y, yd (ydd), (y rhagenw perthynol) "y, yr." Gweler. td. 37.
5. y="o, oddi"; y ar 297, 469, 702, 705, 750; y dan 156, 160, 430, 533; y gan 69, 203, 912; y wrth 381, 427, 1058.

ydrywed 469, ydrywedd. Gweler nodiad.
ygwaethach 871, yngwaethach, "chwaethach, llai o lawer."
ym 131, 647, 664, 692, "myn (fy)!"
ymgynhewi 821, "tewi."
ymliw 984, "edliw."

1. yn 29, 44 etc. (arddodiad).
2. yn 22, 454, etc., "ein." Hefyd, an 463, 838. Gweler td. 34.

yny 36, 290, etc., "oni, hyd oni." Gweler nodiad 347.

yr 45, 109, 158, 297, 428, 447, 687, 839, 903, 1002, 1049, 1065, 1071, 1113–4, 1122, "er."

yrmoet 620, "erioed (er fy oed)."

yrwng 137, 559, 675, 1030, 1045, "rhwng." 1af un. yrof 15, 380 ("rhof"), 3ydd llu. yrygtunt 881, yryngtunt 722.

ysclyfyeit 953, ysclyffyeit 1041, "cipio." (Mae'n bosibl darllen *ysclyffyeit* yn 953; nid yw'r llsgr. yn gwbl clir.)

ysgafel 283, "ysglyfaeth."

ysgraff 1034, 1107, "cwch."

ysgrybul 447, yscrubyl 452, "anifeiliaid."

ysgythru 82, "tocio." (Gweler nodiad yr Athro Ifor Williams ar *ysgithrog*, I.G.E. td. 356–7, lle y dyfynna o D.D. Dyry'r Dr. John Davies *pampinare* fel un ystyr i *ysgythru*, a than y Lladin *pampinare* ceir "*ysgythru* ofer gangau a dail y gwinwydd.")

ystrywgall 275, ystrywgar 425, 815, "dichellgar."

## RHESTR O'R ENWAU PRIOD.

Awgustus 5, 19, 208.
Bantillas, 5, 15, 120.
Kato Hen, Catomas 22, 554, 563, 6.
Diawchleison 1.
Eua 2, Efa.
Fferyll 480.
Ffreinc 184.
Gracian, Grassian 502, 475.
Iesse 7, 26, 759.
Ipokras 211, 216.
Lentilus, Lentillus 6, 309.
Lesodonia 562, 570.
Malqwidas 6, 402.
Martin, Martinus 921, 1000, 7.
Nawern 229.
Rufein, Ruuein 1, 2, 484, 489, etc.
Ugarie 218, Hwngaria.
Y Pwyl 491, 893.

GWASG Y DYWYSOGAETH

WRECSAM

HUGHES A'I FAB, CYHOEDDWYR

S0-FUM-420